# ECO'R WYDDFA

Rhif 107 HYDREF 1985 Pris 20c


# CEFNOGWCH WEITHGAREDDAU'R FRO

**A'r hydref wrth y trothwy bydd nifer o gymdeithasau'n dechrau'u rhaglen waith a chynhelir digwyddiadau pwysig, fel eisteddfodau, nosweithiau llawen, dramâu a gŵyl werin yn y fro. Cewch lawer o fanylion yn y rhifyn hwn o'r Eco. Ceisiwch gefnogi cymaint ohonynt ag sy'n bosib.**

## BISTRO – PRIF DŶ BWYTA CYMRU



*Y Bistro Llanberis yw hoff dŷ bwyta nifer helaeth o bobl yr ardal hon a llu o ymwelwyr. Dyna ddaeth i'r amlwg mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Foduro'r R.A.C., papur y 'Sunday Times' a Bwrdd Twristiaeth Gwledydd Prydain. Rhoddwyd bwyty uniigryw Danny a Nerys Roberts ar frig y rhestr.*

*Pwrpas y gystadleuaeth yng Nghymru oedd dod o hyd i dŷ bwyta neu westy a roddai wir "Flas ar Gymru" gan ddefnyddio cynnyrch ffres lleol ac arddangos medr a dychymyg wrth ei goginio a'i gyflwyno.*

*Yn y llun uchod mae'r actor Glyn Owen (sydd â'i deulu yn hanu o'r Groeslon) yn cyflwyno'r wobr i berchnogion y Bistro, sef Danny a Nerys Roberts. Ar y dde mae'r Aelod Seneddol Dafydd Wigley.*

## 'SGOTWR O LANRUG YN CYNRYCHIOLI CYMRU



Dydd Sadwrn a dydd Sul Medi 21 a 22 roedd Alun Pierce o Lanrug ar draeth ger Amlwch yn cynrychioli ei wlad mewn cystadleuaeth ryngwladol Pysgota Môr o'r lan.

Dewiswyd Alun, sy'n aelod o glwb Pysgota Môr, Bangor, i'r tîm cenedlaethol eleni ar sail ei lwyddiannau mewn profion ac hefyd ar sail ei ddeng mlynedd o brofiad fel 'sgotwr brwdfrydig. Cyfaddefodd mai pysgota (bob penwythnos, yn ddi-feth) a chyfarfodydd a phwyllgorau ynglŷn â physgota sydd yn dwyn ei holl amser hamdden. Ategwyd hyn yn bendant gan Medwen ei wraig!

Er mai trydydd (ar ôl Lloegr a'r Alban, gydag Iwerddon yn bedwerydd) oedd Cymru, mwynhaodd Alun y profiad a gobeithia'n fawr y gall eto gynrychioli ei wlad y flwyddyn nesa, pan gynhelir yn Iwerddon Cystadleuaeth Ryngwladol Pysgota Môr o gwch.

## YMDRECH ARBENNIG HOGIA DEINIOLEN



Ym mis Awst cynhaliwyd gêm snwcer dros gyfnod o 12 awr gan ieuenctid clwb snwcer Deiniolen er mwyn codi arian at y 'C.A.T. Scanner'.

Peiriant yw'r 'C.A.T. Scanner' mae Ysbyty Gwynedd yn ceisio ei brynu, sy'n darganfod 'cancer' yn y corff. Mae'n costio o gwmpas £750,000 ac hyd yn hyn maent wedi casglu £15,000.

Casglwyd £310 gan yr Ieuenctid, ac hefyd rhoddodd Clwb Snwcer Deiniolen rodd o £90 i wneud y swm yn £400.

Hoffai'r hogiau ddiolch i bawb a gyfrannodd, i bobl busnes yn Neiniolen ac eithrio un neu ddau, ac yn enwedig i Fecws Deiniolen am y bwyd, y Siop Gig am y cig, ac i'r Clwb Snwcer am fenthyg yr adeilad, a'r golau, a'r rhodd o £90. Diolch hefyd i John a Dafydd am eu llofnodion ar y ffurflenni.

Mae angen mwy o arian ar Ysbyty Gwynedd i brynu'r peiriant a buasent yn bur ddiolchgar am eich rhoddion.

Y cyfeiriad yw:
C.A.T. Scanner Appeal,
Ysbyty Gwynedd,
Ffordd Penrhosgarnedd,
Bangor.

*Yn y llun mae Mr D. Wilson ar ran yr Ysbyty yn derbyn siec gan yr hogia.*

## LLWYDDIANT EISTEDDFODOL



*Lowri Angharad Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug gyda tharian a chwpan a enillodd yn Eisteddfod Gadeiriol Caernarfon ddydd Sadwrn, Medi 29. Enillodd darian am ddod yn gyntaf am ganu'r Unawd 9-12 oed a Chwpan Coffa Rhian Wyn am y perfformiad cerddorol gorau yng nghyfarfod y pnawn. Dyma'r trydydd tro mewn tair blynedd i'r cwpan ddod i Lanrug — fe'i enillwyd y llynedd a'r flwyddyn cynt gan Ffion Jon, Ffarm Minffordd.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 107**
**HYDREF 1985**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR


**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS:** Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)
**FFOTOGRAFFYDD:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 77163). Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN:** W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS:** Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**NANT PERIS:** Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU:** Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)


## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**HYDREF 31**

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH HYDREF 22**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## ATGOFION AM GLWT-Y-BONT

*Annwyl Olygydd,*

*Cefais un o'r oriau mwyaf difyr yn darllen hanes Clwt y Bont gan Buddug. 'Roedd yr ardal yn fy meddwl drwy'r gyda'r nos, fel yn aml.*

*Mor ardderchog oedd yr hen ddull o fyw, pawb yn adwaen ei gilydd, mcr gymdogol a pharod iawn eu cymwynas. Rhywbeth yn y capel bron bob noson waith, ac yn paratoi at yr eisteddfodau.*

*A'r Sul yn cael ei barchu, bron pawb yn mynychu'r capel ac yn eu dillad gorau. Bûm adref yn ddiweddar; 'roeddwn innau wedi synnu gweld y newid. 'Roeddwn yn falch o ddarllen yr enwau gan Ivor am yr hen dyddynnod sydd wedi eu chwalu. 'Roeddwn wedi anghofio rhai ohonynt ond buan y daethant i'm cof. 'Roeddwn yn falch hefyd o weld llun Will Sam a'i hanes difyr.*

*Cofion cynhesaf at Clwt y Bont.*

*Eirlys Harneshaw*
*(Morris o Teras)*

O.N. Roeddwn yn byw yn y Teras dros hanner can mlynedd yn ôl. Morris oeddwn pryd hynny. Oes rhywun yn cofio y Ddrama 'Angharad'. Dyma lun o'r cwmni, mae fy nhad wrth y droell yn sefyll.

## CWMNI "ANGHARAD"



## SNWCER YN LLANBÊR

Gwelais yn yr Eco fod canolfan i chwarae snwcer wedi agor yn y pentref. Rwyf yn falch iawn o glywed, canys er pan wnaeth Park Lane gau, collodd hogiau ifanc y pentref siawns i ddysgu'r gêm ardderchog hon. Bûm i a llawer o fechgyn o fy oed yn lwcus o gael dysgu'r gêm, a threuliais oriau yn 'lle biliards' efo 'Tomos' yn cadw llygad barcud arnom.

Dyma ddarlun o dîm snwcer yn y flwyddyn 1957 – Tim B – fel y gelwid ni. O'r chwith i'r dde – Glyn Roberts (Penbryn), Keith Roberts, Meirion Evans, Allan Williams, Brian Jones, John Rhys, Griff Huws.

Pob hwyl i'r Eco,
Griffith E. Huws
(gynt o 7 Stryd Siarlot, Llanberis).



**PLYGIR YR ECO NESAF NOS IAU HYDREF 31 YNG NGHANOLFAN WAUNFAWR AM 6 O'R GLOCH**

## APÊL AR RAN Y GYMDEITHAS

*Annwyl Olygydd,*

*Yn wyneb yr argyfwng cynyddol sy'n peryglu'r Gymraeg ym mroydd Gogledd Cymru mae Cymdeithas Yr Iaith wedi penodi Trefnydd llawn amser i weithio yng Ngwynedd a Chlwyd. Cychwynna Siân Howys, 23 mlwydd oed sy'n hanu o Ystradgynlais, Cwmtawe ac wedi graddio yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Bangor, ar ei swydd newydd yn ystod mis Medi. Gwêl Y Gymdeithas y penodiad hwn fel cam pwysig ymlaen yn ei hymgyrch i amddiffyn ein diwylliant Cenedlaethol ac i sicrhau amodau byw realistig i'r Gymraeg.*

*Fe wyddom oll fod yna nifer o ffactorau amrywiol yn tanseilio'r Gymraeg heddiw; diffyg arweiniad, ac, ar adegau, polisiau niweidiol gan ein Cynghorau, diffyg cyllid digonol oddi wrth Lywodraeth Ganol ynghyd â difaterwch cyffredinol. Gall neb wadu nad ydyw hi'n unfed awr ar ddeg ar ein Hiaith, hyd yn oed yng "nghadarnleoedd y Gogledd". Ystyriwn y ffeithiau canlynol:*

*Gwynedd yw'r unig sir yng Nghymru lle mae mwyafrif y boblogaeth yn dal yn Gymry Cymraeg; 61 yw'r canran presennol. Ac eto, dagrau pethau ydyw bod nifer y cymunedau sydd â dros 75 y cant yn siaradwyr Cymraeg yn lleihau yn enbyd o gyfrifiad i gyfrifiad, e.e. ym Môn yn 1921 nifer y cymunedau Cymraeg oedd 55, erbyn 1981 y ffigwr oedd 28.*



*Nid yw'n afresymol i feddwl erbyn 1991 mai lleiafrif fydd y Cymry Cymraeg yng Ngwynedd. Yr hyn sydd i'w feio fwyaf am y fath sefyllfa yw'r mewnfudo cwbl ddi-lywodraeth i Wynedd dros y degawdau diwethaf. Daw mewn fudwyr yma i fyw ar y stadau tai di-angen sydd wedi codi fel madarch dros bob man, o Harlech i'r Gaerwen, ac i renti tai haf wrth y fil.*

*Cofiwn mai dim ond 50 y cant o blant ysgolion cynradd Gwynedd sydd, erbyn hyn, yn Gymry cynhenid. Gesyd hyn straen aruthrol ar Bolisi Addysg Gwynedd; nid yw'r llond llaw o Ganolfannau Iaith a sefydlwyd gan Y Cyngor yn ateb realistig i'r broblem o gymhathu'r plant di-Gymraeg. Bellach mae holl sylfaen Cymreictod Gwynedd mewn perygl dybryd. Gwelsom gyda dyfarniad gwarthus y Triwbiwnlys ym Mae Colwyn yn ddiweddar ba mor frau a bregus yw Hawliau Suful sylfaenol Cymry Gwynedd a Pholisi Diwieithog Y Cyngor Sir mewn gwirionedd.*

*Mae hen ddigon o waith gan Gymdeithas Yr Iaith i'w wneud yng Ngwynedd. Beth am gymryd safiad pendant dros y Gymraeg ac ymuno ag ymgyrchoedd y Gymdeithas? Mae gennym gelloedd lleol mewn nifer o ardaloedd yng Ngwynedd; Môn, Caernarfon, Bangor, Meirion. Yn sgîl penodi Trefnydd llawn amser mae angen eich cefnogaeth ariannol arnom.*

*Yn ystod y misoedd nesaf bydd aelodau Rhanbarth Gwynedd yn gweithio'n galed i drefnu Cynhadledd Cynllunio ym Môn, yn pwyso ar Bwyllgor Addysg Gwynedd i ddatgan ei gefnogaeth i Gorff Datblygu Addysg Gymraeg, yn brwydro i Gymreigio, ac atal toriadau yng Ngwasanaeth Iechyd y Sir.*

*Os hoffech wybod mwy am weithgareddau'r Gymdeithas neu os hoffech wneud cyfraniad at y gwaith cofiwch gysylltu â'r Trefnydd Newydd*

*Siân Howys, Swyddfa'r Gogledd,*
*12 Stryd Hennesey, Dinbych,*
*Clwyd.*


## AR OSOD

Tŷ yn Llanberis. Ffoniwch: Llanberis 870695

## TEGANAU

Peidiwch a thaflu hen deganau. Buasai Clinic Llanberis yn falch o'u derbyn.

# 'SNWCER O'R DIWEDD'

**Dros ddeugain mlynedd yn ôl ffurfiwyd Pwyllgor o Gynrychiolwyr gwahanol fudiadau yn Llanberis i drefnu croeso i ieuenctid y pentref adref o'r Lluoedd Arfog. Cychwynwyd cronfa i adeiladu Neuadd Bentref. Yr oedd hon i gynnwys neuadd gyhoeddus, llyfrgell, ystafelloedd pwyllgorau a darlithiau, man i gynnal chwaraeon gyda dau fwrdd snwcer ynddi yn bennaf at wasanaeth y bobl ieuainc. Cafwyd pleidlais unfrydol bron, yn dangos fod y trigolion yn bleidiol iawn i'r fenter.**

Erbyn heddiw gwireddwyd breuddwydion y trigolion, – ond nid yn uniongyrchol, o ganlyniad i ymdrechion caled y Pwyllgor gwreiddiol er mor frwdfrydig a gweithgar yr oedd yr aelodau. Anodd iawn yn 1945 oedd cael dau ben llinyn ynghyd. Yn 1956 cafwyd Canolfan hardd i'r Henoed (a ddaeth yn ganolfan bentref yn ddiweddarach) trwy haelioni Syr Michael Duff. Adeiladwyd llyfrgell daclus yn ffordd Capel Coch gan Lyfrgell y Sir. Sicrhawyd ystafelloedd pwyllgorau yn Angorfa gan y Cyngor Cymuned. Yna yn ddiweddar, ychwanegwyd at y ganolfan, drwy garedigrwydd y Bwrdd Cynhyrchu Trydan, ac fe gafodd Llanberis ei neuadd chwaraeon. Cafwyd popeth a obeithiwyd amdanynt o ffynonellau eraill – popeth ond dau fwrdd snwcer.

Dros ddeng mlynedd yn ôl dan gadairyddiaeth y Cynghorydd Cymuned Ken James Jones penderfynwyd ymestyn diwrnod Carnifal Llanberis i Wythnos o weithgareddau gyda'r bwriad o rannu'r elw i gynnal breichiau mudiadau'r pentref. Erbyn heddiw cydnabyddir Canrifal Llanberis fel un o garnifalau mwyaf poblogaidd Gogledd Cymru gan ddenu cannoedd o bobl i Ddôl Goeden bob blwyddyn. Un o'r mudiadau sydd wedi elwa yn ystod y deng mlynedd yma yw'r Ganolfan. 'Roedd aelodau'r Pwyllgor Carnifal yn benderfynol o gael dau fwrdd snwcer i'r ganolfan.

Y flwyddyn hon, ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, drwy ymdrechion brwd y Pwyllgor Carnifal ynghyd â llafur caled llawer iawn o drigolion gweithgar Llanberis cwblhawyd gobeithion aelodau Pwyllgor 1945.

Y diweddar annwyl Lal Jones, gwas hynod o ffyddlon i'r pentref a archebodd y byrddau. Chwith yw meddwl na chafodd fyw i'w gweld yn daclus yn eu lle priodol. Ond fe erys y byrddau fel teyrnged gweladwy iddo ef a llu o gyfeillion eraill a roddodd eu hysgwyddau dan yr iau heb gyfri'r gost, a mawr obeithir y cânt barch haeddiannol gan yr oesoedd a ddêl.

Nod Pwyllgor 1945 i godi Canolfan i Lanberis oedd £7,500. Côst dan fwrdd snwcer i'r ganolfan ei hun heddiw yw £7,500! Ydi, mae pethau wedi newid!

A.J.



*Y tri yn cynrychioli y tair gangen o'r lluoedd arfog Owen 'Buddy' Jones, Bert Thomas, Huw Alun Roberts. Hwygafodd y gêm gyntaf ar y byrddau newydd.*

**TARO TANT**
**a**
**NOSON LAWEN**

Mae Teledu'r Tir Glas, sy'n gyfrifol am y ddwy gyfres boblogaidd uchod ar S4C, wrthi yn chwilio am dalentau newydd i'w cynnwys mewn dwy gyfres newydd. Maent yn cynnal gwrandawiadau ar hyd a lled Cymru rhwng Hydref 22 a Hydref 31. Bydd y gwrandawiadau yn cael eu cynnal rhwng 7 a 10 o'r gloch y nos, ac ar Hydref 31 byddant yn Ysgol Syr Hugh Owen Isaf, Caernarfon. Mae 'na wahoddiad i unrhyw ganwr, grŵp neu ddiddanwr sydd â diddordeb ac yn meddwl bod yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig yn addas ar gyfer y rhaglenni hyn, anfon at Tir Glas a gofyn am ffurflen gais os ydynt am gael gwrandawiad.

Mae'r Cynhyrchydd, Huw Jones, yn chwilio yn bennaf am gantorion a grwpiau pop (yn hytrach na roc) ar gyfer 'Taro Tant', cyfres sydd yn anelu at ddarparu canu ysgafn at ddant pawb, ac am gantorion, partïon a digrifwyr sydd â phrofiad o weithio ar lwyfannau nosweithiau llawen ar gyfer y gyfres 'Noson Lawen'.

Dylid anfon at Teledu'r Tir Glas, Maesincla, Caernarfon, Gwynedd, neu ffonio Caernarfon 5766.


Anfonwn wahoddiad cynnes i chi ymuno â ni yng nghanhennau BRO ECO'R WYDDFA o Ferched y Wawr

**Bethel – yr ail nos Fercher**
**Deiniolen – y drydedd nos Lun**
**Llanrug – yr ail nos Fawrth**
**Waunfawr – y bedwaredd nos Iau**

Bydd cwpaned o de a digon o groeso i chi


**PARADWYS FFŴL**
**Rhaglen gymuned newydd Theatr Bara Caws**

*Sioe yn defnyddio yr holl elfennau theatrig gan gynnwys cân a dawns yw Paradwys Ffŵl ac mi fydd yn olrhain hanes 'Diwygiad 1904-5' ac yn pwyso a mesur dylanwad ac effaith y cyfnod byr emosiynol hwnnw ar ddatblygiad y genedl Gymreig.*

*Bu sawl diwygiad yng Nghymru ond hwn oedd yr olaf, a rhai yn fyw heddiw gyda cof byw iawn ohono. Dyma flas o'r cyfnod, ei hiwmor, ei hagrwch, cyfnod o dlodi ac angen pan (medd rhai) ddaeth yr Ysbryd Glân i Gymru a meddiannu eneidiau a chalonnau ei phobl. Cyfnod medd eraill pan ddallwyd Cymru o'i gwir phroblemau gan grefydd ffug.*

*Mae'r Angylion a Satan yn dal yn cwffio am feddiannau'r ddaear. Ar ôl ildio i Satan am yn hir daeth yn 1985, ac mae'r Angylion yn barod i frwydro am eneidiau eto. Mae'r gwrthdaro yn hegar ar brydiau ond mae hen ffefryn yr Anterliwt 'Y Ffŵl' wastad ar gael i ofalu fod chwarae teg — ia hyd yn oed i Satan!*

*Cewch gyfle i fwynhau'r cynhyrchiad newydd yma yng nghwmni hen ffrindiau — Cefin Roberts, Bryn Fôn, Valmai Jones, Siân Meredydd a dau wyneb newydd i'r cwmni — Phil Reid ac Erfyl Ogwen Parry.*

*Bydd y rhaglen ar daith yng Ngwynedd o ddydd Mercher Hydref 2 hyd ddydd Sadwrn Hydref 12, ac yna o ddydd Mawrth 29 Hydref hyd ddydd Mercher Tachwedd 6.*

*Caiff pobl bro'r Eco gyfle i fwynhau'r perfformiad yn neuadd Ysgol Brynrefail Llanrug, nos Lun Tachwedd 4 am 7.30.*

**CYMDEITHAS CYFFURIAU GWYNEDD**

Mae Cyngor Cyffuriau Gwynedd wedi trefnu cwrs undydd i rai sydd yn fodlon mynd, fel siaradwyr gwadd, i glwbiau a chymdeithasau.

Mae gofyn am wybodaeth cywir a manwl am yr hen aflwydd yma sydd wedi taro ein cymdeithas mewn tref a chefn gwlad.

Os oes clwb, neu gymdeithas, a hoffai gael sgwrs ar y pwnc 'Camddefnyddio Cyffuriau' yna ymofynner trwy lythyr ag ysgrifennydd y Cyngor.

Y Parch J. Aelwyn Roberts,
Swyddfa Cyffuriau Gwynedd,
Yr Hen Ficerdy,
Stryd Waterloo,
Bangor.


TYMOR 1986
bydd
**CWMNI DRAMA LLANBERIS**
yn cyflwyno
**Y TYWYDD MAWR**
(Comedi mewn tair act)
gan Gwynfor

am fanylion, cysyllter â

**Mrs Ann Pritchard**
**Madryn**
**Stryd Newton**
**Llanberis LL55 4HN**
**Ffôn: (0286) 871231**

# LLANBERIS

**Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)**

DIOLCH – Dymuna Mrs Heulwen Jones, Gwenda, Aled a theulu'r diweddar Lal Jones, Cyncoed, ddiolch o galon i'w cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad, cymorth a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid cariadus a gofalus, a mab annwyl Mrs Dinah Jones. Diolch hefyd am y blodau a'r llu cardiau a llythyrau rhy niferus i'w hateb yn unigol.

Diolch i'w gweinidog, y Parch Trefor Lewis ac i'r Parchedigion Gwynfor Williams, Alun J. Hawkins a Meirion Lloyd Davies am eu gwasanaeth ac yn arbennig i Carys a Gwynfor ac i griw yr Ambiwlans a Dr O.P. Jones.

Dymunwn ddiolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau angladdol gofalus. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd a chyfrannwyd swm o £808 tuag at Adran Geriatric Ysbyty Bryn Seiont.

Dymuna teulu y diweddar Evan Wilson Hughes ddiolch o galon i'r rhai fu yn gymorth i gasglu £850 i'w roi yng nghronfa'r galon, Ysbyty Gwynedd, Bangor.

Dymuna Mrs Nellie Williams, Baladeulyn, Stryd Newton, ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna teulu'r ddiweddar Catherine (Katie) Jones, gynt o Penlon, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig am ofal staff Ward Gwyrfai, Ysbyty Bryn Seiont. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at y Ward honno.

Dymuna teulu'r ddiweddar Betty Parry, Glan y Don, Stryd Fawr ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem.

Dymuna Ann a Ken Hughes, 21 Stryd Goodman, ddiolch o galon i'w teulu a'u cyfeillion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna Joan a Dafydd Hughes, 1 Stryd Thomas, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, cymdogion a chyfeillion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag at Lliwen tra oedd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Gwyneth Parry a Carys ddiolch i bawb am yr arian a'r anrhegion a dderbyniodd Carys ar gael ei dewis i fod yn weinyddes yng Ngharnifal Llanberis.

Mae Mr a Mrs R. Vaughan a Iona, 1 Rhes Cambrian, yn diolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag at y Weinyddes Iona yn y Carnifal. Diolch yn fawr.

ADFERIAD IECHYD – Dymunwn adferiad iechyd buan i'r rhai sy mewn ysbytai ac i'r rhai sy wedi dychwelyd gartref, neu'n wael eu hiechyd gartref – Mrs Clara Roberts, Anfield a Mr Iorwerth Prydderch, Rhes y Cae.

SIOP NEWYDD – Llongyfarchiadau i Mrs Jill Skott a'r teulu ar agor siop newydd 'Garth Maelog Pet Centre' ar y Stryd Fawr. Ein dymuniadau gorau iddynt ar y fenter newydd hon.

LLONGYFARCHIADAU –

I Derlwyn Thomas, Gwynant ar ei ddyweddïad â Christine Godfrey o Birmingham.

I Linda Prydderch ar ddod yn ail yn Ras Talysarn.

I Nerys a Danny Roberts, Y Bistro, am ddod y gorau o holl dai bwyta Cymru mewn cystadleuaeth 'Taste of Britain', oedd dan nawdd Bwrdd Croeso Cymru.

I Mrs Pauline Griffiths, 28 Bronllyd, Gaerwen, Môn (merch Hilda a Bob Williams, 5 Rhes y Vaynol) ar ennill gradd BEd (allanol). Mae Pauline ar hyn o bryd yn athrawes yng Nghaergybi.

I Robin Huw Owen, 90 Maes Padarn ar ei ddyweddïad â Helen Minto o Gaerdydd.

I Mair Wyn a Norman David Jones, 8 Stryd Yankee, Llanberis ar enedigaeth merch fach, Monica Wyn Jones.

I Hr a Mrs Wilfred Wyn Davies, 5 Olgra Terrace, Llanberis, ac i Mr a Mrs Gareth Jones, 4 Dôl Eilian, Llanberis, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. A hefyd i Mrs Kathreen Williams, 10 Dôl Eilian, Llanberis ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf.

DIOLCHIR o galon i bawb am yr holl gardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd Monica Wyn Jones.

Y MUDIAD SANT IOAN – Cynhaliwyd cyfarfod ar ran Mudiad Sant Ioan, adran Llanberis yn Festri Capel Coch, nos Lun, Medi 23 a 30 am 7.30. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r dosbarth cymorth cyntaf. Os am ymuno ewch i Festri Capel Coch ar nos Lun. Gobeithir dechrau dosbarth ar wahân i bobl ifanc y pentref.

Y CWMNI DRAMA – Hydref 11, cynhelir noson lawen gan Hogia'r Ddwylan yn neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd y noson fydd Charles Williams, ac fe gymerir rhan gan artistiaid eraill. Aiff yr elw i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Pris £1. Trefnir bws ar gyfer y noson, yn cychwyn o Maes Derlwyn am 6.45 a stopio ymhob bus-stop. Enwau i Siop Eryri, neu aelodau'r Cwmni. Mae'r Cwmni yn parhau i gasglu hen bapurau newydd ac yn ddiolchgar iawn ohonynt.

CYDYMDEIMLAD

Ar Fedi 2, yn 60 oed, bu farw Mrs Elizabeth (Betty) A. Parry, Glan y Don, Stryd Fawr yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Cledwyn, y plant Eleri a Valerie, ei mam, Mrs Sally Williams, ei brodyr a'i chwiorydd a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Medi 8, yn 58 oed, bu farw Mrs Buddug Bryniog Hughes, 4 Rhes Fictoria yn Ysbyty Gwynedd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant Sheila ac Alfred a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Susan Roberts, Dôl Eilian ar farwolaeth ei brawd, Mr William Parry, Bangor.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Nancy Closs Williams, 19 Stryd Newton ar farwolaeth ei mab yng nghyfraith, Mr Norman Williams, Caernarfon.

**YSGOL DOLBADARN**

LLWYDDIANT CERDDOROL – Llongyfarchiadau i Crispin Hawkins ac Angharad Rudkin, y ddau o safon 4, ar eu llwyddiant mewn Arholiad Gradd 3 i Gorned. Enillodd Angharad radd anrhydedd. Da iawn blant.

CYDYMDEIMLWN yn fawr iawn â Mrs Rita Morris, y gegin, ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Betty Parry, Glan y Don.

CROESO'N ÔL i Mr Wilbert Davies y gofalwr wedi cyfnod o waeledd. Rydym yn falch iawn o'i weld yn ôl wrth ei waith.

CROESAWN Mrs Smith i Adran y Babanod, hi yw athrawes y Dosbarth Meithrin. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ein plith.

ARIAN BYW – Cyflwynwyd siec o £50 o Gronfa'r Ysgol i Gronfa Arian Byw yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl.



## I FORIO I FORIO ...

Tybed a all rhywun adnabod y bachgen tua 7 neu 8 oed yma. Mae'n mwynhau ei hun ar ei gwch modur yn y Cei yng Nghaernarfon (oddeutu 30 o flynyddoedd yn ôl). Cliw i chi – mae'n byw yn Llanberis ers sawl blwyddyn ond yn enedigol o Fethel. Cliw arall – mae'n adnabyddus drwy Gymru erbyn hyn, yn rhinwedd ei swydd, ac wedi bod ar y teledu droeon. Na, nid yn canu.

*Llun gan Dafydd Hughes, 1 Stryd Thomas, Llanberis.*

## DRAENOG



Un o'r genod sy'n glanhau'r llofftydd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis yn gwagio'r fasged sbwriel heb sylwi ar yr ambarel oedd un o'r gwesteion wedi ei roi yno i sychu. Gorfu iddi hi a'r glanhawyr eraill fynd drwy hen fagiau bin yn llawn o hen fagiau te a phob math o sbwriel i chwilio am y teclyn trafferthus. Cofiwch fod yn ofalus lle rhowch eich amberel pan fyddwch yn y Fic o hyn ymlaen.



**YN EISIAU**

**GOHEBYDD NEWYDDION PENTREF I LANBERIS**

Cysyllter â Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, Llanberis neu unrhyw un o'r Golygyddion


**E.W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
Ffôn: 870202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



**GWYNETH ROBERTS**
(Siop E. Wilson Hughes gynt)
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION


Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

# LLANBERIS

## (Parhau)

LLONGYFARCHIADAU:
– I Miss Fiona Jones, Ael y Bryn, Stryd Newton ar ennill Diploma R.S.A. mewn Gwaith Swyddfa yng Ngholeg Technegol Bangor.
– I Adrian Wakeham ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 ar Fedi 26.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cyfarchion i Mr T. Salisbury Roberts, Waterfall View sydd wedi derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd; Mr Llew Roberts, 38 Stryd Fawr sydd wedi dychwelyd gartref o Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad iechyd buan i chwi ac i Mr Aled Owen, Stryd Siarlot sydd yn wael ei iechyd gartref.

DIOLCH: Dymuna Mr Hugh Peris Pritchard, Dinorwic House ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a'i gyfeillion am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra y bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

MARWOLAETH: Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Ethel Jones, 30 Maes Padarn yn 59 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Dick a'i phlant Maldwyn a Sheila a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

SWYDD NEWYDD: Dymunwn pob llwyddiant i Mrs Carys Williams, Graianfryn, Stryd Newton ar ei phenodi yn Nyrs Plwy Deiniolen am flwyddyn. Bu Carys am sawl blwyddyn yn nyrs yn y Clinic yma yn Llanberis. Gobeithiwn y gorau iddi.

Dymuna Mrs Mary Lynn Carr, 86 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tra roedd yn glaf yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

CYFARFOD SEFYDLU: Dydd Sadwrn Hydref 26, cynhelir cyfarfod sefydlu y Parch Gwynfor Williams, YH, BEM, yng Nghapel Jerusalem am 2 o'r gloch ac am 6.30.

# CYFLE NEWYDD

Awgrymodd Mr Dafydd Elis Thomas, Aelod Seneddol Meirionnydd Nant Conwy, a Llywydd Plaid Cymru, y dylai pawb sy'n darllen papurau a chylchgronau wythnosol Cymraeg weld yr argyfwng presennol mewn cyhoeddi yn gyfle i gydweithrediad newydd.

Mewn datganiad o Swyddfa'r Blaid yng Nghaerdydd, galwodd Dafydd Elis Thomas am gydweithrediad newydd rhwng gwahanol gyhoeddiadau ac am astudiaeth fanwl i'r posibilrwydd o sefydlu un cyhoeddiad wythnosol cenedlaethol.

Dywedodd Mr Thomas: 'Daeth y cyhoeddiad diweddar ynglŷn â dyfodol Papurau'r Herald yn sgîl adolygiad Cyngor y Celfyddydau o gyllideb y Faner, ac er nad oes unrhyw ofid ar hyn o bryd ynglŷn â dyfodol y Cymro, fe fu beirniadaeth ar faint cynnwys y papur.

'Gofynnaf felly os yw'r amser yn addas i astudio posibilrwydd o ddod â'r adnoddau i gyd at ei gilydd i gynhyrchu un cyhoeddiad Cymraeg safonol ei ddiwyg a phoblogaidd ei apêl.

'Dyma'r math o syniad sydd gen i mewn golwg. Credaf y gellid cyhoeddi papur a fyddai'n cynnwys newyddion a chwaraeon a'i gyhoeddi ar y Sul. Mae'n wir na fu Sulyn yng Ngwynedd yn llwyddiant masnachol, ond dangosodd cyfnod byr ei gyhoeddi fod yna awydd i ddarllen papur o'r fath. Yna gellid darparu atodiadau a fyddai'n cynnig deunydd darllen i'r gymuned amaethyddol a'r cymunedau gwledig mewn cydweithrediad â'r rhwydwaith papurau bro. Gellid cynnig atodiad tebyg ei gynnwys i'r papurau crefyddol ac enwadol presennol. Gellid darparu hefyd atodiad llenyddol, yn ymwneud â phob agwedd ar gelfyddyd a diwylliant hefyd, o bosib wedi ei gefnogi'n ariannol gan Gyngor y Celfyddydau, gellid hefyd trafod efo S4C a fyddai modd cynnwys deunydd tebyg i'r hyn sydd yn ymddangos yn yr unig gyhoeddiad Cymraeg (neu ddwyieithog) sy'n ymdebygu i atodiad lliw y papurau Sul presennol, sef Sbec. Mae'n sicr fod yna gyhoeddiadau eraill y gellid ceisio eu cydweithrediad mewn cynllun o'r natur yma.

'Byddai angen ymddiriedolaeth genedlaethol i gynrychioli y rhai fyddai'n ei ddarllen, i warchod ei annibyniaeth ac i sicrhau safon dylunio, gosod a chynnwys.

'Fe ellid ceisio i gynllun felly nawdd cyhoeddus, yn ogystal â buddsoddiad cyfalafol.

'Ar un adeg pan fo'r cyfryngau lleol yn y papurau bro yn ffynnu, a'r cyfryngau radio a theledu yn cael cefnogaeth helaeth, rydym ni'n colli cyfle i ddarparu cyhoeddiad cenedlaethol wythnosol Cymraeg. Bachwn ar yr argyfwng presennol mewn cyhoeddi i ddod at ein gilydd i sefydlu darpariaeth deilwng o'r gymdeithas Gymraeg ar gyfer y nawdegau.'

# CLWB ERYRI

## YN DDEG AR HUGAIN OED

**Cychwynnir ar dymor newydd o'r Clwb – ei ddegfed tymor ar hugain – yng ngwesty Gwynedd, Llanberis nos Wener, Hydref 4 am 7.30 o'r gloch, pan y ceir darlith gan y Dr David Owen Ysbyty Gwynedd, gyda'r Dr Raymond Williams, Waunfawr yn llywyddu. Gwneir apêl arbenniig ar i'r oll o'r aelodau fod yn bresennol yn y cyfarfod agoriadol hwn, pan y bydd angen ethol tri aelod newydd yn ogystal. Ar ôl blynyddoedd fel Bardd y Clwb, mae Mr Llion Jones wedi ymddiswyddo gan ei fod wedi symud i fyw i ardal arall, a diolchir iddo am ei gyfraniad hynod a chyson iawn. Y swyddogion am eleni yw – Llywydd: Y Dr R.S. Williams, Waunfawr; Is-lywydd: Mr Meurig Evans, Caernarfon; Trysorydd: Mr Ieuan Ellis Jones, Llanberis gyda Mr Rol Williams, Waunfawr yn Ysgrifennydd. Mr Stanley Owen, Llanberis yw'r cofnodydd.**

# DYDD LLUN DIOLCHGARWCH

## gan Enid Jones, Talysarn

Y dydd o'r blaen roeddwn yn eistedd yn syrjery'r doctor. Yr oedd cryn nifer o bobol yno o'm blaen a phawb yn dawedog fel pe baent wedi dod i'r penderfyniad, cyn gweld y doctor, nad oedd gwellhad iddynt. Daeth dyn mewn gwth o oedran i mewn, tynnodd ei gap gan edrych o'i gwmpas a nodio ar hwn a'r llall, ac o'r diwedd dyma fo'n mentro dweud wrth yr agosaf ato "Tydi'r flwyddyn 'ma wedi mynd heibio'n sydyn, deudwch, bydd yn Ddiolchgarwch gyda hyn." Dechreuodd pob un roi ei bwt i mewn, fel pe bai rhyw hud a roddwyd arnynt wedi ei dorri – ie, pawb ond y fi, gan i'r gair 'diolchgarwch' ddod â llu o atgofion yn ôl i mi – arwydd o henaint medd rhai!

Byddwn wrth fy modd pan ddôi yn Ddiolchgarwch – y trydydd dydd Llun ym mis Hydref y byddem ni yn ei gynnal ym Mro'r Eco. Nid âi fy nhad na'r dynion eraill i'r chwarel ar y diwrnod arbennig yma, ac rwy'n siŵr eu bod yn colli tâl diwrnod o waith am aros gartre i fynd i'r moddion. Tydi petha wedi newid?

Byddai selogion y capeli wedi cael 'daliad', rhai ohonynt deirgwaith, ar y dydd Sul, ond dyma'r diwrnod y câi y rhai hynny nad oeddynt mor selog yn ystod y flwyddyn, eu cyfle i roi eu diolch i Dduw am eu cynnal a'u cadw, ac 'rwy'n siŵr y byddai'r cyfryw rai yn cysgu'n dawelach y noson honno o wybod eu bod wedi sgwario eu cownt gyda'u Creawdwr am flwyddyn arall. Gan fod digon o sgethwrs ar gael y pryd hynny, i wasanaethu'r Sul, dyma gyfle gwych ar y dydd Llun i gael clywed y 'local talents' yn cymryd rhan – ac i ni'r plant 'roedd hyn yn rhoi pleser nid bychan. Ambell un ddim yn gallu darllen yn dda iawn, ac wedi dewis pennod go anghyfarwydd, a byddai'n nos arno ar hanner y darllen. Un arall wedi dewis emyn a heb ei hastudio rhyw lawer ymlaen llaw, ac wedi dod i'r ail bennill yn ffeindio'n aml mai emyn 'dechrau'r flwyddyn' ydoedd. A mi ond bychan iawn, cofiaf ofyn i mam, o weld y sawl a gymerai ran wedi diflannu i rywle ar ddiwedd canu'r emyn – "Ble mae o wedi mynd mam, ydio wedi mynd at Iesu Grist?" – yr oedd yn anodd i fy mam ddal heb chwerthin, oherwydd wedi mynd ar ei liniau yr oedd y gŵr hynaws, a'i ben ar sedd y Sêt Fawr a'r distawrwydd llethol tra 'roedd yn ceisio cychwyn ei weddi yn fwy nag a allai llawer un ei oddef, a dôi ambell i ebychiad a phesychiad o'r gynulleidfa i dorri ar y distawrwydd.

Wedi cyfarfod y bore byddai'r plant yn casglu at ei gilydd ac i ffwrdd â ni i chware, ie chware a hitha'n ddydd Sul! – wel, dydd Sul bach beth bynnag, onid oeddym newydd fod yn y Cwrdd Gweddi? Tymor chware marblis oedd yr Hydref i ni, a phob un yn meddwl y byd o'r rhai gwydr oedd ganddynt – 'togo pedwar' a 'togo dwy' a'u lliwiau cymysg yn codi rhyw edmygedd ynom ni'r genod, fel pe baem yn berchen y Crown Jewels. Daw yn amser cinio, a phob un yn diflannu fel llygoden i dwll. 'Ail dwym' fyddai cinio dydd Llun Diolchgarwch yn ein tŷ ni, sef yr hyn a fyddai ar ôl o Datws Popty dydd Sul (arwydd pendant fod y gaeaf ar ein gwarthaf) a chyflenwad ffres o foron a rwdan wedi eu cymysgu a'u berwi. Pam tybed fod cinio mam yn blasu yn wahanol i'r gorau allaf fi ei wneud heddiw?

Cyfarfod y prynhawn am ddau o'r gloch – a dyna i chi sioe. Y babis newydd i gyd yno am y crandia ac yn utganu eu moliant dros y capel, ac ambell i hen jero bach yn meddwl nag oedd Iesu Grist yn ei glywed ac yn curo ei esgidiau newydd yn erbyn cefn y sedd. 'Chlywyd yr un gair a ddywedwyd o'r Sêt Fawr, pe bai ots am hynny. Cyfarfod ar ben; yn ôl i'r tŷ am de. Erbyn hyn byddai ias yr Hydref i'w deimlo, a chwrlid o eira cynta'r tymor ar gopa'r Wyddfa – tân pia hi. Ar ôl te cael chwarae gyda'n teganau, mam yn gwau – a hitha'n ddydd Sul ... O, ia, Dydd Llun Diolchgarwch ydi hi te.

Yng nghyfarfod yr hwyr byddai cyfle yr hen 'stejars'. Gwyddem ni'r plant yr union emyn a lediai hwn a hwn – "Pob peth ymhell ac agos"; gwyddem hefyd y Salm a ddarllenid gan y nesa i gymryd rhan ... "Arglwydd ein Iôr, mor ardderchog ..." a hyd heddiw erys cymal o weddi ambell i hen sant y byddai'n fraint cael dilyn ôl ei droed yn fyw yn y cof – "diolch i Ti o Dad am dy ofal trosom ..." "'rwyt Ti'n glawio ar y drwg a'r da ac yn peri i'th haul godi ...", clywn lais yn dweud "chi 'di nesa, Mrs Jones", ...Y ... be, ... Fi? "Twrn chi sy' nesa i fynd at y Doctor." "O, ia ... diolch yn fawr" ...

"O, Gwyn fy myd, pan oeddwn gynt
Yn llanc di boen ..."


# GANGSTER CHICAGO AR LWYFAN YR URDD

Bydd y Cwmni Theatr Cenedlaethol yr Urdd yn perfformio gwaith newydd sbon, sef miwsical ar y testun CHICAGO yn ystod y Pasg 1986. Mae'r sgenario wedi ei ysgrifennu gan Emyr Edwards a'r gerddoriaeth gan Huw Chiswell.

Mae'r stori wedi ei seilio ar fywyd Murray Humphreys, neu'r Hump fel y galwyd ef yn ei ddydd yn yr Unol Daleithiau. Cymry oedd rheini Murray Humphreys ac yr oedd yntau'n cydnabod ei waed Cymreig. Yn wir Llewella oedd enw ei ferch, ac y mae hi'n dal i fod yn fyw. Un o giangstars enwocaf Chicago oedd Humphreys yn ei ddydd, a dilynydd Al Capone oedd o fel prif giangstar y ddinas honno. Er iddo yn ei dro fygwth ac ymosod a lladd, nid fel llofrudd y cofir ef yn bennaf ond fel dyn cyfrwys, gwleidydd a giangstar, a chyfaill enwogion yr Unol Daleithiau. Mae ei stori'n hynod ac yn ddramatig. Y mae Emyr Edwards wedi ceisio dal yr ysbryd yma yn y miwsical newydd. Mae Cwmni'r Urdd eto'n torri newydd yn y Theatr yng Nghymru.

Os am ragor o wybodaeth: Emyr Edwards 26, Windsor Road, Radyr, Caerdydd. (Ffôn: Caerdydd 843855)

# CANOLFAN GYMDEITHASOL LLANBERIS



Pleser o'r mwyaf ydyw gennyf gyhoeddi wedi pedair blynedd o waith caled fod y gwaith ar y Ganolfan uchod wedi ei gwblhau. Mae Neuadd Chwaraeon helaeth wedi ei chodi ynghlwm wrth yr hen adeilad gyda chegin, storfa a thoiledau. Mae'r hen neuadd a'r ystafell bwyllgora wedi eu haddasu ac mae maes parcio hwylus i ddal deugain o geir.

Mae wedi bod yn waith anodd ar brydiau, ond credaf fod y Pwyllgor Rheoli wedi gwneud camp eithriadol a medrwn fel Pentref ymfalchïo yn ein canolfan, yn siŵr y mae yn un o'r goreuon ym mhentrefi Arfon.

Mae'r datblygiad wedi mynd ymlaen ers dros bedair blynedd ac yn ystod y cyfnod yma mae llawer o'r pentrefwyr wedi cwyno nad oeddynt yn gwybod beth oedd yn digwydd ar y safle.

Felly penderfynodd y Pwyllgor y dylid rhoi adroddiad cynhwysfawr yn y wasg pan ddeuai'r gwaith i ben. Ceisiaf felly gyflwyno'r ffeithiau fel bod pawb yn deall yn union sut yr aethpwyd ymlaen i ddatblygu'r safle.

Cychwynnodd y Ganolfan wrth gwrs fel Clwb Pensiynwyr. Adeiladwyd hi yn 1956 gan Michael Duff, y Faenol. Diddorol oedd darllen llythyr o'r cyfnod hwnnw gan Mr O.T. Williams, y Rheolwr, yn egluro i Mrs Fisher, Tyddyn Eilian, mai Clwb i'r hen chwarelwyr fyddai'r adeilad, a dim ond ar achlysuron arbennig y byddai hawl i ferched ddod i mewn, a hynny gyda chaniatâd y Pwyllgor. Roedd Bowling Green i fod oddi allan ar y Ddôl a swllt y flwyddyn fyddai'r rhent a'r Clwb i fod yn gyfrifol am y trethi.

Bu'r adeilad yma yn ddigon llwyddiannus, gyda newidiadau'r pentref yn defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd. Treuliai'r hen chwarelwyr oriau difyr yn yr ystafell hamdden yn ymgomio, gwylio'r teledu a darllen y papurau dyddiol. Pan ddaeth y newydd trist fod y chwarel yn cau, siom hefyd oedd deall fod Clwb y Pensiynwyr ar werth gyda gweddill y chwarel.

Bu'r misoedd nesaf yn gyfnod pryderus ac ansicr iawn yn hanes y Ganolfan. Roedd yn rhaid prynu yn ddi-oed, a chan mai ond £4,692.9.5 oedd ar gael, penderfynwyd gwneud ymholiadau am grantiau gan y Cyngor Sir a'r Swyddfa Gymreig.

Rhaid sôn yn y fan hon am yr ymdrech arbennig a wnaed wedi rhyfel i gasglu arian ac adeiladu Canolfan. Sefydlwyd Pwyllgor ym mis Medi 1944 a dyfynnaf o'r cofnodion: 'I drafod y moddion goreu i ddangos gwerthfawrogiad o wasanaeth dynion a merched ieuainc yr ardal sydd yn y Lluoedd Arfog pan ddychwelant i'w cartref.'

Diddorol ydyw darllen cofnodion y Pwyllgor yma, a gyfarfu yn rheolaidd am flynyddoedd lawer. Gweithiasant yn galed iawn i gasglu arian ac i gael tir i adeiladu'r Ganolfan. Siomedig mae'n debyg oedd y swm a gasglwyd sef £2.227.0.8 ac fe'i llesteiriwyd gan gostau y cyfnod. Hwyrach eu bod yn rhy uchelgeisiol yn eu cynlluniau, oherwydd dyma oedd ganddynt mewn golwg a dyfynnaf:

1. Neuadd yn dal 1000 gyda llwyfan gallery ar un talcen
2. Llyfrgell
3. Committee Room
4. Billiard Room gyda 3 bwrdd
5. Recreation room & other small games
6. Ystafell ddawnsio a Physical Training
7. Dwy Lecture Room
8. Ystafell i Glinic
9. Lavatories, Central Heating, Canteen.

Digon ydyw dweud na fedrwn ond edmygu eu hymdrechion am ymroddgarwch i bentref Llanberis a diolchwn iddynt am eu harweiniad a rhoi ynom ninnau y dyhead i fynd ymlaen gyda'r gwaith a cheisio gwireddu y freuddwyd o sefydlu Canolfan gymeradwy yn y Pentref.

Erbyn Rhagfyr 1969 roedd y Gronfa wedi cynyddu gyda llogau i £4,692.9.5 (yn yr hen arian) a dyma'r swm oedd ar gael i geisio prynu'r adeilad.

Dyma'r sefyllfa ariannol ar y pryd.
Cost yr adeilad oedd £6,000
Cost addasu, peintio etc. £2,545.79
Ar yr 16.4.70 rhoddwyd blaendal o £600
Ar yr 15.7.71 talwyd £5,400
Costau cyfreithiol £150
Costau cyfreithiol £30
Ym mis Gorffennaf 1971 derbyniwyd grant y Swyddfa Gymreig o £4,119
Ym mis Rhagfyr 1971 derbyniwyd grant y Cyngor Sir o £2,746.
Diolch i bawb a fu'n gweithio mor galed yn y cyfnod yma gyda'r pryniant.

Yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 1972 cyhoeddwyd bod yr hen Glwb y Pensiynwyr yn awr yn eiddo y pentref, a dyma'r cofnod. 'Mae'r Ganolfan Gymdeithasol yn awr yn eiddo y pentref fel elusen. Mae i fyny inni wneud y defnydd goreu ohoni.'

Agorwyd yn swyddogol gan Michael Duff ar y 26 Hydref 1972.

Bu defnydd eithriadol ar y Ganolfan yn ystod y blynyddoedd canlynol gan fudiadau'r pentref ond mae'n debyg mai'r tueddiad yn ein mysg oedd nad oedd eto ddigon o adnoddau ar gyfer y bobl ieuainc. Cyfeiriwyd yn aml gan amryw o aelodau'r Pwyllgor ac yn wir dyma'r gŵyn oedd i'w chlywed ar y stryd: 'Oes dim modd gwneud rhywbeth ar gyfer y bobl ieuainc!'

Fe ddaeth y cyfle pan soniwyd am adeiladu Canolfan Amgylchedd yn Llanberis.

Mae'n ymddangos bod dau neu dri wedi dod at ei gilydd i drafod y posibilrwydd yma, Dr Bassett, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Dr Tom Pritchard, Gwarchodfa Natur a'r diweddar Henadur R.H. Owen. Mae'r sôn cyntaf am Ganolfan o'r fath i'w weld yn Hansard ar y 11 Rhagfyr 1973 pan oedd trafodaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi ar y Cynllun Trydan yn Ninorwig.

Ym Mawrth 1976 cafwyd cyfarfod o gynrychiolwyr y Bwrdd Trydan, y Cyngor Sir a'r Cyngor Dosbarth, ac yno fe dderbyniwyd mewn egwyddor i adeiladu Canolfan o'r fath ond fod yno adnoddau ar gyfer y bobl leol fel neuadd chwaraeon.

Mewn cyfarfod dilynol ar y 17 Mai 1976 dyma gofnod sydd yn ymddangos, 'Dywedwyd gan gynrychiolwyr Arfon eu bod yn cefnogi'r cynllun ond nad oedd digon o adnoddau ar gyfer y bobl leol, fel whist drives, cinema neu theatre badminton a chwaraeon eraill. Pwysleisiwyd y dylai fod yn yr adeilad fwy o adnoddau i'r bobl ieuainc.'

Dywedwyd y byddai cynlluniau yn barod yn nes ymlaen. Tua'r amser yma, fe gafwyd gwrthwynebiad cryf o bentrefi cyfagos. Yr oeddynt am i Gyngor Arfon benderfynu sut yr oedd yr arian yn cael ei wario ac y dylid rhannu'r arian rhwng y pentrefi eraill oedd wedi dioddef yn sgil y gwaith ar yr Orsaf Drydan.

Gwnaed yn glir i'r cynrychiolwyr nad oedd gan y Cyngor yr hawl i ddweud wrth y Bwrdd sut i wario eu harian, ac mai'r unig obaith oedd ganddynt oedd dylanwadu ar y Bwrdd Canolog i roi'r adnoddau angenrheidiol yn yr adeilad. Fe newidwyd y cynllun gan y Penseiri trwy gryfhau llawr y Neuadd a chodi'r nenfwd ar gyfer chwaraeon.

Ym mis Gorffennaf 1977 derbyniodd Prif Weithredwr Arfon, Mr D.L. Jones, lythyr gan y Bwrdd Canolog yn dweud eu bod wedi penderfynu cyfrannu tri chwarter y gost o adeiladu'r Ganolfan Amgylchedd i fyny i swm o £950.00. Er hynny yr oedd rhai yn dal i wrthwynebu'r datblygiad ac yn gwneud hynny yn gyhoeddus. O ganlyniad bu raid i Brif Weithredwr y Cyngor Sir a Phrif Weithredwr Cyngor Arfon fynd i lawr i Lundain ym mis Medi 1977 i ddwyn perswâd ar Swyddogion y Bwrdd i fynd ymlaen â'r cynllun a bod y ddau Gyngor yn cefnogi'r datblygiad.

Roedd y Bwrdd ar y pryd yn bryderus iawn eu bod â'u bwriad i wario swm mor enfawr yn Llanberis yn groes hwyrach i ddymuniad y bobl leol. Bu bron iawn inni golli'r cwbwl oherwydd dadleuon anghyfrifol y pentrefi cyfagos ac mae'n fwy na thebyg na fyddai gennym yr adnoddau diweddaraf yma yn Llanberis.

yn 1978 syfrdanwyd aelodau Pwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol pan ddywedodd Dr Bassett, Cyfarwyddwr yr Amgueddfa Genedlaethol nad oedd yn bosibl paratoi adnoddau i adloniant yn Oriel Eryri. Fe'i gwahoddwyd i gyfarfod llawn o Gyngor Arfon ac yno fe ddywedodd y byddai'r Amgueddfa yn cyfrannu tuag at roi estyniad ar y Ganolfan Gymdeithasol fyddai'n rhoi adnoddau ar gyfer ieuenctid yr ardal.

Rhaid diolch i Mr D.L. Jones am ei gyfraniad yn dod â pherswâd ar yr Amgueddfa Genedlaethol, a thynnu ei sylw i'r ffaith fod ganddynt gyfrifoldeb i bobl Llanberis.

Daeth llythyr o Gaerdydd yn 1979 yn dweud y byddai cyfraniad o £90,000 i Bwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol i roi estyniad ar yr hen adeilad.

Wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus, yr oedd yn eglur nad oedd gennym ddigon o arian i adeiladu Canolfan a gynigiwyd y noson honno. Penderfynodd y Pwyllgor wneud ymchwiliad i'r posibilrwydd o grantiau trwy'r Cynllun Cymorth Trefol, defnyddio y cynllun creu gwaith, ac adeiladu ar y cyd â'r Bwrdd Trydan. Penderfynwyd hefyd ofyn i Gyngor Chwaraeon Cymru am grant.

Er ein holl ymdrechion cawsom ein llesteirio bob cam o'r ffordd. Syrthiodd y Cynllun Cymorth Trefol am fod y Swyddfa Gymreig yn disgwyl chwarter y gost o gronfa leol ac nid oeddynt yn barod i dderbyn y £90,000 fel cyfraniad lleol.

Nid oedd yn bosibl mynd ymlaen gyda'r Cynllun Creu Gwaith. Y syniad wrth gwrs oedd i'r Pwyllgor fod yn gyfrifol am y defnyddiau a hwythau dalu i'r gweithwyr. Daeth ateb gan Gyngor Arfon yn dweud ei bod yn amhosibl gyda'r adnoddau oedd ganddynt ar gael, i symud ymlaen. Er i'r Bwrdd Trydan dderbyn cynllun a baratowyd gan Adran Dechnegol Cyngor Arfon ac ni deimlo am gyfnod o'r diwedd dyma gychwyn, cawsom air ganddynt yn dweud ei bod yn amhosibl iddynt ddod i mewn ar y cyd oherwydd torri ar eu gwariant hwythau fel llawer awdurdod arall yn y cyfnod yma.

Cafwyd trafodaeth gyda swyddogion Cyngor Chwaraeon Cymru a chawsom ar ddeall mai'r unig ffordd i ennill grant oedd sefydlu clwb yn y Pentref. Roedd yn fater cymhleth a rhoddwyd ar ddeall nad oedd yn bosibl i'r Clwb Pêl-droed ein cynorthwyo am eu bod eisoes â chynlluniau eu hunain gyda phryniant y cae pêl-droed etc. Erbyn hyn wrth gwrs yr oedd llawer ohonom yn teimlo yn ddigon digalon. Wedi'r holl bwyllgorau, a'r ymdrech, nid oedd gennym ddim i ddangos.

Penodwyd pensaer ar y 30ain o Fawrth 1981, sef Cwmni ap Thomas a'u Partneriaid, Bangor. Mr Les Hughes (un o'r partneriaid) a fu'n cydweithio â ni yn ystod y datblygiad ac mae ein dyled iddo yn fawr. Bu yn amyneddgar, yn foneddigaidd ac yn eithriadol drylwyr gyda'i waith. Bu gyda ni wrth gwrs yn y cyfnod y soniais amdano yn flaenorol a bu o gaffaeliad mawr i'r Pwyllgor.

Newidiwyd y cynlluniau sawl gwaith, a loes i'r Pwyllgor oedd gorfod torri ar y gwreiddiol. Yr oeddem wedi cyrraedd y sefyllfa lle'r oedd yn rhaid adeiladu o fewn y swm arian oedd ar gael.

Ymlaen â ni, a phenodwyd W.D. Clayton, Bangor, adeiladwyr i godi'r adeilad. Diolchwn i'r cymerwr yma am inni orfod torri rhyw gymaint ar y cynllun eto tra yr oeddynt yn adeiladu, a bu'n amyneddgar iawn. Dechreuwyd y gwaith mis Hydref 1982. Trosglwyddwyd yr adeilad inni ar y 22ain o Fai 1984. Cawsom gefnogaeth eithriadol gan y Cyngor Cymdeithas yn ystod y blynyddoedd yma, ac mae ein dyled yn fawr iddynt. Derbyniwyd swm o £1,600 ganddynt rhwng 1978 a 1983. Pan oeddem mewn cyfyng-gyngor ynglŷn â gwresogi yr adeilad newydd cawsom gyfraniad o £5,000 ganddynt tuag at y gost. Dyma'n wir Gyngor byw yn gweithio er lles yr ardal. Talwyd ar dystysgrifau adeiladu gan yr amgueddfa o Gaerdydd ac er methu weithiau mae'r cwbl wedi ei dalu ac yn wir dros yr addewid, sef £96,718.30. Mae'n dyled yn fawr iddynt hwythau am wneud y datblygiad yn bosibl.

Cost yr estyniad ar ddiwedd y dydd ydyw £100,548.69. Ein diolch calon hefyd i Bwyllgor y Carnifal am rodd o

£100 yn 1978 ac am yr addewid o £5,000 tuag at yr adeilad. Ni fu raid ei wario ond yr oedd yn gymorth i fynd ymlaen yn weddol obeithiol o wybod hyn.

Penderfynodd y Pwyllgor ailaddasu'r hen adeilad a chafwyd y CTF i mewn i wneud y gwaith. Maent wedi bod gyda ni am flwyddyn. Gyda'r llafur felly am ddim, y gwariant am ddefnyddiau ydyw o gwmpas £4,000. Ein diolch i'r bechgyn yma a'r swyddogion am waith eithriadol, ac wrth weld ffrwyth eu llafur ni fedrwn ond gresynu na fyddai gwaith parhaol ar eu cyfer. Mae'r gwaith yn dod i ben yr wythnos yma a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol. Well done bois!

Mae'r mudiadau wedi bod yn defnyddio'r Neuadd Chwaraeon ers blwyddyn a mwy tra roedd y gwaith yma yn mynd ymlaen, ond mae cyfle iddynt yn awr symud yn ôl i'r ystafell bwyllgora sydd wedi ei hymestyn. Gobeithio y bydd y mwyafrif yn ei chael yn ddigon ar gyfer ei gofynion.

Agorodd y Neuadd Snwcerr ar yr ail o Fedi 1985 ac mae'n rhoi boddhad mawr i bawb ohonom rwy'n siŵr o weld y defnydd a wneir ohoni.

Diolch yn gynnes iawn i Bwyllgor y Carnifal am eu rhoddion haelionus, sef dau fwrdd snwcer a 50 o gadeiriau. Rydym oll yn sylweddoli yr ymdrech a'r gwaith caled sydd wedi mynd ymlaen ers blynyddoedd trwy weithgareddau'r Carnifal i godi swm o arian mor sylweddol. Gwariwyd £7,500 am y byrddau a £479 am y cadeiriau, ac yn unol â'r cofnod o bwyllgor Mai 1979 'Bod addewid gan Bwyllgor Carnifal Llanberis o £10,000 tuag at ddodrefnu'r Ganolfan er lles ieuenctid y pentref', yr ydych wedi cadw at eich gair ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar ichwi.

Mae llawer o gymwynaswyr wedi cyfrannu i'r Ganolfan.

Amgueddfa Lechi Gilfach Ddu – diolch i Dr Dafydd Roberts a'i griw am lawer o waith haearn ar y safle, giatiau etc.

Rheilffordd yr Wyddfa – gwaith haearn eto – gôls ar gyfer 5 bob ochr a rhwydi pêl fasged.

Pwyllgor Cae Chwarae Dôl Elidir, am ddau fwrdd tennis.

Teulu'r ddiweddar Mrs Squies am stof yn y gegin.

Mrs A. Evans, Arfon Terrace am y boilar dŵr poeth.

Mr W.H. Jones, trydanwr, Mr Tecwyn Roberts, plymar, Mr Idwal Lloyd Roberts, Mr Kenneth Jones, Blaen Ddôl, Mr Richard Jones, Dôl Elidir, Mr Meirion Evans,Gwynedd Restaurant. Diolch yn arbennig i'r chwiorydd, aelodau y gwahanol fudiadau a ddaeth i lanhau y lloriau yn ddiweddar. Diolch i Mr William Potts, Maes Padarn, y gofalwr, a gafodd waith ychwanegol yn ystod y datblygiad. Mae gair da iddo gan yr holl fudiadau.

Cyn terfynu, mae'n ddyletswydd arnaf wneud apêl arbennig ar ran y Pwyllgor i holl ddefnyddwyr y Ganolfan. Mae wedi bod yn waith anodd a chaled ond ymfalchïwn ar ddiwedd y dydd yn yr adeilad a'r hyn y mae'n ei gynnig inni un ac oll. Byddwch ofalus, defnyddiwch y lle gyda pharch. Mae breuddwyd 1944 wedi ei gwireddu, a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Yn gywir,

Francis Jones, Ysgrifennydd.
Cledwyn Jones, Cadeirydd.
Eurwyn Jones, Trysorydd.
John Williams, Is-ysgrifennydd.

## CYNRYCHIOLWYR Y GWAHANOL FUDIADAU AR BWYLLGOR RHEOLI'R GANOLFAN

| | |
|---|---|
| Y Rheithor, y Parch Alun Hawkins | |
| Mr Derek Jones | Eglwys Sant Padarn |
| Y Cyng. Francis Jones | Cyngor Sir Gwynedd |
| Y Cyng. Brian Jones | Cyngor Bwrdeistref Arfon |
| Y Cyng. Kenneth Jones | Cyngor Cymdeithas |
| Mr Thomas John Roberts | Capel Coch |
| Mrs Helen Sharp | Clwb y Mamau |
| Mrs Gwyneth Clarke | Eglwys Gatholig |
| Mr Iorwerth Jones | Clwb yr Anabl |
| Mr Gareth Jones | Y Band |
| Mrs Margaret Fleming | Babanod |
| Mr Kenneth Jones | Clwb Badminton |
| Mr Meirion Evans | Clwb Snwcer |
| Mrs Hannah Jones | Sefydliad y Merched |
| Mr Cledwyn Jones | Ymddiriedolwr |
| Mr John Williams | Clwb Ieuenctid |
| Mr William Jones | Capel Nant Padarn |
| Mr William Roberts | Capel Jerusalem |
| Mr Eurwyn Jones | Ymddiriedolwr |
| Mr Idwal Lloyd Roberts | Capel Gorffwysfa |
| Mrs Vera Griffiths | Urdd Gobaith Cymru |
| Mr Cledwyn Parry | Capel Preswylfa |
| Mrs M.B. Hughes | Clwb yr Henoed |
| Mr Bert Parry | Plaid Cymru |
| Mr Ifor Jones | Pwyllgor y Carnifal |
| Mr Tom Jones | Clwb Pêl-droed (Juniors) |
| Mr Eurwyn Thomas | Clwb Pêl-droed |
| Mrs Eiddwen Thomas | Ysgol Feithrin |
| Mr Dafydd Parry | Y Blaid Lafur |
| Mr Trefor Edwards | Pwyllgor Ras yr Wyddfa |


**W.J.GRIFFITH**
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr..*




I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...
**Osmond W. Shaw**
DEINIOLEN
*Ffôn:*
*LLANBERIS 870545*
Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore


## MWYNHAU GWEITHGAREDDAU YN Y GANOLFAN



*Y Byrddau Snwcer*





*Pêl-droed a Badminton yn y Neuadd.*

**Mae'r Neuadd Chwaraeon ar agor ers dydd Llun 30 o Fedi, 1985. Yr Is-ysgrifennydd yw Mr John Williams, Eirianfa, Ffordd Capel Coch, Llanberis. Cysylltwch ag ef i hurio'r Neuadd Chwaraeon a'r ystafell bwyllgora. Rhif ffôn: 871254.**

# LLANBERIS JUNIORS '58



*Dyma lun tîm pêl-droed Llanberis Juniors yn 1958. Rhes ôl: Arwel Jones, Keith Roberts, Dafydd Davies, Gareth Huws, Eifion Roberts, Alan Jones.*
*Rhes flaen: Myrddin Owen, Cecil Jones, Trevor Edwards, Stanley Roberts, Griff Huws. (Diolch i Griff Huws am gael benthyg y llun.)*

# ARDAL YR ECO

**Hen ardal Dinorwig, Fachwen a LLanbabo,
Llanberis, Llanrug, holl ardal yr Eco,
Daeth newid mor fawr mae'n anodd dy 'nabod,
Wedi mynd mae'r tyddynnod a phob rhyw hen hafod.**

**Cymdeithas a chwalwyd ym mhob cwr o'r fro!
Aeth crefft a thraddodiad ar goll yn y gro!
Cymdeithas ddiawledig a ddaeth yn ei lle,
Rhyw epil o Loegr, o ddinas a thre'!**

**I Gymru a'r iaith nid oes ganddynt barch,
Ond mynnu ei lladd hi a'i gweld hi mewn arch;
Dinistriant ddiwylliant cerddorol a llên,
Cau drws y gorffennol ar ardal mor hen.**

**Mae rhai'n dal i gofio y gorthrwm a'r clais
O weithio'n y chwarel dan landlord o Sais!
Bywydau a gollwyd i'r frest oedd yn gaeth,
Hen ddyddiau y piser a thatws a llaeth.**

**A beth am ddyfodol, all neb byth ei weld?
Ond cofleidio'r gorffennol fel crair ar hen seld.
Pwy fydd yma mewn amser yn siarad yr iaith?
A fydd yma Gymro yn fyw ac mewn gwaith?**

**John V. Morris
Rhianfa**

# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

RHUBAN GLAS – Credir mai unwaith erioed y daeth Coron yr Eisteddfod Genedlaethol i Ddeiniolen. Ond eleni, am y tro cyntaf fe dybir, y daeth Rhuban Glas i Ddeiniolen. Fel y gwelwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco, enillydd y Rhuban Glas i offerynwyr dros 19 oed yn y Rhyl eleni oedd Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin.

Mewn noson gymdeithasol a gynhaliwyd yn Nhafarn y Tarw nos Lun, 16 Medi, mynegodd Mrs Clarice Roberts pa mor falch o lwyddiant Annette ydoedd pentrefwyr Deiniolen a Dinorwig. Fel arwydd o ddiolchgarwch am ddod â chlod i'r pentref, cyflwynodd Mrs Roberts blât i Annette. Ar y plât, mae llun du a gwyn o 'Cynefin', llun o waith y ffotograffydd Mr Malcom Griffith, Gallt-y-Foel.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn y Ganolfan yn Ninorwig nos Fawrth, 17 Medi. Cwblhawyd y gwaith o drefnu rhaglen gweithgareddau ar gyfer 1985-86, a bwriedir cwblhau'r gwaith o gasglu aelodaeth erbyn diwedd mis Medi.

Yn dilyn cyfarfod y pwyllgor, cafwyd cyfarfod yng nghwmni Mr Dafydd Wigley A.S. Cyfarfod 'agored' oedd hwn, ac fe'i cadeiriwyd gan Mr Gwyn Parry. Talwyd y diolchiadau gan Mr Huw Thomas.

Dyma restr y gweithgareddau am 1985-86:

Hydref 7 – Cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

Hydref 24-27 – Cynhadledd Plaid Cymru, Neuadd y Dref, Caergybi.

Tachwedd 13 – Noson o Gawl a Chân yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

Rhagfyr 14 – Cinio Nadolig yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

Chwefror 13 – Noson yng nghwmni Mr Richard Morris Jones. Yn y ganolfan am 7 o'r gloch.

Mawrth 1 – Cinio Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas.

Ebrill 30 – Noson yng nghwmni cangen Rhiwlas. Yn y ganolfan am 7 o'r gloch.

Mehefin 21 – Taith Ddirgel.

Gorffennaf 12 – Helfa Drysor.

Gwneir apêl ar i'r aelodau gefnogi'r gweithgareddau uchod.

TRIP AM DDIM – Ddydd Mercher, 16 Hydref, bydd rhai o drigolion ardal Eco'r Wyddfa'n teithio i'r Ganolfan Deledu (HTV) yng Nghaerdydd. Byddant yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth BWRLWM BRO. Dyma'r cystadlaethau ynghyd â'r rhai a fydd yn cynrychioli ardal Eco'r Wyddfa:

1. Parti Canu – Merched Bethel a Llanrug.
2. Sgets – Rhai o aelodau Sefydliad y Merched, Deiniolen.
3. Rhywun i actio gydag actor neu actores enwog – Delyth Parry, Llanberis.
4. Digrifwr – Mr David Wyn Evans, Deiniolen.
5. Triawd – Genod Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

OND – mae angen llond bws o gefnogwyr brwd i fynd gyda'r cystadleuwyr i Gaerdydd. A wnaiff y sawl sy'n dymuno mynd, ffonio un o'r ddau enw isod mor fuan ag sy'n bosibl os gwelwch yn dda? Y cyntaf i'r felin gaiff falu!!

Mr Gwyn Parri, Deiniolen (Llanberis 871330)

Mr Geraint Elis, Bethel (Felinheli 670726).

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI – Mae sŵn hogi arfau a pharatoi prysur i'w glywed mewn amryw gylchoedd yn y pentref ar gyfer yr Eisteddfod uchod sydd i'w chynnal yng nghapel Ebenezer, ar Sadwrn, 26 Hydref. Bu pwyllgor yr Eisteddfod yn cyfarfod nos Lun, 23 Medi, i gwblhau'r trefniadau, a rhagwelir y gellir disgwyl Eisteddfod safonol gyda chystadlu brwd ymhob adran. Ofer fyddai'r cystadlu a'r paratoi heb gefnogaeth y selogion, felly cofiwch gadw'r dyddiad yn glir fel y medrwch fwynhau'r tri eisteddiad.

CLWB 200 Y SEINDORF – Dyma enillwyr mis Awst:
1. £25 Mr W.O. Williams, 6 Rhydfadog; 2. £15 Mr Meurig Parry, Llanrug; 3. Mr K. Williams, Arfon House, Deiniolen.

Enillwyr Medi:
1. £25 Mrs E. Morris, Ffordd Deiniol; 2. £15 Mr K. Evans, Marian Terr.; 3. £5 Mr B. Williams, Arfon House, Deiniolen.

Y SEINDORF – Gan fod y Seindorf yn dathlu ei ben blwydd yn 150 oed eleni, gwahoddwyd aelodau'r seindorf i Dafarn y Tarw nos Lun, 16 Medi. Cyflwynodd y dafarnwraig, Mrs Clarice Roberts, lun llechen o waith Mr Gwilym Tate Williams i'r seindorf.

Ers blynyddoedd bellach, mae'r seindorf yn ymarfer mewn adeilad a adwaenid fel 'llofft felin'. Mae'r llun a dderbyniwyd yn rhodd yn dangos y felin gyfan, yn union fel yr ydoedd ar un adeg.

Derbyniwyd y rhodd a thalwyd diolch i Mrs Roberts ar y ffordd ac am y lluniaeth gan Mr Gwyn Parri, cadeirydd y seindorf.

Ddydd Sadwrn, 26 Hydref, bydd y Seindorf yn cystadlu yn erbyn bandiau o bob cwr o Brydain yn rownd derfynol cystadleuaeth Pontins. Cynhelir y gystadleuaeth ym Mhrestaty. Hyfforddir y band gan Mr Nicholas Childs.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y ganolfan ar Fedi 2, dan arweiniad y llywydd, Mrs Eirlys Lloyd Jones. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Mrs J. Eirlys Williams i sôn am y cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Cydymdeimlwyd â Mrs Williams ar golli ei brawd yng nghyfraith yng Nghapel y Graig, Bangor. Rhoddwyd y te gan Miss Jean Maellen a Mrs Maureen Evans. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Thomas.

CYNGOR EGLWYSI – Gydol fis Awst bu'r Eglwysi'n cyd-addoli yng ngwahanol gapeli'r pentref, ac er iddi lawio ar bob Sul o'r mis, mwynhawyd y cyd-addoli a'r croeso tra ar ein teithiau. Bu'r cyngor yn tynnu rhaglen amrywiol ar gyfer tymor y gaeaf, fydd yn dechrau gyda'r Gwasanaeth Diolchgarwch sydd i'w gynnal yn Festri Cefnywaun, nos Lun, 14 Hydref.

DYMUNA Mrs J. Jones, Stryd Newydd a Mr D. Morris, Cefn Coch, ddiolch i bawb a gyfrannodd i gael giât mochyn newydd wrth ochr y giât fawr ym Mynwent Macphela. Trosglwyddwyd y swm o £200 i'r Cyngor Sir gan Mrs Jones, Stryd Newydd. Diolch yn fawr i bawb.



*Dyma lun pump o hogia Deiniolen yn y Lluoedd Arfog yn ystod y Rhyfel Byd 1939-45. A ydych yn eu hadnabod? Ble maent heddiw tybed? Y llun trwy law Mr R.E. Williams, Bangor (Deiniolen gynt).*

DYMUNA teulu'r ddiweddar Mrs Annie Williams, gynt o 3, Y Bwthyn, Deiniolen, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl. Diolch am y llu cardiau a'r blodau hardd. Diolch arbennig i'r Parch Trefor Lewis a'r Parch Eifion Wyn Williams.

DYMUNA Mrs Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniod yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Dewi Sant. Hefyd i'r staff a meddygon a'r meddyg teulu.

DYMUNA Mr Thomas David Hughes, Prenteg, Deiniolen, ddiolch i'w deulu a'i gyfeillion am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 oed ar Fedi 3.

DYMUNA Mr a Mrs Leonard Parry, 1 Tai Gweledfa, ddiolch yn fawr i bawb a fu mor garedig tuag atynt ar achlysur geni eu merch, Catrin Jane. Diolch hefyd am bob cefnogaeth a gafwyd yn ystod arhosiad Catrin yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

MARW – Yn frawychus o sydyn yn ystod y mis bu farw Mr Robert Ellis Jones, Maes Gwylfa. Hefyd wedi gwaeledd hir, Mrs A. Williams, Bwthyn. Cydymdeimlwn yn fawr â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH – Dymuna teulu'r diweddar Mr Tom Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a phentrefwyr Deiniolen ac ardalwyr Bro'r Eco am eu cydymdeimlad a charedigrwydd yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid cariadus.

DIOLCH – Dymuna Mrs Mary Roberts, 6 Llys Elen, Bangor, ddiolch i'w holl ffrindiau yn Neiniolen, am eu caredigrwydd tuag ati, ar golli ei phriod annwyl. Diolch o galon ichwi oll, maent yn rhy niferus i'w hateb yn unigol. Rhoddwyd y rhoddion tuag at y Scanner yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH – Dymuna Mrs M.E. Jones, Tan y Caerau, Clwt y Bont, ddiolch yn arbennig i brifathro, athrawon, staff y gegin a phlant Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen am yr anrheg gwerthfawr a dderbyniodd ar ei hymddeoliad. Hefyd diolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd gan eraill.



BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



J.M. JONES A'I FAB
GWAITH CERRIG BEDDAU
A THREFNWYR ANGLADDAU
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

# CYMORTH I'R CLAF A'I DEULU

**(gan TREFOR LEWIS)**


**Gyda'r datblygiad ym maes meddygaeth dros y blynyddoedd diwethaf y mae'n bosibl i berson fyw ymhell tu hwnt i oed yr addewid. 'Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrigain: ac os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd. . .' Aeth geiriau'r Salmydd yn realiti i laweroedd ac y mae hynny'n sicr o fod yn rhywbeth i ddiolch amdano. Ond os yw'r geiriau a ddyfynwyd uchod yn realiti heddiw y mae'r ail ran o'r adnod yr un mor wir sef 'eto eu nerth sydd boen a blinder'. Ydyw, y mae'r datblygiad yn dwyn ei broblemau. Y mae cynnydd yn y boblogaeth hŷn yn gosod straen ar adnoddau nyrsio yn arbennig yn ariannol. Dwysawyd y sefyllfa gan y toriadau mewn gwariant cyhoeddus gan y llywodraeth. Golygai hyn na fedr y nyrsys sicrhau parhad y cymorth angenrheidiol a haeddiannol i deuluoedd i ofalu am eu hanwyliaid.**

Dyna pam y sefydlwyd **Cronfa Cymhorthau Meddygol Deiniolen a'r Cylch** gan y Nyrs Ardal a chyfeillion lleol yn 1980. Ers ei sefydlu bu'r Gronfa yn gyfrwng i brynu offer ar gyfer y claf yn ei gartref, megis plancedi gwlân, stôl nos (commode), polyn mwnci i helpu codi'r claf.

Trefnwyd ambell ddigwyddiad megis Noson Goffi; derbyniwyd symiau sylweddol oddi wrth deuluoedd 'Er Cof' am anwyliaid; eu ffordd hwy o fynegi eu diolchgarwch am y cymorth a gawsant.

Yn ddiweddar ychwanegwyd at yr offer yn dilyn ymdrech gan Brownies a Girl Guides Deiniolen. Gyda'r £50 a godwyd gan y genethod ifanc prynwyd gwyntyll drydan a phlanced wlân. Mawr hyderir y bydd i eraill yn yr ardal ddilyn esiampl y genethod.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cymhorthau sydd ar gael gan y nyrsys lleol ac fe dderbynir yn llawen unrhyw gyfraniad ariannol tuag at brynu rhagor.



*Cadair olwyn a brynwyd gydag arian 'Er Cof'*
*(Lluniau gan Dewi Lewis, Llys Myfyr, Deiniolen)*



*Meryl Jones, Elen Williams, Miss Jane Jones (Ymwelydd Iechyd), Jennifer Jones. Cefn: Elena Williams, Louise Jones a Ceris Parry gyda'r wyntyll drydan a'r blanced wlân.*

# DRAENOG



## "SUNDAY EXPRESS" YN CEFNOGI'R GYMRAEG?

**'Sgersli bilif', chwedl Ifas y Tryc, ond wir i chi, fe ymddangosodd y pennawd canlynol yn y papur cenedlaethol-Seisnig hwnnw ddechrau Medi:**
**'Why come here if they don't want to fit in?'**

**Mae Draenog druan wedi ei synnu gymaint nes ei orfodi i ddyfynnu o'r erthygl oleuedig hon: '. . . it is only reasonable to expect the incoming population to adapt to our ways and speak our language.' Dew! Dyna i chi ddeud da! Ac eto: '. . . it would seem that some of them (sef yr hen fewnfudwyr anystyriol, styfnig, ddi-ddeall) do not want to mix with us, observe our traditions or have their children educated alongside ours.' Rhag cywilydd i'r giwed hunanol.**

**O'r diwedd, roedd hi'n ymddangos fod papur Seisnig yn dechrau dangos rhywfaint o gydymdeimlad at broblem Seisnigo ardaloedd Cymraeg ein gwlad. Ond! Howld on! Erbyn deall, nid y Saeson oedd yr 'incoming population'. Erthygl oedd hon yn beirniadu Moslemiaid am fynnu addysg grefyddol i'w plant mewn ysgol arbennig yn Llundain. Ro'n i'n meddwl ei bod hi'n rhy dda i fod yn wir.**

# DEINIOLEN

*(Parhad)*

LLONGYFARCHIADAU i Raymond Rochell, brodor o Ddeiniolen yn byw ar hyn o bryd yn nhro Faenol-Pentir a urddwyd yn Aelod er Anrhydedd o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru yn y Rhyl eleni. Fe'i derbyniwyd i Urdd Ofydd Gwisg Werdd o dan yr enw Elidir. Dyma gydnabyddiaeth Bwrdd yr Orsedd o'i gyfraniad clodwiw i Addysg Oedolion yng Nghymru a Phrydain. Bu'n Ysgrifennydd Rhanbarth Gogledd Cymru o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr am bron i ugain mlynedd.



LLONGYFARCHIADAU i Ernest a Margaret Ellen, 7 Porth-y-Gogledd, ar ddathlu eu priodas arian ar Hydref 1af, oddi wrth Jennifer a nain Deiniolen.

DYMUNA Siân a Chris o Langefni ddiolch yn fawr iawn i'w pherthnasau yn Neiniolen a Bro'r Eco, am arian ac anrhegion gwerthfawr a'r llu cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

I Ewyrth Tommy Arfon Parry am wneud y deisen briodas, i Mair Hughes, Cilmeri, Llanrug, yr organyddes ac i Mrs Janet Land am drefnu'r blodau. Merch Mrs Kathleen (gynt o Ddeiniolen) ac Alun Barrlands yw Sian, byddant yn cartefu yn Dalar Wen, Gaerwen.

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Hydref 11. Cynhelir Noson Lawen gan Hogia'r Ddwylan yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd y noson fydd Charles Williams, ac fe gymerir rhan gan artistiaid eraill. Elw i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Pris £1.

**SEINDORF DEINIOLEN**
Rhagfyr 6
Noson Goffi yn y Ganolfan am 7 o'r gloch

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**
(Richard a Meirwen Thomas)
**Llanrug**
*Ffôn: CAERNARFON 4652*

CREFFT ELIDIR

**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**
**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**
HEFYD YN SIOP
**FFYN A CHERRIG**
**STRYD FAWR, LLANBERIS**

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

BORE COFFI – Mae Irfon ac Ann, Haf a Ffion (Buarthau) am ddiolch i'r rhai hynny o drigolion Bro'r Eco a gefnogodd eu Bore Coffi ar Awst 17. Bu Haf a Ffion wrthi'n ddiwyd drwy ddyddiau gwlyb mis Awst yn paratoi rhai o'u hen deganau ar gyfer y stondinau ac maent am ddiolch i'w ffrindiau canlynol am bob cymorth ar y diwrnod – Bethan Jones (Llanberis), Eurgain Haf (Penisarwaun), Rebecca Pierce (Bethel), Sara Jones (Caeathro), Nia Edwards, Sara Pierce, Ffion Angharad, Ceri Thomas ac Aled Humphreys, yr oll o Bontnewydd. Gwnaed elw o £81.00 sydd eisoes wedi ei rannu rhwng cronfa Arian Byw ac Ysgol Pendalar, Caernarfon.

MERCHED Y WAWR – Nos Fawrth, Medi 10, yn yr Ysgol Gynradd, cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y tymor, gyda Mrs Bethanne Williams yn llywyddu. Croesawyd pawb yn ôl ar ôl y gwyliau, rhoddodd groeso arbennig i'r aelodau newydd. Mynegodd ei balchder o weld fod Mrs M. Evans, ein Llywydd Anrhydeddus, yn codi allan, a'n bod yn edrych ymlaen am ei chroesawu eto i'n plith. Cydymdeimlodd â Mrs Carrie Owen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Y wraig wadd oedd Miss Sophie Pari Jones o Amgueddfa Felin Faesog, Clynnog, a bu'n sgwrsio'n ddifyr am ei phrofiadau ym myd 'Yr Hen Bethau'. Daeth amryw o'r aelodau â'u trysorau i'w dangos a threuliwyd noson bleserus yn gwrando ar yr arbenigwraig yn eu trafod gan roi amcan am eu hoed a'u gwerth. Cawsom awgrymiadau defnyddiol ar sut i edrych ar ôl y llestri gwerthfawr. Diolchwyd iddi gan Mrs Menna Williams. Rhoddwyd te gan aelodau'r pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mrs Beryl Thomas.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Gymdeithas y Spastics yn diolch i'r gangen am gasglu'r swm o £69.98 yn ystod mis Gorffennaf. Hefyd derbyniwyd llythyr yn diolch am gymorth rhai o'r aelodau i gasglu at apêl Ymchwil y Galon ym mis Mehefin.

Dymunwyd yn dda i'r chwaraewyr Dominos yn y gystadleuaeth derfynol yn Harlech ddiwedd y mis. Eleni y mae Pwyllgor yr Anabl yn gofyn i'r gangen gymryd gofal y stondin Eliffant Gwyn yn y Ffair Hydref a gynhelir y Neuadd 'Feed my Lambs', Caernarfon ar Hydref 19. Disgwylir i'r aelodau fynd â'u cyfraniad i Mrs Lovatt, yr Ysgrifennydd.

Mae Mrs Meryl Green, un o'n haelodau, yn cychwyn dosbarth 'Cadw'n Heini' yn yr Ysgol Gynradd, bob nos Fawrth (ac eithrio yr ail) o saith tan wyth. Nid oes yn rhaid bod yn aelod o'r gangen i ymuno.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 8, pryd y daw Ms Caren Thomas yma i roi sgwrs ar goluro. Croeso i aelodau newydd.

HENADURIAETH – Ymwelodd Henaduriaeth Arfon ag Eglwys Pontrhythallt yn ystod y mis gyda'r Dr Gwilym Arthur Jones M.A., Bangor yn llywyddu'r gweithgareddau. Yng nghyfarfod yr hwyr bu Sacrament o Swper yr Arglwydd, dan arweiniad y Parch H. Gwynfa Roberts, Glanrhyd.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Emrys Owen, 9 Hafan Elan ar ddathlu eu priodas ruddem, Medi 11.

## CYDNABOD GWASANAETH



**Nos Fercher, Medi 4, 1985, fe gafwyd oedfa arbennig yng Nghapel Pontrhythallt, Llanrug i longyfarch Mrs Enid Whiteside Thomas am ei gwasanaeth clodwiw fel Arweinydd y Gân a chyfeilyddes yn Eglwys Pontrhythallt am hanner cant o flynyddoedd.**

Llywyddwyd y cyfarfod gan y gweinidog y Parch John Morris. Fe arweiniwyd mewn defosiwn gan Mr D. Glynne Owen, ac yr oedd pawb yn falch o weld y gŵr hoff hwn yn ôl yn ein plith ac wedi gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cyflwynwyd cloc hardd i Mrs Thomas, fel arwydd o ddiolchgarwch yr Eglwys, gan Mr Emrys Owen, ac yr oedd ef yn falch o'r fraint a'r anrhydedd o wneud hynny o gofio ei fod yntau, fel Mrs Thomas, yn un o blant yr Eglwys.

Yn ogystal, cafwyd gair o werthfawrogiad o waith Mrs Thomas, gan y cyn-weinidog y Parchedig W.O. Roberts; Mr D. Glynne Owen; Mrs W.A. Jones a Mrs Megan Williams.

Darllenodd Mrs Mary Lloyd Williams a Mrs Nansi Roberts benillion o'u gwaith i goffáu'r noson.

Hyfrydwch hefyd oedd gweld dwy eneth ifanc, sef Catrin Thomas a Delyth Jones yn cyflwyno tusw o flodau i Mrs Thomas.

Darllenodd y gweinidog ymddiheuriadau gan y Parchedig H. Gwynfa Roberts, a'r Parchedig Bryn Williams gan eu bod yn methu â bod yn y Cyfarfod Anrhegu. Roeddynt hefyd yn dymuno yn dda i Mrs Thomas i'r dyfodol.

Diolchodd Mrs Enid Wh. Thomas am yr anrheg gwerthfawr a gafodd ac fel clo i'r Cyfarfod bendithiol fe ganwyd un o'i hoff emynau.

Cyhoeddwyd y Fendith gan y gweinidog.

## GWERTHWYR LLYFRAU



*Ddechrau Medi daeth J.R. Jones o'r Cyngor Llyfrau yn Aberystwyth i gyflwyno siec i Lowri Angharad Roberts am werthu gwerth £125 o lyfrau Cymraeg yn yr Ymgyrch Lyfrau a gynhaliwyd yn yr ysgol yn ystod tymor yr haf. Diolchodd hefyd i'r holl blant eraill, gan gynnwys y rhai sydd ym Mrynrefail eleni, am eu gwaith da. Daeth yr ysgol yn bedwerydd drwy Gymru.*

CYFARFOD Y CHWIORYDD – Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn Iau Medi 19eg yn Festri Pontrhythallt o dan lywyddiaeth Mrs Williams, Bod Fair. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mrs E.W. Thomas, Dolwar, a chafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Gillian Morris ar Ann Griffiths, a diolchwyd iddi gan Mrs W.A. Jones, Dalar Deg, a Mrs M. Lloyd Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Griffith, Fron Hyfryd, a Mrs Griffith, Dolanog, a diolchwyd iddynt gan Mrs Smith, Llechwedd. Talwyd diolch i Mrs Ceri Owen, Hafan Elan, am rodd o lestri i'r Festri. Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 17 am 2 o'r gloch, hefyd ceir 'Bwrdd Gwerthu Amrywiol' a phaned nos Wener, Tachwedd 8. Ni werthir tocynnau eleni, ond bydd unrhyw rodd mewn arian neu nwyddau tuag at y noson yn dderbyniol.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol cangen Llanrug a'r Cylch o Blaid Cymru yn y Sefydliad Coffa nos Lun Medi 9. Croesawodd Leslie Larsen yr aelodau ar ddechrau tymor newydd.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 1985-86:
Cadeirydd – Leslie Larsen; Is-gadeirydd – Twrog Jones; Ysgrifenyddion – Olwen Llywelyn a Nan Humphreys; Trysorydd – Gwyndaf Jones; Ysgrifennydd Aelodaeth – Vera Williams; Trefnydd Clwb Cant – Goronwy Hughes; Cynrychiolwyr i'r Pwyllgor Etholaeth – Phyllis Ellis, Olwen Llywelyn, Pat Larsen, Leslie Larsen.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Goronwy Hughes a Gwyndaf Hughes ar ddiwedd eu tymor fel ysgrifennydd a thrysorydd y gangen. Gofynnwn i'n aelodau sydd am ymaelodi â'r Clwb Cant i gysylltu â Goronwy Hughes os gwelwch yn dda. Y cynrychiolwyr i'r Gynhadledd yng Nghaergybi fydd W.A. Jones, Gwyndaf Jones ac Olwen Llywelyn. Danfonwyd cofion a dymuniadau da i'r aelodau oedd yn cwyno. Diolchodd W.A. Jones i Vera Williams a Phyllis Ellis am baratoi te a chroeso i bawb.

Bydd y pwyllgor yn cyfarfod nos Lun Medi 30 am 7.0 o'r gloch yn Awelon.

SEINDORF – Ddydd Mercher Medi 4, derbyniodd y Seindorf gloc gan Mrs Myfanwy Jones, 37 Bro Rhythallt er cof am ei gŵr, y diweddar Mr Owen Jones. Yr oedd Mr Jones yn aelod ffyddlon o'r seindorf a'r pwyllgor ers llawer blwyddyn.

Rhoddwyd y cloc ar wal ystafell y seindorf ac fe chwaraeodd y seindorf y dôn 'Sarah' er cof am Mr Jones. Fe dalwyd teyrnged a diolch gan Mr Albert Rees a Mr Gwyndaf Jones.

CYDYMDEIMLIR â Mr a Mrs Elfed Roberts, 22 Glanffynnon ar farwolaeth sydyn mam Elfed ym Mhenygroes.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Emrys Owen, 9 Hafan Elan, ddiolch i'w teulu, cymdogion a chyfeillion am eu cyfarchion a dymuniadau da ar ddathlu eu priodas ruddem. Gyda diolch arbennig i Mr a Mrs Arthur Jones am eu cyfraniad ar y diwrnod.

PRIODAS – Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sian Lloyd Williams, merch Mr a Mrs John Williams, Minffordd ar achlysur ei phriodas â Stephen John Burston yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun ar Awst 31.

Dymuna Sian a Stephen ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd.

## YNGLŶN Â'R LLUN

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco dangoswyd llun criw o fandwyr a geneth fach yn chwythu cornet. Derbyniwyd y wybodaeth ganlynol am y llun a'r achlysur gan Mr John Griffith Jones, 21 Tal y Bont, Llanrug.

'Tua 1948 cynhaliwyd Eisteddfod ar gae pêl-droed yr Oval, Caernarfon. Y bwriad oedd sefydlu Eisteddfod ar yr un patrwm ag Eisteddfod Môn ond ni chredaf iddi barhau am fwy na ryw dair blynedd. Yn yr Eisteddfod honno 'roedd cystadleuaeth i Bedwarawdau Pres. Pedwarawd Llandudno oedd yn fuddugol a Phedwarawd Llanrug yn ail. Wedi'r gystadleuaeth, a ninnau'n sgwrsio ar y cae, daeth yr eneth fach ataf a gofyn am gael chwythu fy nghornet. Wyddwn i ddim pwy oedd ac nid wyf erbyn heddiw yn cofio ei henw.

Y rhai eraill yn y llun yw: O'r chwith i'r dde: Harry Roberts, Tai Plastirion, Llanrug (eistedd) a John Parry, Brynheli gynt o'r tu ôl iddo; yna John Griffith Jones. Yn eistedd yn y cefn (canol) mae William Skelton, arweinydd Band Llandudno ar y pryd, a phencampwr ar yr horn. Mae'r tri nesaf sy'n eistedd yn aelodau o Bedwarawd Llandudno ond ni chofiaf eu henwau. Ar y dde eithaf yn eistedd mae Martin Owen, Llanberis (ef oedd yn arwain Llanrug y tro hwn), a'r tu cefn iddo mae Robert John Pritchard (Bob Penllel).

Pan oedd yr eneth fach yn rhoi cynnig ar chwythu'r cornet y daeth ffotograffydd Y Cymro heibio a thynnu'r llun'.

## LLANRUG (parhad)

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Meurig Jones, 29 Bro Rhyddallt ar ddathlu eu priodas ruddem ar Fedi 5.

DYMUNIADAU DA I Mr a Mrs Ifor Williams, Gwelfryn yn eu cartref newydd yn Hafan Elan.

CYDYMDEIMLWN: ag Elfed Roberts, 24 Glanffynnon a'r teulu oll, yn eu profedigaeth o golli ei fam.

## CYRRAEDD UCHAFBWYNT



*Drwy garedigrwydd Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa cynhaliodd Seindorf Arian Llanrug chwythu noddedig i gopa'r Wyddfa ac yn ôl. Nod yr ymgyrch oedd casglu arian at y gost o lifrau newydd sydd bellach wedi cyrraedd ac hefyd i dalu am y siwrnai i lawr i Neuadd Albert Llundain ble mae'r Seindorf yn cystadlu eleni ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Prydain Fawr. Casglwyd oddeutu £600 yn yr ymgyrch.*

## LLYTHYR ANN ARKISST

Ganed Ann Arkisst yn Hwngari ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Hwngariad oedd ei thad, a'i mam yn hanu o deulu o Iddewon a symudodd i Hwngari o berfeddwlad Rwsia. Mae bellach yn byw yn yr ardal, ac wedi dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau yng Ngholeg Harlech a'r Brifysgol ym Mangor. Yn dilyn apêl y mis diwethaf am gyfranwyr i'r Eco, addawodd sgwennu colofn neu 'lythyr' yn fisol neu'n ddeufisol. Mae'n ymddiheuro ymlaen llaw am ei defnydd o ambell gystrawen glogyrnaidd a ddefnyddia, ond tybiwn mai gwell gadael y cynnwys fel ag y mae er mwyn i'r darllenwyr sylweddoli gystal crap sydd ganddi ar yr iaith Gymraeg a hynny o fewn ychydig fisoedd o ddechrau sgwennu ynddi. *Gol.*

Annwyl ddarllenwyr yr Eco Wyddfa,

Mae'r plant bach yn ol yn yr ysgolion ers mis. Mae hysbysebion wedi bod yn y siopau i rhieni nhw prynu dillad newydd i'r plant bach. Dillad yr un peth mae nhw yn gorfod gwisgo yn yr ysgol uwchradd. Mae rhai ysgolion cynradd yn eisiau i'r plant bach gwisgo yr un peth hefyd. Gwisg ysgol mae nhw yn galw'r dillad. Mae gwisg ysgol yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Mae gwisg ysgol yn ysgol Llanrug hefyd. Ers mis Medi eleni, mae gwisg ysgol yn ysgol Bethel hefyd. Mae'r plant bach i gyd yn edrych yr un peth yn y gwisg ysgol. Dydw i ddim yn hoffi plant bach i gyd yn edrych yr un peth. Mae yn hyll iawn. Mae plant bach i fod yn edrych yn wahanol. Mae pob un yn gwahanol i'w gilydd. Does dim eisiau gwneud y plant bach i gyd yr un peth. Mae nhw yn gorfod gwisgo yr un peth o pump oed i pymtheg oed! Ydych chi rhieni yn hoffi gwisgo yr un peth am deg blwyddyn? Na!

Rydw i yn gofyn i pobl 'Pam mae plant yn gorfod gwisgo yr un peth?' Mae llawer o pobl yn dweud 'Mae nhw yn gwisgo yr un peth i canu ac i adrodd yn Eisteddfod yr Urdd Gobaith Cymru'. Pa gobaith i Cymru cael pawb yn gwisgo yr un peth? Chwi ateb fi.

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn gweithio gyda plant bach. Pa bryd bydd nhw eisiau i'r plant bach gwisgo yr un peth? Pa bryd bydd clinics babanod eisiau i babanod bach gwisgo yr un peth o rompers? Beth yw rompers yn Gymraeg? Chwi ateb fi. Fi gwirion yn gofyn cwestiwn fel hyn? Na!

Mae eisiau i rhieni ysgrifennu i llawer prifathro yn dweud 'Na'. Does dim eisiau plant bach fi yn gwisgo yr un peth. Plant bach yn hoffi gwisgo dillad o bob lliw; coch a melyn, glas a gwyrdd, pinc a piws. (Wedi dysgu llawer o lliwiau Cymraeg.) Rydw i cefnogi (support?) rhieni sydd yn dweud 'na' wrth gwisg ysgol.

Cofio bod Ann Arkisst wrth eich ochr yn cefn i chwi.

Hwyl!


Cofiwch am

**PARADWYS FFŴL**

Theatr Bara Caws
yn Ysgol Brynrefail
nos Lun Tachwedd 4
am 7.30


# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Jinnie Roberts yn trafod ei thaith i Rwsia, gan ddangos sleidiau. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Val Davies ac fe'i enillwyd gan Mrs Mair Williams. Darparwyd y te gan Mrs Jean Davies a Mrs Mair Jones o Lanrug.

CLWB Y MAMAU: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn yr ysgoldy, pan ailetholwyd Audrey Roberts yn llywydd a Sheila Williams yn drysorydd. Etholwyd Mrs Helen Jones yn ysgrifenyddes. Darparwyd lluniaeth gan Rhian Jones a Helen Jones, rhoddwyd anrheg y mis gan Audrey Roberts ac fe'i enillwyd gan Jackie Jones.

Deallwn fod Mrs Mair Griffiths, Ael y Bryn yn yr ysbyty – dymunwn adferiad llwyr a buan iddi. Hefyd i Mr J. Williams, Bryn Melyn sydd yn aros galwad i'r ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr iddi hithau hefyd.

TACHWEDD 5: NOSON TÂN GWYLLT: Fe gofiwch mae'n siŵr fod y noson yma wedi ei threfnu yn y gorffennol gan bwyllgor Clwb 80. Er bod Clwb 80 wedi diddymu – teimlai llawer ohonom y dylid cario ymlaen â'r trefniadau er diogelwch y plant. Mae'n siŵr y cytunwch bydd coelcerth a thân gwyllt dan orychwyliaeth oedolion ac mewn un man canolog yn y cae chwarae, yn llawer mwy diogel nag amryw o danau hyd y pentref a thân gwyllt ym mhob man.

Felly, yn ôl y drefn a gafwyd yn y gorffennol, fe ddaw casglwyr o amgylch y pentref, nos Wener Hydref 4 i gasglu arian ar gyfer y tân gwyllt. Fe wariwyd dros £100 o gronfa clwb 80 y llynedd – ceir amcan felly o'r swm sydd ei angen – pris rhad os gellid arbed anaf i'r plant.

PARTI NADOLIG: Eto, yn arwain o ddiddymu Clwb 80 mae'r pwyllgor gwaith a benodwyd yn gynharach yn y flwyddyn (Gwyn Mowl, Carol Houston, Jackie Jones a Dafydd Ellis) wedi cyfarfod i drefnu'r uchod (Tân Gwyllt) ac hefyd i drefnu parti Nadolig ar gyfer yr oedolion.

Yr ydym wedi archebu Neuadd Henllys, Biwmares ar gyfer nos Wener Rhagfyr 20 at ginio Nadolig traddodiadol – twrci etc. a Disco. Bydd bws yn ymadael â'r bont am 7 o'r gloch, gyda'r cyfanswm bris yn £8.00. Derbynnir enwau, gyda blaendal o £2.00 gan y pwyllgor a enwir uchod – dalier sylw mai ond 53 a all fynd, sef llond y bws ac fe ddosbarthir y tocynnau i'r rhai cyntaf â'i ceisiai gyda'r blandal.

## CYCHWYN AR EI WAITH YN 12 OED



*Yn ddiweddar fe argyweiriwyd y to ym Mhenrallt, ac wrth glirio'r atic daeth Mr George Ellis o hyd i'r llun yma, sydd yn dangos ei frawd — y diweddar Mr John Ellis — yn cychwyn ar ei waith yn fachgen 12 oed.*

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Hydref 11. Cynhelir Noson Lawen gan Hogia'r Ddwylan yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd y noson fydd Charles Williams, ac fe gymerir rhan gan artistiaid eraill. Elw i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Pris £1.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas




**Perchennog: E.P. Hughes**

**MODURDY DOLYDD**

**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

# ECO'R IFANC

## NEGES I YSGOLION Y FRO

**O hyn ymlaen bydd Eco'r Ifanc yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniad gan ysgolion y fro. Rhaid pwysleisio nad oes angen paratoi unrhyw beth yn arbennig, mae digon o waith diddorol ar y gweill ymhob ysgol – bydd unrhyw gyfraniad yn sicr o adlewyrchu hyn. Dyma restr o'r math o gynnyrch fyddai'n sicr o fod yn addas.**

- adroddiad am ddigwyddiad diddorol yn yr ysgol, e.e., ymwelydd neu siaradwr gwadd
- cynnyrch creadigol yn deillio o waith dosbarth, e.e., ysgrif neu bwt o farddoniaeth
- ysgrifau yn deillio o waith dosbarth am hanes bro
- adroddiad am blant neu blentyn wedi cyflawni rhyw gamp mewn unrhyw faes
- tybed oes unrhyw weithgaredd arbennig yn eich ysgol yn deilwng o'i hysbysu, e.e., casglu at achosion da
- os ydych chwi blant a phobl ifanc y fro eisiau mynegi eich barn ar unrhyw beth – beth am ysgrifennu pwt o lythyr at Eco'r Ifanc?

Beth amdani blant ac athrawon y fro?

**RHIFYN TACHWEDD**
Deunydd i law erbyn **HYDREF 22ain** i:
**EDWARD ELIAS,
GWÊN Y WAWR
LLANRUG**

## CATH A CHANNWYLL FRWYN

Onid yw'n braf fel mae un stori'n cymell ymateb hollol annisgwyl. Yn rhifyn diwethaf yr Eco cafwyd adroddiad am ymweliad plant Ysgol Tan-y-coed â Ffynnon Cegin Arthur. Ysgogodd hyn ymateb gan Mrs D.M. Jones, 17 Lôn y Bryn, Caernarfon, drwy ddod â llu o atgofion iddi am ei chyfnod fel disgybl yn yr ysgol. Fel canlyniad daeth Mrs Jones â chroen ryw anifail gwyllt i'r ysgol, croen a gafodd ei mam gan ei brawd o Batagonia. Rhoddodd sialens i'r plant dynnu llun yr anifail fel yr oedd yn fyw.



Mae plant yr ysgol wedi bod yn dysgu gwneud canhwyllau brwyn fel rhan o'r gwaith dosbarth. Tybed a ddaw hyn ag unrhyw oleuni am hanes y "gath" wyllt!



**Ar ôl seibiant dros wyliau'r haf dyma Eco'r Ifanc yn ôl unwaith eto i geisio adlewyrchu gweithgareddau ieuenctid y fro. Mae'n debyg bod rhai o'n darllenwyr wedi cychwyn ar yrfa newydd ac eraill wedi troi i dudalen lân o'ch gyrfa ysgol. Dymuniadau gorau i bob un ohonoch.**

## DARGANFOD CLOCH



*Wayne a'i frawd Ryan gyda'r gloch.*



Cefais hyd i'r gloch yn Ninas Dinlle. Roedd wedi cael ei gorchuddio â thywod. Mae'r hen gloch ag enwau Lladin arni. Mae wedi colli ei lliw achos mae hi dros ddau gant oed. Pan gefais hyd i'r gloch fe redais i'r môr i'w golchi. Roedd tywod yn dal arni.

Yr enwau arni yw LVCAS, JOHANNES, MATHEVS, a MARCVS. Enw y pedwar disgybl ydynt. Mae'r tywod yn dal ynddi. Mae rhai darnau ohoni ar goll. Nid oes tafod i'r gloch. A mae lluniau wedi cael ei cerfio arni. Y lluniau yw llew, carw, aderyn, a dyn yn darllen llyfr.

Wayne Matthew Jones
(Llanrug)

**GŴYL WERIN
CAERNARFON**
BORE SADWRN,
HYDREF 5ed
GWEITHDAI DAWNSIO
GWERIN
yn
YSGOL SYR HUGH OWEN
9.20-12.00 o'r gloch
Croeso i blant y fro


**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I
**SIOP GRON**
**A SWYDDFA'R POST**
**PENISARWAUN**
**Ffôn:**
**Llanberis 871272**
CANOLOG I'R FRO





**Busnes newydd ym
Mro'r Eco . . .**
**EMYR
JONES**
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513**

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU
neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch
**BRYN**
**LLANBERIS 870793**
**B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO**

# GWYDDONWYR IFANC

**Bu rai o blant Llanrug a Waunfawr yn llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth gwyddoniaeth Eisteddfod yr Urdd. Dyma gyfle o'r diwedd i gael cipolwg ar ychydig o'r gwaith.**



*Plant Llanrug yn chwilio am bryfed genwair.*

## SUT I DDAL PRYF GENWAIR

Roedd yn rhaid cael toddiant golchi a dŵr. Ar ôl dewis llain o dir yn mesur 1 metr sgwâr roedd yn rhaid taenu ychydig o'r gymysgedd dros bob rhan o'r sgwâr. Roedd y pryfed genwair yn ymddangos am bod eu croen yn dechrau llosgi – fel y byddwn ni yn cael sebon yn ein llygaid. Dyna pam bod y pryfed genwair yn ceisio dianc drwy ddod i fyny o'r pridd. Roeddem yn eu cyfri ac yna yn eu golchi'n drwyadl mewn dŵr glân a'u rhoi yn ôl ar y llain.

Buom yn astudio pob math o greaduriaid, bach a mawr, oedd yn byw ar y llain tir oedd reit o flaen yr ysgol.

## Y MORGRUG



Heddiw, dydd Sadwrn, Ionawr 5ed 1985 digwyddodd rhywbeth rhyfeddol iawn – nid oeddem yn coelio ein llygaid bron.

Gwelsom gannoedd o forgrug yn codi oddi ar y palmant am 6 o'r gloch Nos Sadwrn, Awst 11ed 1984. Ar ôl i'r haid fynd i ffwrdd sylwom fod ychydig ohonynt yn llonydd ar y palmant ac felly rhoddom 4 o'r 'morgrug marw' sef dwy fawr a dwy fach mewn pot bychan a chau y caead yn dynn.

Heddiw, yn y tŷ cynnes, rhoddwyd ychydig o lud ar bapur a glynu y morgrug arno, ac er ein syndod ymhen tua pum munud sylwodd un ohonom fod dau o'r morgrug – sef y rhai mawr – yn symud. 'Roedd un yn cicio ei 6 coes yn fywiog iawn a'r llall yn ysgwyd ei theimlyddion.

'Roedd y morgrug wedi byw am bum mis heb ddim bwyd nac awyr iach. Tybed a oeddent wedi 'gaeafu' yn y potyn yn y garej ac wedi deffro yng ngwres cynnes y tŷ.

Mewn gobaith o'u lladd yn ddi-boen penderfynasom eu rhoi yn y rhewgell ac yno y buont o'r Nadolig hyd bron i ddiwedd Chwefror.

Ond er syndod i ni eto, unwaith y cafodd cynhesrwydd y tŷ effaith arnynt, yr oeddynt yn dal i gicio.

Ein hymgais olaf i'w lladd oedd malu dail llawryf a'u gosod arnynt. Dyna wnâi pobl dal gloynnod byw ers talwm, a'r nwy gwenwynig yn dod o'r dail. Cyanide tebyg i'r un a laddodd y ddwy fil yn yr India yn ddiweddar.)

# Y BYD POP YN Y STEDDFOD

### (Adolygiad Einir Parri)



Un o uchafbwyntiau'r byd pop Cymraeg erbyn hyn yw'r Steddfod, ble mae holl grwpiau Cymru yn dod at ei gilydd i chwarae mewn cyngherddau a sesiynau. Eleni, roedd y patrwm ychydig yn wahanol. Roedd y 'Twrw Tanllyd' traddodiadol wedi mynd, ac yn ei le, cafwyd nifer o ganolfannau llai, fel 'Mirrors' yn Nhywyn a'r 'Fountain' ym Modelwyddan. Trwy'r wythnos, bu grwpiau o bob math yn perfformio yno am brisiau rhesymol iawn. Roedd ambell i noson yn tueddu i fod yn fwy poblogaidd na'r lleill. Roedd nosweithiau Geraint Jarman yn y 'Mirrors' yn boblogaidd iawn, a dim lle i droi bron yn noson Maffia yno ar y nos Wener. Yn rhyfeddol, nid yn unig y grwpiau poblogaidd fel Maffia a'r Brodyr a gâi gynulleidfaoedd da. Llwyddodd Cyrff a'r Anrhefn i ddenu cynulleidfa sylweddol iawn yn y 'Fountain' ar y nos Iau.

Cyn y Steddfod roedd llawer yn bryderus iawn ynglŷn â threfniadau ar gyfer yr ifanc. Ar ôl dirywiad graddol 'Twrw Tanllyd' yn ddiweddar, roedd yn rhaid newid y drefn. Yn Eisteddfod Llangefni yn '83 roedd y babell enfawr yn aml yn hanner gwag, gyda phawb yn tueddu i gyrraedd ar gyfer y prif grŵp ar ddiwedd y noson. Ond, er gwaetha'r pryder roedd y syniad newydd yn llwyddiant ysgubol. Nid yn unig yr oedd un ganolfan yn cael ei llenwi, ond dau a thri lle bob nos.

Yn ychwanegol at hyn, ceir pabell adloniant i'r ifanc ar y maes ei hun. Syniad cymharol newydd yw hwn, a sylfaenwyd ym Machynlleth, ond sy'n ehangu bob blwyddyn – Bedlam y llynedd a Chlang Clwyd eleni. Roeddwn i wrth fy modd yn y babell yma, ac yn treilio rhan helaeth o'r dydd yno. Roedd yna amrywiaeth da yno, er i rai grwpiau o safon isel iawn gael cyfle a rhai o safon llawer gwell yn dioddef. Syniad da oedd rhoi awr bob dydd i grwpiau bach gael cyfle, ond siomedig oedd yr ymateb gan i rai grwpiau beidio trafferthu troi i fyny, ac eto maent yn cwyno ei bod yn anodd cael sylw teg yng Nghymru heddiw!

Roedd yr awyrgylch yno yn wefreiddiol, yn enwedig pan oedd Maffia a'r Anrhefn yn perfformio. Ond, i mi, uchafbwynt Steddfod y Rhyl oedd Geraint Jarman. Aeth Clang Clwyd yn fôr o weiddi pan ymddangosodd, ac ar ôl cael ei alw'n ôl ddwy waith fe chwaraeodd Tich Gwilym Hen Wlad Fy Nhadau ar ei gitâr, gan ysgogi pawb i ymuno yn y gytgan, a'r darlun yna o'r babell orlawn honno sy'n aros yn fy nghof i o Steddfod y Rhyl.


## GŴYL WERIN CAERNARFON

HYDREF 4-5

- Nos Wener – Noson Roc gyda'r BRODYR a CHWYLDRO
- Pnawn Sadwrn – timau DAWNSIO GWERIN yn arddangos ar strydoedd Caernarfon
- Nos Sadwrn – TWMPATH DAWNS – Gwesty'r Royal, Caernarfon

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**YSGOL YRRU OFALUS**

* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol

D L

**PRITCHARD**

43 glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

**Wavell Roberts**

**CIGYDD**

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

*PEN CIGYDD Y FROI*

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

**M. ROWLANDS**

MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

# GWRAIG TŶ YN YR ARDD

Gofynnodd rhywun i mi'r diwrnod o'r blaen: 'Ydach chi wedi gorffen yn yr ardd rŵan?' Pan ofynnwyd hyn i arddwr unwaith, ei ateb oedd 'Fydda'i byth yn gorffen!' Clywn yn aml nad oes ddiwedd ar waith gwraig tŷ. Gellir dweud yr un peth am waith yr ardd. Dydw i ddim yn cymryd arnaf fy mod yn arddwr, dim ond gwraig tŷ yn stwnsian yn yr ardd.

Y mae cymaint i'w wneud; fel tacluso'r adeg yma o'r flwyddyn. Bydd yn rhaid codi'r dahlia (a godais o had am y tro cyntaf erioed leni) a'r Myniawyd y Bugail, a llenwi'r bordor efo bylbiau tiwlip, neu Gennin Pedr a blodau'r fagwyr. Rhaid cadw y Myniawyd y Bugail yn y tŷ gwydr, neu onid oes dŷ gwydr, ar lintal y ffenestr yn y tŷ.

Rwy'n clirio'r fordor blodau parhaol a chodi'r chwyn parhaol trwy fforchio'r fordor a chael gwared ohonynt am byth – gobeithio! Dyma amser da i rannu'r blodau parhaol, yn enwedig y rhai sydd wedi gor-dyfu; ail-blannu'r darnau gorau, a rhoi gwreiddyn bach i hwn a hon (fel y Border Bach – Crwys). I gael sioe dda y flwyddyn nesaf bydd yn beth da eu plannu yn grwpiau o dri. Mae rhai blodau fodd bynnag fydd yn well o'u gadael hyd y gwanwyn; er enghraifft, y scabious. Codais gaillardia yr Hydref diwethaf ac fe'u difethwyd gan y rhew.

Y mae Blodau Mihangel yn mynd i sirioli cryn dipyn arnom yn y tŷ gwydr pan ddaw yn fis Tachwedd, ond rhaid cyfaddef fod cryn dipyn o waith gofalu amdanynt. Dyna pam y maent mor ddrud yn y siopau. Maent angen digon o aer, ond eto'n casau tamprwydd. Er hynny, maent yn werth y llafur. Na, fydda'i ddim yn cyrlio'r petalau a'u bwydo i roi blodau mawr i gystadlu mewn sioeau, ond hoffaf yn fawr gael blodau i'r tŷ a rhoi tusw i ambell ffrind. Gobeithiaf y byddant yn dal hyd y Nadolig.

A dyna 'chydig o stwnsian gwraig tŷ yn yr ardd yr adeg hon o'r flwyddyn. Hwyl i'r rhai sydd â diddordeb.



# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED – Croesawyd deg o blant bach newydd i'r ysgol, ac maent bellach wedi hen gartrefu yn ein plith. Gobeithio fod y plant a aeth i Ysgol Brynrefail wedi ymgartrefu yno hefyd a phob llwyddiant iddynt.

Cafwyd ymateb da i'n hapêl i glirio Ffynnon Cegin Arthur. Rhoddwyd cais i'r Pwyllgor Cymundeb gan Miss Phyllis Ellis a chafwyd addewid i'w clirio dan y Cynllun Creu Gwaith.

Derbyniwyd galwad ffôn gan Mr Ernest Land (Cae Hob gynt) yn dweud fod potel o ddŵr durllyd y ffynnon i'w gweld yn yr Amgueddfa ger Neuadd y Penrhyn ym Mangor.

Cawsom lythyr diddorol gan Mrs D.M. Jones, 17 Lôn y Bryn, Caernarfon. Daeth hanes Ffynnon Cegin Arthur ag atgofion melys yn ôl iddi pan oedd yn ddisgybl yma flynyddoedd yn ôl bellach. Roedd gan Mrs Jones, groen rhyw anifail gwyllt a gafodd ei mam gan ei brawd o Patagonia. Y mae Mrs Jones am i blant yr ysgol dynnu llun yr anifail, fel yr oedd yn fyw. Y mae hanes hela'r gath wyllt yma i'w gael yn 'Straeon Patagonia', R. Bryn Williams. Y mae £1 yr un o wobr, i'r pum llun gorau, gan Mrs Jones. Felly blant, cawn weld pwy yw'r arlunwyr gorau!

Pan fydd trydan yn mynd i ffwrdd y tro nesaf, ni fydd plant ysgol Tan-y-Coed yn poeni rhyw lawer. Maent wedi bod yn dysgu'r hen grefft o wneud canhwyllau brwyn. Daeth y plant ati i wneud eu canhwyllau eu hunain pan ddefnyddio brwyn a chŵyr. Byddwn yn ddiolchgar os oes gan rhywun yr hen offer i ddal canhwyllau brwyn i ni gael eu harddangos yn yr ysgol.

Bydd dau ddiwrnod o wyliau achlysurol ddydd Gwener Tachwedd 22 a dydd Llun Tachwedd 25.

CAPEL BOSRA – Croesawyd y plant yn ôl i'r Ysgol Sul ddechrau Medi, wedi gwyliau'r haf. Roeddem yn falch iawn o weld y plant i gyd yno o'r lleiaf i'r hynaf. Diolch am eich ffyddlondeb blant! Bydd y plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau yn Ninorwig, Hydref 6ed, am 2.00 o'r gloch. Bydd bws yn cychwyn o Benisarwaun am 1.30pm. Bore Sul, Hydref 20, cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch gan blant yr Ysgol Sul.

Dymuna'r athrawon ddiolch i'r rhai roddodd roddion i'r Ysgol Sul.

EGLWYS SANTES HELEN – Cydymdeimlwn fel eglwys â theulu y ddiweddar Mrs Kathleen Foulkes, Bryn Derw, a fu farw yn ystod yr haf. Diolchwn i'r teulu am eu rhodd ariannol i'r Eglwys er cof amdani. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu'r diweddar Thomas Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen a fu farw yn sydyn ac annisgwyl.

DIOLCHGRWCH – Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch fel a ganlyn, dydd Sul, Hydref 20 – Cymun Bendigaid dwyieithog – 10.30am. Gosber a phregeth gyda'r Parch Ganon B.D. Roberts, Llanfairpwll am 4.30pm.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Awst 31 priodwyd Siân Lloyd Williams, merch Mr a Mrs J. Williams, Llanrug ac wyres y diweddar Mr a Mrs J. Pritchard, Pensarn gynt, â Mr Stephen John Burston, gyda'r Deon Gwlad, y Parch Richard Jones yn gweinyddu. Yr organydd oedd Mr B. Griffith. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc yn eu bywyd priodasol.

FFAIR HYDREF – Cynhelir Ffair Hydref yn Neuadd yr Eglwys, nos Lun, Hydref 21, yr elw at dreuliau'r Eglwys.

PARTI'R HEULWEN – Yn absenoldeb Mrs Porter, llywyddwyd gan Mrs Betty Evans. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Porter a'r aelodau eraill a fu'n cwyno. Cydymdeimlwyd â theulu Mr Tom Williams, Deiniolen.

Sgwrs ddiddorol a gafwyd, gan Major Arthur Brown, Byddin yr Iachawdwriaeth. Diolchwyd iddo gan Mrs Nesta Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Fisher a Mrs Lewis – diolchwyd iddynt gan Mrs Annie Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Elen Williams. Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 15.

GWELLHAD – Cipiwyd Naethan Eagles i'r ysbyty ddechrau'r mis, ond rydym yn falch o'i weld yn well unwaith eto. Deallwn fod Mr W.H. Griffith, Tros y Waun wedi bod yn yr ysbyty hefyd. Gobeithio eich bod yn well erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan i Mrs Sally Griffith, 16 Bryntirion wedi triniaeth yn yr ysbyty, a balch ydym o ddeall fod Carol Jones, 21 Bryntirion wedi gwella hefyd. Dal i holi amdanoch y mae eich ffrindiau Mrs Potter, a phawb yn dymuno adferiad buan ichi.

A chithau bentrefwyr, sydd ag unrhyw anhwylder, hwyrach y cawn rhyw Ha Bach Mihangel i godi'r galon cyn dyfodiad 'llaw y gaeaf oer'! Gobeithio wir!

CYDYMDEIMLWN â Mr G. Clegg, Brynhyfryd, o golli ei dad.

CROESO cynnes i Mr John Arwyn, a'i wraig Louise a'u plant, sydd wedi ymgartrefu yn Ortavia. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

LLONGYFARCHIADAU i Trevor Jones, Bryntirion, ar ddathlu ei un ar hugain. Pob dymuniad da i Arwel Williams, Carrog Waen, a Louise Cropper, Llanrug ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

Llongyfarchwn Hefina Wyn Jones, Tai Arthur, ar ei llwyddiant mewn arholiad piano Gradd I. Y mae'n ddisgybl i Mrs H. Williams, Cesarea.

TRIP – Eleni eto trefnir trip siopa Nadolig gan Mrs Margaret Williams, Carrog, Waen. Bydd trip yn mynd i Fanceinion, Rhagfyr 7. Pris – £3 y pen, £1.50 i blant. Bydd y bws yn cychwyn am 7.45am. Enwau i Margaret cyn gynted â phosibl, os gwelwch yn dda.

WYLLGOR NEUADD – Medi 7, cynhaliwyd Helfa Drysor dan ofal Miss Phyllis Ellis. Bu'n addysg i amryw ohonom! – a chafwyd hwyl yn cymharu'r atebion ar ddiwedd y daith, yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug. Diolch i Phyllis am drefnu'r daith a gofalu am y gwobrau. Yr enillwyr oedd, 1. Eurgain Haf ac Osian; 2. Eric ac Elisabeth; 3. Ann a Dave; 4. Gwynfor a Jean; 5. Douglas ac Iola. Cofiwch am weithgaredd mis Hydref – sef noson calan gaeaf – bydd cystadlaethau i blant ac oedolion – y wrach orau, mwgwd gorau a.y.b.

DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL – Cofiwch wylio'r teledu nos Sul, Hydref 20 a Hydref 27. Arweinydd y Gymanfa yng Nghapel Jerusalem, Bethesda fydd Arwel Jones, Pant Hywel.

DRAEN – Mae Mr Ernest Land yn awyddus i gael gwybodaeth pryd y cafodd y draen fawr sy'n cario dŵr i'r Faenol ei gwneud – mae'r draen yn mynd drwy Cae Hob, Bach Iffri a Nant y Garth. Oes gan unrhyw un wybodaeth am hyn?

CLWB CANT Y NEUADD: Enillwyr Clwb Cant – 1. £20, Mrs R. Jones, 26 Bryntirion, 2. £12, Miss Gwyneth Owen, Minffordd, 3. £8, Mr B. Jones, Perthi.

NOSON GUTO FFOWC: Tachwedd 5: Tân Gwyllt yng nghae'r pentref am 6.30. Bydd lluniaeth ysgafn. Ticedi gan Mrs Elisabeth Jones, 50c i oedolion, 30c i blant.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr G. Clegg am ei gyfraniad o £100 yn dilyn Ras yr Wyddfa (Noddedig). Daeth raffl fawr Arwel â £530 i'r coffrau. Diolch yn fawr iawn!

Cafwyd £18 gan Elisabeth a Jean Jones – elw parti coluro. Diolch yn fawr, genod!

Arlwy mis Rhagfyr – sef Rhagfyr 13 – fydd Brethyn Cartref yng ngofal ein dynion dawnus. Cofiwch y dyddiad – **RHAGFYR 13, nos Wener!**

## DRAENOG



**Pan aeth teulu Buarthau, Llanrug am wythnos o wyliau ym mis Awst roedd yn rhaid cael rhywun cyfrifol i ofalu am yr ieir! Eu dewis oedd un o Fandwyr selocaf Band Deiniolen. Wrth gasglu'r wyau ar ddiwedd y diwrnod cyntaf roedd un ŵy tegan ymysg y casgliad o wyau (yn ddiarwybod). Aeth â'r wyau adref i'w wraig i Ddeiniolen ond gan fod ei chwaer hi wedi dod ati i aros am ychydig o wyliau o Wrecsam rhoddodd hanner dwsin o wyau iddi i fynd yn ôl adref i Wrecsam. Yn Wrecsam cafwyd salad i swper gan roddi dau neu dri o wyau i ferwi yn y sosban! Pan ddaeth yn amser tynnu'r wyau o'r sosban y sylweddolwyd mai ŵy tegan oedd un ohonynt.**

**Mae'r ŵy bellach yn ddiogel yn y nyth ym Muarthau ar ôl ei daith ddiddorol.**

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Hydref 11. Cynhelir Noson Lawen gan Hogia'r Ddwylan yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd y noson fydd Charles Williams, ac fe gymerir rhan gan artistiaid eraill. Elw i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Pris £1.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# PUMP MEWN CAR COCH –O AMGYLCH GWYNEDD

Uchelgais, yn ôl pob tebyg, a hudodd Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarwaun, i deithio mewn car mor agos ag y medrai at ffiniau Gwynedd. Byddai wedi mentro ar y daith doed a ddêl ond sylweddolodd fod cyfle yma i'w gwneud yn fenter codi arian. Cyflwynodd y syniad i aelodau Pwyllgor Neuadd Penisarwaun, ac aethant hwythau ati'n ddiymdroi i werthu tocynnau i ddyfalu y milltiroedd a gymerai Arwel i gwblhau y daith. A sôn am ddyfalu! Bu'n destun dadleuon brwd a ffyrnig mewn sawl tafarn, siop a gweithdy, neilltuwyd gwersi i drafod a dyfalu mewn ambell ysgol a bu bron yn achos rhwyg ar aelwydydd! Onid oedd pawb yn berffaith sicr faint o filltiroedd oedd yna o amgylch Gwynedd. Roedd un, ysywaeth, yn gwbl bendant ac yn argyhoeddedig na chychwynnai'r car – felly yn ei ddoethineb neu'i obaith mentrodd roddi – 0 milltir ar y tocyn. Nid wyf yn sicr o'i ddoethineb yn rhoddi dim ar bum tocyn – gan nad oedd ond un wobr i'w chael, sef £100.

22,000 milltir oedd y cynnig uchaf a chafwyd awgrym mai gweithgaredd mis Hydref Penisarwaun fyddai gyrru mintai allan i ddarganfod y pum gwron! Y pum gwron, gyda llaw, oedd Arwel Jones y gyrrwr; Dafydd Evans a oedd yn gyfrifol am ddangos y ffordd i'r gyrrwr, Douglas Jones a oedd yn benderfynol o ddangos y ffordd i Dafydd Evans, Eric Jones (Gilligan) a ddaeth am y reid – ond a drodd allan i ddifyrru'r oriau, a Tony Elliot a ddaeth i gofnodi'r achlysur ar gywydd a chân! Dyna'r gwroniaid dewr – ond cred rhai mai'r dewraf o'r dewraf oedd John Trevor, perchennog Modurdy Hafod, Llanrug, a fentrodd roddi car iddynt. Mae si ar led na chysgodd John am ddwy noson cyn y daith ac na fwytaodd friwsionyn ddydd Gwener, Awst 23. Mae trigolion Penisarwaun yn falch o'i weld erbyn hyn yn holliach ar ôl dioddef cyfnod trawmatig iawn ac mae eu diolch iddo am gefnogi'r fenter yn ddiffuant.

Yn gynnar iawn y dydd Gwener hwnnw cychwynnodd y car coch wedi ei orchuddio gyda hysbysebion Hafod Garage o amgylch y pentref i godi'r gwroniaid. Roedd pob un yn barod ar y dot ac yn awyddus iawn i gyrraedd Pont y Borth a chael cychwyn. Yr unig un oedd wedi rhag-baratoi oedd Gill. Daeth i'r car gyda bag yn ei feddiant, a ddisgrifiai fel 'survival kit' a oedd yn gwbl angenrheidiol ar gyfer antur mor faith a pheryglus!'

Mae si ar led hefyd fod y gyrrwr wedi cymryd y tro anghywir cyn cyrraedd y man cychwyn – ond gan nad oedd Dafydd Evans wedi meddwl defnyddio map rhwng Penisrwaun a Phont y Borth rhoddir y digwyddiad anffodus hwn i lawr fel camgymeriad bychan gan y gyrrwr.

Roedd y Parchedig Huw John Hughes yn sefyll ger yr Antelope cyn codi cŵn Caer yn disgwyl am y teithwyr. Gobeithio'n wir na welodd yr un o'i aelodau ef wrth fynd heibio i'r gwaith! Anodd iawn fyddai iddo esbonio ei bresenoldeb mewn ffasiwn fan ar ffasiwn adeg! Ond yno ar berwyl da yr oedd Mr Hughes a gwnaeth yn sicr fod y cloc yn cael ei osod ar ddim cyn cychwyn ar y daith.

Buan iawn y daeth y bererindod i gyffiniau Bliwmaras ac yno y galwyd am 'survival kit' Gill am y tro cyntaf gan iddynt dybio eu bod ar daith Saffari! Yn syth o'u blaenau y gorweddai camel ac yn glos wrth ei ochr y safai sebra! Roedd y gyrrwr, o brofiad, wedi ymdynghedu i fod yn bwyllog o anifeiliaid bach yn croesi ffyrdd cefn gwlad, yn enwedig yn y bore – ond camel a sebra? Sgersli bilif! Ond rhag ofn i chi ysgrifennu yn eich cannoedd at y golygydd i ddarganfod y gwir – syrcas oedd wedi cyrraedd y dref a'r anifeiliaid allan yn gorffwyso.

Y cynnwrf nesaf oedd tua Llanddona pan wibiodd ceiliog ffesant allan o'r gwrych i lwybr y car. Ar amrantiad taranodd Tony Eliot linell o gywydd. Nid oes cofnod ohoni ar gael yn gyhoeddus – dim ond yng nghof a chalon y pedwar cydymaith. Y farn unfrydol ar y pryd oedd pe byddai'r awen yn dod heibio Tony mor sydyn ac mor gadarn yna byddai cadair y Genedlaethol yn solat dan ei din o fewn y flwyddyn.

Mewn rhyw bentref bychan iawn rhywle yn y gwyllt yng ngogledd ddwyreiniol Ynys Môn roedd ffermwyr y fro wedi ymgynnull y tu allan i'r siop. Mae'n ymddangos fod hyn yn orchwyl ddyddiol tua'r naw i gael sgwrs cyn prynu papur, torth a baco. Nid yn aml y byddai neb yn tarfu ar yr heddwch ac o'r herwydd mynasant y ffordd iddynt eu hunain. Gallwch ddychmygu yr olwg o syndod ar eu hwynebau pan ymddangosodd car coch a sticeri hysbysebu lliwgar arno gan ganu corn. Serch hynny, araf a digyffro y bu iddynt symud o'r neilltu gan edrych yn fygythiol. Tybiai Gill eu bod yn sicr mai car Neil Kinnock oedd yn dynesu a'u bod yn cofio y miri a gododd hwnnw yn y cyffiniau hefo busnes y 'lle chwech' yn yr ysgol.

Digyffro oedd gweddill y daith o amgylch Môn. Y syndod mawr oedd fod 115 o filltiroedd wedi ymddangos ar y cloc fel yr elent dros y bont.

Tua'r adeg yma y dechreuodd y glaw. Cyraeddasant Gaernarfon a rhyfedd meddwl eu bod wedi teithio ychydig dros 120 milltir i gyrraedd dre! 'Beth am fynd adra a chymryd short cut', oedd sylw Doug o'r cefn, 'saith milltir ydi o'. Ond brwydro ymlaen wnaeth y dewrion.

Daeth yn amser cinio a'r anturiaethwyr ym mherfeddion hen wlad Llŷn yn awchu am stecan neu goes cyw iâr. Ond ow! sôn am siom. Roedd pob tafarn a chaffi'n llawn, ac i wneud pethau'n waeth – yn llawn o 'Saeson hinon ha' yn mochel rhag y glaw. Nid oedd yn bosibl mynd at y bar – ac nid oedd y tafarnwyr yn awyddus iawn i'w bwydo – ond ymddangosai'r ymwelwyr yn llawn a bodlon. Mewn caffi bychan twt ar draethell Pwllheli y cawsant eu cinio gan nad oedd undyn call wedi mentro i'r llecyn hwn o Wynedd ar 'nawnddydd mor ddrycinog. Cawsant yno fwyd, paned a chroeso Cymreig. Yn wir cynigiodd Gill olchi llestri i'r merched. Gwrthod y cynnig wnaeth y perchennog, er mor ddiolchgar a balch yr oedd o'u gweld – a thalu fu rhaid!


O'r fangre honno ymlaen roedd y car yn chwipio mynd gan mai'r briffordd oedd agosaf at yr arfordir. Yn Aberdyfi roedd yn rhaid troi yn ôl tua'r tir. Yr oedd y ffordd wedi bod yn bur gyfarwydd i'r gyrrwr a chyfarwyddiadau Dafydd wedi bod yn sydyn a phendant mewn mannau diarffordd. Ond trodd trwyn y car oddi ar y briffordd yng Nghorris a chyfeirio am Aberllefenni i gyrion Fforestydd Dyfi yna ymlwybro'n igam-ogam i wyll y fforest. Daeth y car i aros ar ganol croesffordd gan nad oedd arwyddion yno a chan nad oedd y ffyrdd yma yn cael eu dangos yn eglur ar fap. Am y tro cyntaf yr oedd y criw glew o Benisarwaun mewn cyfyng-gyngor go iawn rhywle yng nghrombil Fforest enfawr Dyfi. Nid oedd ebwch yn y car. Nid oedd awydd barddoni ar Tony, roedd Dafydd a'i drwyn yn y map, bodlonai Dong i Dafydd fod felly a rhoddodd Arwel ei ben ar y llyw mewn anobaith. Yn sydyn o'r sêt gefn daeth llais Gill 'Diolch i Dduw mod i wedi rhoi sana gwyn am 'y nhraed – mi fydd yn haws i ddreifar yr helicoptar 'y ngweld i!' Daeth bloedd o enau'r pedwar arall a bu rhaid ymadael â'r car am funudau a throedio yn y mwd i chwilio am lecyn sych i sefyll gan fod natur a chwerthin wedi dod yn drech na hwy. Efallai mai'r sioc o fod ar goll oedd yn gyfrifol i Gill ddychmygu gweld Liz ei wraig yn chwilota o dan gwely am ei bolisi yswiriant! Yn anffodus i chi y darllenwyr ond yn ffodus i'r hogia dewisant y ffordd gywir i Aberangell ac yna ymlaen i Ddinas Mawddwy a'r Llew Coch. Roedd yn rhaid cael llymaid dros galon wantan ac i ymbaratoi i fynd dros Fwlch y Groes. Mae'n amheus iawn gen i mae'r Llew Coch oedd y fangre ddelfrydol i ymbaratoi i fynd dros y ffasiwn le. Dyma un o elltydd mwyaf serth Cymru. Roedd y dyfnder i lawr at yr afon yn anhygoel ac yma y mynnodd Dong ddechrau canu 'adenydd colomen pe cawn'. Ond fel yr âi'r car i fyny ac i fyny newidiwyd yr emyn i 'Craig yr Oesoedd'! Roedd yr hogia am fynnu sicrwydd a chadernid y graig ar yr aswy yn hytrach na'r dyfnder i ebargofiant ar y dde! Fel Mari Jones gynt yr oedd y teithwyr modern hefyd yn falch o gyrraedd cyrion Bala gan adael Gwlad y Gwylliaid o'u hôl. Yr oedd wedi tywyllu'n llwyr erbyn hyn a'r glaw yn ymdywallt i lawr. Roedd yn rhaid dilyn y ffordd o'r Bala heibio i Lyn Celyn ac ar draws gwlad i Ysbyty Ifan ac i Ddyffryn Conwy. Roedd y ffyrdd yn gul a throellog iawn uwchben y dyffryn a chan ei bod mor dywyll roedd yn anodd iawn dilyn y map. Ond llwyddo a wnaethant a chyn pen amser daethant i lawr i Gyffordd Llandudno yn iach ac yn ddianaf! Dyma ardal magu Tony – a diolch am hynny. Nid yw'r ffyrdd yn hawdd yn y tywyllwch rhwng Gyffordd a Rôs-on-Sî i'r anghyfarwydd.

Erbyn hyn yr oedd yn un ar ddeg o'r gloch ac yn amser swper i un neu ddau ond yn amser gwely i'r gweddill. Roedd y teithio yn dechrau dweud ar y pump. Y farn gyffredinol erbyn hyn oedd y byddai llond bol o Chinese Take-Away o gymorth iddynt ymgodymu â'r ychydig filltiroedd oedd yn weddill. A dyna a fu.

Ar ôl troi oddi ar yr A5 am Lôn Siliwen rhoddodd Dafydd y map i gadw ac ymdynghedodd yn ei ffordd ddihafal ei hun y byddai'n mynd ar y daith eto – er mwyn cael gweld y golygfeydd! Roedd y creadur wedi bod a'i drwyn yn y map ar hyd y ffordd!

Fel y daeth y car i derfyn y daith am chwarter i hanner nos ger yr Antelope llithrodd ffigurau'r cloc i aros ar 410 union.

Y syndod mawr yng ngwesty'r Foelas, Llanrug, oedd fod un ar hugain o bobl wedi dyfalu'n gywir. Tynnwyd enw Mr A.T. King Davies, Eithinog, Groeslon allan o'r bocs ac iddo ef yr aeth y wobr o £100. Llongyfarchiadau iddo ef a diolch i bawb a brynodd docyn. Gwnaed elw o dros £500 – hwb bach i griw o wirfoddolwyr a brogarwyr a gweithgar Penisarwaun.



## DRAENOG



**Rôl gwyliau yn Sbaen fe fu senor**
**Yn gwledda ar bopeth – ond "honor"!**
**Yn ŵr di-byjamas**
**Y caed Sgwlyn Rhiwlas**
**Yn gorwedd ar fatras ym Mangor.**

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)**

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun nos Iau, Medi 5. Croesawodd Mrs Pat Parry, y Llywydd, yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf, a hefyd rhoddodd groeso i Mrs Smith, Cilfechydd. Llongyfarchwyd Mrs Wynn Jones ar gael ei derbyn i Orsedd y Beirdd a hefyd Mrs R. Gwynn Davies ar enedigaeth wyres fach. Y gŵr gwadd oedd Mr Duncan Brown, Gwelfor a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar wahanol agweddau o'i waith gyda'r Bwrdd Diogelu Natur. Diolchwyd iddo gan Mrs Missen. Enillwyd y raffl, a roddwyd gan Mrs Parry Williams, gan Mrs Pat Parry.

EISTEDDFOD YR ARDAL – Bydd cyfle eto eleni i gael paned a lluniaeth ysgafn rhwng cyfarfod y prynhawn a'r hwyr, ac os oes rhywun yn dymuno rhoi rhoddion o gacennau fe fydd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn. Gellir cysylltu â Bethan Williams, Bryn Meurig neu Nan Roberts, Pant Afon. Nodwch y dyddiadau canlynol os gwelwch yn dda:
Hydref 18 – dyddiad olaf derbyn y cynnyrch llenyddol gan gynnwys y llinell goll.
Hydref 31 – dyddiad beirniadu y gwaith llaw, gwau, gwnïo, coginio, arlunio a ffotograffiaeth. Mae'n ofynnol ichwi ddod â'ch cynnyrch i'r Ysgol Gynradd cyn 6 o'r gloch y noson yma. Hyderwn am gefnogaeth gref. Diolch yn fawr.

CRONFA'R GANOLFAN – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst: 1. £40 Iolo Huws Roberts, Bodrida. 2. £25 Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel. 3. £10 Emsul Jones, 15 Bro Waun.

PLAID CYMRU – Nos Wener, Medi 20, yn y ganolfan, cafwyd noson gymdeithasol ddifyr iawn, paned, sgwrs ac ymaelodi. Croesawyd Meg Dafydd a Iolo Huws Roberts fel enillwyr Cenedlaethol. Y gŵr gwadd oedd Mr Dafydd Wigley ein haelod seneddol a chafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo, yn edrych ymlaen am fwy o lwyddiant i Blaid Cymru.
Cofiwch am y Ffair Nadolig, Rhagfyr 6.

CLWB GWYRFAI – Bydd tymor y Clwb yn dechrau bnawn Iau, Hydref 10, a chroeso mawr i aelodau hen a rhai newydd i ymaelodi, yn y Ganolfan. Ein gwesteion fydd y Canon a Mrs R.D. Roberts – Llwyngwril gynt, a byddwn yn siŵr o awr ddifyr yn eu cwmni gan eu bod yn diddori ar Alawon Gwerin. Felly sgwrs a chân fydd y testun. Bydd y bws yn cludo fel arfer.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Roberts, 2 Dôl Erddi, ar golli chwaer; a Mr T.A. Thomas, Gilfach, ar golli brawd; ac â Eifion Glyn, Plas Bodhyfryd, ar golli mam.

YN YR YSBYTY mae Mrs Betty Griffiths, Gorphwysfa. Anfonwn ein cofion ati a'n dymuniadau gorau am lwyr wellhad buan.

ADREF O'R YSBYTY – Bu Mrs Ann Jones, Haulfryn, Kevin Davies, Hafan, a Mrs Ceinwen Lewis, Ael y Bryn, yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithiwn eu bod yn parhau i wella.
Da yw gweld fod Nyrs Mair Williams, Fferm Bodhyfryd, wedi gwella ac yn ôl wrth ei gwaith ar ôl misoedd lawer.

LLONGYFARCHIADAU –
i Richard Gwyndaf Owen, Bro Waun, ar ei briodas â Sylwen Solomon, 17 Ffordd Eryri, Caernarfon.
I David Williams, Parc, ar gyrraedd ei benblwydd yn 18 oed, Medi 19.

CLWB 100 PLAID CYMRU – Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Awst:
1. Beryl Jones, Dôl y Coed. 2. John Ellis, Glyn Awel. 3. Dr A. Miles, Tre Feddyg.

# LLYFRAU NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop leol.

**Dwylo Dros y Môr** gan Huw Chiswell.
(Eilir Davies), 75c
Trefniant i lais a phiano gan Alun Guy o'r gân adnabyddus a recordiwyd gan gantorion roc a gwerin Cymraeg, er mwyn codi arian ar gyfer y newynog yn Ethiopia.

**Hanner Cystal â Nhad** gan Dai Davies a Nic Parry.
(Siop y Siswrn), £3.25.
Hunangofiant y pêl-droediwr adnabyddus, gyda golwg ar ei gefndir cynnar a'i flynyddoedd llwyddiannus fel gôl-geidwad rhyngwladol ynghyd â'i sylwadau ar y chwaraewyr, y rheolwyr a'r gemau.

**Jennie Eirian** – Gwyn Erfyl (Gol)
(Tŷ ar y Graig) £3. Cyfrol o ysgrifau teyrnged gan nifer o awduron i Jennie Eirian, cyn-olygydd Y Faner.

**Hon** gan Eirwen Gwynn
(Y Lolfa), £2.45. Nofel am ŵr pwysig a gafodd yrfa lwyddiannus yn y gwasanaeth sifil yn Llundain, ond â thipyn o drafferthion yn ei fywyd preifat.

**Perfedd Hen Nain Llewelyn** gan Hafina Clwyd.
(Gwasg Gwynedd) £2.50. Y pedwerydd casgliad o ysgrifau gan Hafina Clwyd.

**Briwsion Bro** gan John Hughes.
(Gwasg Gee), £3. Casgliad o ysgrifau yn portreadu bywyd a chymeriadau bro enedigol yr awdur yn LLangernyw.

**Wil Sam** – Gwenno Hywyn (Gol)
(Gwasg Gwynedd), £3. Atgofion W.S. Jones y dramodydd. Y bumed gyfrol yng Nghyfres y Cewri. Er gwybodaeth, y pedair cyfrol gyntaf yw Dafydd Iwan, W.H. Roberts, Alun Williams, Gwynfor Evans.

**Cusanau a Gwin** gan Meinir Ifans.
(Cyhoeddiadau Mei) £1. Nofer serch arall yng Nghyfres y Fodrwy.

**Caneuon y Creaduriaid** gan Falyri Jenkins.
(Y Lolfa) £1.95. Ugain o ganeuon i blant am greaduriaid, mewn sol-ffa a hen nodiant.

**Yng Ngwyll Nihon** gan Rhian M. Phillips.
(Gwasg Gee) £3. Argraffiadau personol yr awdur o Japan a'i phobl. Ysgrifennwyd y casgliad ysgrifau hwn o ganlyniad i ymweld â'r wlad.

**Pwy Oedd Pwy 2** gan D Hywel E Roberts.
(Cyhoeddiadau Modern Cymreig) £1.75. Yr ail mewn cyfres o fywgraffiadau blynyddol o'r un teitl.

**Superted: llyfr mawr 1986 (World International Publishing Ltd) £3.25. Blwyddlyfr Superted yn llawn darluniau lliw a storïau i blant.**

**Y Llipryn Llwyd** gan Angharad Tomos
(Y Lolfa) 95c. Stori ddoniol i'r plant lleiaf yng Nghyfres Rwdlan, gyda darluniau lliwgar a phrint bras.

## CHWE BLYNEDD – HEB GOLLI DIWRNOD



*Gwennan Wyn Jones yn derbyn tystysgrif arbennig gan Mr Leslie Jones, Pennaeth Ysgol Waunfawr am fynychu'r ysgol yn ddi-fwlch am y chwe blynedd ddiwethaf.*

## FATHER BARSTOW



*Dyma lun diddorol o Father Barstow yr ysgolhaig a drigai yn Rhes Gwyrfai. Roedd ei dŷ yn llawn llyfrau. Cariai ei lyfrau o'r llyfrgell yn y drol fach ryfedd 'ma. Ar y dde mae Harri Wynn a'i ewythr John E. Jones, Weirglodd Dywyll.*

## CARIO GWAIR YNG NGHAE GLAS



*Llun arall o'r gorffennol. Ar y llwyth mae Aled Williams a'i frawd John Danwyn, Maesteg, Goronwy Jones ac Albert Maxwell. Harri Wyn a'i frawd Willie Gray sy'n sefyll.*

**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?**
**MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

**'INSULAFLUE'**

**Yr Arbenigwr ar leinio simneiau**

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

# TAN-Y-COED

**Gohebydd: Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)**

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau da:
i Terisa Gardiner, Becws Bryngwyn a'i brawd Christopher Gardiner ar eu llwyddiant yn eu harholiadau terfynol yn Ysgol Brynrefail.
i Vaughan Hughes, Rallt Deg ar ei lwyddiant yn arholiad Lefel O yn Ysgol Brynrefail.
i Margaret Roberts, Tainewyddion ar ei llwyddiant hi yn ei harholiadau diwedd tymor yng Ngholeg Caerdydd.
ac i Richard Roberts Prysgol yntau yn llwyddiannus yn ei arholiadau terfynol yng Ngholeg Amaethyddol Glynllifon.

Bydd Terisa yn cychwyn ar gwrs o hyfforddiant i ymbaratoi i fod yn nyrs gan ddechrau yn Chwefror. Aros yn yr ysgol i eistedd Lefel A fydd Vaughan. Margaret yn mynd yn ôl i Goleg Caerdydd am flwyddyn arall ar Fedi 25ain. A Richard yn cychwyn ar gwrs tair blynedd yng Ngholeg Amaethyddol Aberystwyth ar Fedi 27ain.

Pob llwyddiant i'r bobl ieuainc hyn i'r dyfodol.

YSGOL HAF YR YSGOL – Cafodd Bethan Parry, Ael-y-Bryn gyfle i fynd i Ysgol Haf yr Ysgol Sul yng Ngholeg Diwinyddol Unedig Aberystwyth. Treuliodd wythnos fendithiol hapus yno yng nghwmni pobl ieuainc canol oed a hynafgwyr, o wahanol Ysgolion Sul y Cyfundeb Presbyteraidd.

CROESO ADRE o'r ysbyty ar ôl triniaeth lawfeddygol i Mr William Thomas, Bronant a Llion Pritchard, Cynfaes, Bryn Moelyn. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am adferiad buan iddynt.

CROESO – Mae Mr a Mrs Gareth Lloyd Jones wedi symud i'w cartref newydd – Gilfach. Croeso iddynt i'n plith a phob bendith iddynt yn eu cartref newydd.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Kathleen Jones a'i chwaer Mrs Mair Williams, 2 Pant-y-coed yn eu profedigaeth o golli modryb oedrannus ym Mhenygroes.

CYFARFOD PLANT – Bnawn Sul, Medi 15, yng nghapel Tan-y-Coed cafwyd cyfarfod arbennig i'r plant o dan ofal y gweinidog, y Parch John Morris.

YR YSGOL SUL – Daeth cynulliad da ynghyd o blant, eu teuluoedd a charedigion yr Ysgol Sul. Wedi pregethu i'r plant, gwobrwywyd y plant am eu llwyddiant yn arholiadau llafar, y Gymanfa a'r Sirol, gan y Parch John Morris, yn cael ei gynorthwyo gan Bethan Parry. Y cyfeilydd oedd Miss Enid Roberts.

CYDYMDEIMLAD – Mae'n cydymdeimlad fel ardal â Mrs lola Butler, Haddef a'i merch a'i mab yng nghyfraith, Fernando Perez, yn eu pryder am deulu Fernando Perez yn Mexico – heb dderbyn unrhyw wybodaeth y maent hyd yn hyn ond yn dal i ddisgwyl. Boed y newydd yn un da a phawb o'r teulu yn ddiogel.

# NANT PERIS

**Gohebydd: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon (870733)**

CYDYMDEIMLWN â Mr a Mrs Davies a'r teulu, 1 Tanybryn yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith yn frawychus o sydyn yng Nghaernarfon.

GWIBDAITH – Cafodd y plant wibdaith i Rhyl ddechrau'r mis wedi ei drefnu gan bwyllgor y Carnifal. Mwynhawyd y diwrnod yn fawr a diolchir i'r rhai fu'n gyfrifol am y trefniant.

Bu rhai o aelodau Rehoboth ar daith hanner diwrnod i Gaergybi, ddydd Sadwrn 14eg, wedi ei drefnu i'r ofalaeth gan y Parch Trefor Lewis a Mrs Lewis. Bu gwasanaeth byr yn Eglwys St Cybi a chafwyd te blasus iawn ar Ynys Lawd. Diolchir i Mr a Mrs Lewis am ddiwrnod hapus iawn.

GWELLA – Dymunir gwellhad buan i Mrs Ann Plemming, Dolwen ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH i Miss Sandra Lynne Plemming, Dolwen, am gasglu'r swm o £7.00 tuag at y Gronfa er lles y Morwyr.

### Ymweliad Diweddar â Dinorwig a'r Chwarel

**Twll Chwarel fawr a'r ddau'n Rallt Ddu**
**Lanwyd yn ôl fel yn yr oes a fu,**
**Y droellog ffordd unionwyd a'r ceir a hyrddia'n hyf,**
**Siop Catrin mwy nis ceir, na chwt y crydd.**
**Yr afon wen a lifai dros y ffordd ar garlam**
**Ddofwyd, bibellwyd yn drefnus am Lyn Padarn.**
**Sied yr Injian, 'rhen dai a'r cytiau**
**Ddymchwelwyd, faluriwyd a'i daenu ar y llethrau.**
**Gwellt a heuwyd, coed a blannwyd a'u gwrteithio,**
**Amser ddengys a wnânt wreiddio.**
**Yn Blue Peris ceir cymdeithas newydd o wahanol iaith**
**A choed a pherthi guddia lawer craith.**
**O Ffiar Injian, edrych lawr neu fyny beth a weli?**
**Dy drefnus bonciau, dy gabannau a'th elltydd serth,**
**Y siediau, cloriannau a'th swyddfeydd di-serch,**
**Y Pwerdy, yr efail a'r hen gorn mawr**
**A ddamniwyd y bore a'i ganmol yr hwyr**
**Yn fud a byddar mewn tawelwch llwyr.**
**Sbarion hen haearn a choed a baw**
**Rwbel yn bentyrrau ar bob llaw,**
**Yr hen fargeinwyr ni ddont i'th weld ddim mwy**
**Ymwelwyr tai haf a welir am ryw awr neu ddwy.**
**Clywaf gloc Gilfach DDu yn taro tri**
**Lle bu tair mil does yma neb ond fi.**


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

Beth am ddod i gystadlu i **Eisteddfod Dyffryn Ogwen?** Manylion: Emlyn Jones, Y.H., Bethesda 600846 Neu beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, nos Wener, Tachwedd 8 am 6.30 a dydd Sadwrn, Tachwedd 9, 12.30 a 6. Lluniaeth ysgafn yn yr Ysgol bnawn Sadwrn.

MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**


# DINORWIG

**GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)**

PEN-BLWYDD HAPUS – Pob dymuniad da i Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 83 mlwydd oed yn ystod y mis.

AILDDECHRAU – Dymunir yn dda i Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir, a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, ar gychwyn ar dymor arall, y naill yn y Coleg Normal, a'r llall yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

WEA – Dechreuodd pum darlith o dan nawdd yr uchod yn y Ganolfan, nos Iau, Medi 19. Maes astudiaeth yw 'Grym Geiriau' a'r darlithydd yw Mr Ifor Baines, Penygroes, a'r Ysgrifenyddes yw Miss Ellen W. Jones, Ty'n Fawnog. Croeso cynnes i bawb i ymuno.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir ar fod yn daid a nain unwaith yn rhagor. Ganwyd merch fach bob un i Margaret a Gwyneth.

CYFARFOD CYMUNDEB – Nos Fawrth, Medi 17 yn y Ganolfan, bu Mr Dafydd Wigley, A.S. yn annerch cyfarfod i'r Gymundeb ar wahanol faterion. Cafwyd trafodaeth bellach gan y gynulleidfa. Llywyddwyd gan Mr Gwyn Parri B.A., Cynefin, Deiniolen.

COFION at Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage, a Mrs Laura Roberts, Bron Gynfi, Dinorwig, sy'n dal yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir gwellhad buan i chi eich dwy.

Ein cofion a'n dymuniadau da i'r ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi. Gwellhad buan i chwi.

# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.**

POBOL Y CWM – Cyfarfu aelodau'r clwb ddydd Iau diwethaf i gychwyn tymor y gaeaf. Gwnaed trefniadau gogyfer â chyfarfodydd sydd i ddilyn, ac etholwyd y swyddogion presennol i weithredu am dymor ychwanegol. Rhoddodd y llywydd amlinelliad o ddarlith gan Mr Hywel Teifi Edwards yn y Ganolfan, Waunfawr nos Fercher Medi 18. Rhoddwyd y te gan Mrs Rowlands, Bodafon, a'r raffl gan Mrs R.H. Parry.

DIOLCH – Dymuna Hilda a Les, Morannedd, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas arian.

HARWOLAETH – Yn dawel yn ysbyty Eryri, Caernarfon ar Awst 20fed, bu farw Mr Ifor Roberts, 10 Dôl Afon yn 77 oed. Brodor o Lanberis oedd Mr Roberts ac wedi ymgartrefu yn y Cwm ers 47 blynedd. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, ac yn dilyn yn y fynwent. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, y Parch Aled Jones Williams.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdimlad dwysaf â Mrs Margaret Williams, Nant Forgan, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Catherine Jones, yn ysbyty Bryn Seiont. Ymgartrefodd Mrs Jones am ysbaid yng nghartref ei merch yn Nant Forgan a diddorol iawn fyddai gwrando ar Mrs Jones yn adrodd hen storiau a hanesion am Llanberis a'r hen gymeriadau.

CLWB Y MAMAU A MERCHED IFANC – Sefydlwyd Clwb newydd yn y pentref y mis diwethaf a bydd yr aelodau yn cyfarfod ar nos Fercher gyntaf y mis. Tâl aelodaeth am flwyddyn fydd £1. Croeso cynnes i bawb a diddordeb.

wllongyfarchiadau i Gwyn Morris, Merddyn, Ceunant (Glanbogelyn gynt) ar gael ei dderbyn ar gwrs fferyllydd yng Ngholeg Caerlŷr.

PÊL DROED – Mae tymor pêl-droed 1985-86 wedi dechrau i dîm ieuenctid Cwm. Mae'r tîm wedi chwarae tair gêm, ennill dwy ac un gyfartal.
Cwm 4 – Bontnewydd 1
Waunfawr 4 – Cwm 8
Cwm 3 – Llanberis 3

Dechrau da iawn i'r tîm. Dymunwn bob llwyddiant iddynt drwy'r tymor.

DIOLCH – Dymuna Mrs Annie Hughes, Bryn ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Da yw deall fod Mrs Hughes wedi gwella erbyn hyn.

ANFONWN ein cofion at Mrs Williams, Stryd Newydd, sydd ar hyn o bryd yng nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis, a heb fod yn dda yn ddiweddar, gan ei llongyfarch ar gyrraedd ei phenblwydd yn 93 ar Fedi 8.

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Hydref 11. Cynhelir Noson Lawen gan Hogia'r Ddwylan yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd y noson fydd Charles Williams, ac fe gymerir rhan gan artistiaid eraill. Elw i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Pris £1.



*Ysgol Gynradd Cwm-y-glo 1956-57. Trwy law Mrs Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo.*

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## "CADW-MI-GEI"

**Mae'r hen air yn berffaith wir! Ac un o'r rhai gorau am gadw hanesion o bapurau newyddion a llyfrau ydyw Mrs Ceridwen Williams, Gwelfryn, Llanrug. Y mae Mrs Williams wedi rhannu ei 'thrysorau' mewn aml i gyfarfod a chymdeithas. Ganddi hi y cefais yr hanes canlynol. Diolch yn fawr iddi hefyd. Tad Mrs Williams, sef R.C. Parry, gyfansoddodd y penillion am Fachwen a hithau wedi eu cadw'n ofalus.**

Rhoddodd hefyd yn fy llaw ddwy ddalen o'r 'Cymro' dyddiedig Medi 15ed 1955. Sgrifennwyd yr hanes gan y diweddar Idris Roberts. Rol Williams, Waunfawr awgrymodd yr hanes. Ted Brown oedd yn gyfrifol am dynnu'r lluniau.

Yn Y Cymro cawn hanes ardal Fachwen. Mae'n cychwyn o Bont Penllyn i fyny drwy'r coed ac uwchben Llyn Padarn. Dyma ran o'r hanes:

"Pa well golygfa allai ymwelydd ei ddymuno ar ôl edrych dros lyfnder Padarn a Pheris ar y bwlch hir sydd rhwng yr Wyddfa a'r Glyder Fawr?"

Ardal o dyddynnod oedd yr adeg honno, un capel hardd, dwy siop a phost. Yr oedd y gymdogaeth yn glos iawn a'r gymdeithas yn debyg i un teulu, yn helpu ei gilydd ym mhob modd posibl.

Ddechrau'r ganrif hon yr oedd cryn drigain o blant yn y Fachwen. Ar noson y Band of Hope byddai mwy na hanner llond y capel o blant. Ym 1955 dim ond deg o blant oedd yno – saith mewn oed ysgol a thair geneth fach. Gwelwch un o'r tair geneth, sef Gwenfron yn y llun heb gyrraedd ei phump oed.

Erbyn heddiw mae'r capel wedi cau ond erys llawer o atgofion melys am y dyddiau gynt. Siomedigaeth fawr i Dr Arthur Jones, Llangefni a pherthynas iddo o Awstralia oedd methu cael mynd i mewn i weld yr hen gapel a fu mor annwyl i drigolion Fachwen. Deallaf fod y sêt fawr a'r pulpud yno o hyd.

Sylwch ar lun Mrs R.G. Roberts sef chwaer Mrs Ceridwen Williams yn cael dŵr o'r tap wrth y drws gan nad oedd dŵr i mewn yn y tai. Nid oedd yno drydan chwaith.

Erbyn heddiw dau deulu Cymraeg yn unig sydd yn byw yn y Fachwen.

Y mae Mrs Enid Jones, Talysarn, a fydd yn anfon cyfraniad i Eco'r Wyddfa yn gyson, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs R.G. Roberts. Y mae Gwenfron, yr eneth fach a welir yn y llun, yn ferch i Mr a Mrs Emaniwel Hugh Jones, Belmont Rd., Bangor. Erbyn hyn y mae Gwenfron yn briod ac yn byw yn Wrecsam.







**AFON FACHWEN 1924**

Fachwen sydd ardal fechan dlos
Ar ochor serth y bryn
A elwir gennym Bigil Mawr,
Dirgelwch ydyw hyn.
Pam roed yr enw ar y Bryn
Does neb yn fyw a ŵyr.
Er cof am fugail hen
Fu arno'n treulio'i hwyr.

Traddodiad mwyn a ddywed am
Yr enw tlws Fachwen,
Cans felly clywais gan fy mam,
Am hynny dyna ben.
Dau gyfaill yn yr oesoedd gynt
Tra'n tramwy trwy y lle
A swynwyd gan yr Afon Wen
Mor glaer â gwyn y ne.

'Wel dyma afon' ebai un,
'Fach Wen' atebai'r ffrind.
A'r enw bedydd arni roed
A hithau'n para i fynd.
Prysurai'r afon ar ei thaith
Dros ddannedd creigiau serth,
A'i throchion gwyn yn berlau byw
Yn dawnsio 'ngrym ei nerth.

Bu Plasdy prydferth ar dy lan
Mewn bri am oesau fu,
Ond gormes law rhyw estron draw
Wnaeth frad ei furiau cu.
Dy glwyfo dithau fynnai trais
A'th gloi rhag golau dydd.
Mewn anawsterau cronni nerth
Wnei di a mynd yn rhydd.

Y tadau yn y dyddiau fu
A swynwyd gennyt ti,
Ac iddynt hwy doedd unlle'n bod
Mor hardd, yn sŵn dy li.
Dy enw annwyl roisant hwy
I'w temel ar y bryn
A daeth nodweddion d'yrfa lân
I'r oll yn feddiant gwyn.

Sŵn dy bistylloedd 'afon fach'
Dry'n fiwsig ar fy nghlyw
A gwledd yw gwrando ar dy gân
Yng nghôr creadigaeth Duw.
Chwaraea'r awel yn y coed
Yn foliant bur i'th salm,
Pan fyddaf brudd gan hiraeth dwys
Dy foliant fydd yn falm.

Pa sawl cenhedlaeth welaist ti
Eu geni ger dy lan?
A wyt ti'n cofio rhif y rhai
A gludwyd draw i'r llan?
Fydd hiraeth arnat ambell dro
Am rywun ar dy rawd?
Oes modd it ddeall teimlad un
Heb Fam a Thad na Brawd?

Mi welaf ddydd daw d'yrfa lân,
Dy gân a'th ddawns i ben,
Ond pery'th enw'n fythol wyrdd
Yng ngwynfa saint Fachwen.
Fydd lle i mi ymhlith y llu
Ar lan hen Afon Duw
i dremio'n ôl ar wersi'r daith
A chadw'th enw'n fyw?

R.C. Parry
Tynpwll, Fachwen


# DRAENOG



Ydi, mae'r Cofis yn bobol go od! Glywsoch chi am y cwpwl rheini o Gaernarfon yn ffonio Selwyn Morris i ordro bara, sosej rôls, teisenna' a phob math o betheuach eraill i ddathlu priodas arian. Roedd yno barti mawr i fod. Yn anffodus, ar ôl gorffen yr ordor y sylweddolwyd mai'r Selwyn Morris anghywir oedd y pen arall i'r ffôn. Ond chwarae teg, fe gawsant gynnig arch ganddo!

Mae rhyw si o gwmpas tref Caernarfon i'r ddau drefnu Coffin lfning yn lle parti.


AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

CARPEDI GLÂN!
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

GWASANAETH
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
Linda
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch
CAERNARFON 3674
i drefnu amser



# Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa

Croeso i aelodau'r Gymdeithas ac i bawb arall sy'n ymddiddori yn hanes yr ardal. Ein bwriad o'r mis hwn ymlaen yw cynnal colofn fisol yn yr 'Eco': cyfle i aelodau anfon pwt o hanesyn, gwneud ymholiad ynglŷn â rhyw agwedd ar hanes y fro, cynnig syniadau, ac yn y blaen. Ceisiwn hefyd roi'r newyddion diweddaraf am weithgareddau'r Gymdeithas, ac o bosibl gynnwys adroddiad byr am ddigwyddiadau misol y Gymdeithas er gwybodaeth i'r aelodau a fethodd fod yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Bob mis cynhelir cystadleuaeth i brofi gwybodaeth yr aelodau ac i ennyn diddordeb mewn maes arbennig o ymchwil. Cwestiwn y mis hwn:

Pa gapel o'r fro oedd y cyntaf i drefnu gwibdaith Ysgol Sul ar y rheilffordd?

Anfonwch eich atebion at Drefnydd y Cymdeithas, Dafydd W. Thomas, Bron y Nant, Llanrug.

Os oes gennych chwi gwestiwn i'w ofyn (ac ateb i'w gynnig!) yna anfonwch hwy rhag blaen i'r Trefnydd.



Cafodd Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa gyfarfod llwyddiannus arall fis Medi gyda 130 o bobl yng Nghanolfan y Waunfawr i glywed darlith gan Mr Hywel Teifi Edwards ar y testun 'Eisteddfod Ffair y Byd, Chicago'. Eglurodd Mr Edwards mai ymgais i arddangos ein treftadaeth i'r byd oedd sefydlu a datblygu'r Eisteddfod yn ail hanner y ganrif ddiwethaf – ceisio profi fod cenedl y Cymry gystal os nad gwell na neb. A pha ffordd well o wneud hynny na chynnal steddfod fawreddog ym mhafiliwn anferth 10 erw Ffair y Byd yn Chicago, U.D.A., ym 1893 cyfle gwych i ddangos cyfoeth yr hen fyd Cymreig ym mhinacl gorchest y Byd Newydd.

Yn ogystal ag unawdwyr enwog y cyfnod aeth tri chôr o Gymru drosodd, gan gynnwys Côr y Penrhyn, Bethesda. Côr Treorci a orfu er bod y cythrel canu'n haeru i Gôr y Penrhyn gael cam. Dywedir i bwff o wynt enwog Chicago chwythu ymaith gopi'r cyfeilydd ar adeg dyngedfennol. Wrth i'r côr fflatio, felly y suddodd eu gobeithion hefyd! Yno aeth Hwfa Môn i annerch y miloedd ac ymhlith y gwobrau llenyddol yr oedd "real estate" mewn mannau fel Efrog Newydd. Fel y dywedodd y darlithydd – syniad da i'n heisteddfod fodern ni i atal diboblogi. Bwthyn yng Nghwm-y-glo am englyn a thyddyn yn Ninorwig am dair stori fer!

'Does ond gobeithio y cyhoeddir y ddarlith ddifyr hon ryw ddydd – fe gymerai dudalennau lawer i wneud cyfiawnder â'r stôr o ffeithiau a sylwadau craff a fwynhawyd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mrs Mary Vaughan Jones, Y Waunfawr a diolchwyd gan John Roberts, Ysgrifennydd y Gymdeithas.

**CYFARFOD HYDREF 16**

Fel yr awgrymwyd yn rhifyn diwethaf Eco'r Wyddfa NI FYDD MODD YMWELD ag Archifdy Gwynedd am y tro oherwydd eu bod wrthi'n newid silffoedd. Yn lle hynny trefnwyd cyfarfod YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANRUG am 7.30 p.m. pryd y ceir darlith gan Julia Latham, aelod o staff yr Archifdy Gwynedd.

**Swper Nadolig Rhagfyr 18 Gwesty'r Padarn Lake, Llanberis**

Brysiwch gyda'ch enwau ar gyfer y Swper Nadolig a sgwrs gan John Owen Huws ar draddodiadau'r Ŵyl. Y fwydlen tri chwrs fydd cawl, twrci, sglodion a phys, yna phwdin 'Dolig a'r pris rhesymol fydd £3.95. Cofiwch dim ond y 90 enw cyntaf all ddod ac mae llawer eisoes wedi gofyn am le. Byddir yn hel yr arian ymlaen llaw felly a wnaiff pawb a gyflwynodd eu henwau eisoes a'r rhai sy'n cyflwyno enwau o'r newydd ofalu eu bod yn dod â'r pres angenrheidiol i gyfarfod Hydref neu Dachwedd neu dalu'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd yn uniongyrchol.


**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
**DEINIOLEN**
**Llanberis 870484**

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Mae mwy o ddewis nag erioed gan
**JOHN A ROBERTS GRIFFITH**
**Y STORFA**
**SGWÂR LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2790**

Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Glan Sirdar, Patrymau, Gweill Aero
ARCHEBWCH EICH TEGANAU AT Y NADOLIG, YN CYNNWYS BEICIAU BMX

**Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.**
**Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a 9.30 - 12.30 fore Sul**

Archebwch dros y ffôn – fe'i danfonwn at eich drws


# ATGOFION (parhad)

**Pan oeddwn i tua deg oed gofynnodd Mrs Davies, Glanfa, Waunfawr, arweinydd Adran yr Urdd a wnawn i gystadlu ar adrodd yn Eisteddfod yr Urdd. Dyma'r tro cyntaf a'r olaf i mi dreio yn yr Urdd. Y darn oedd Dafi Blaen y Fron, ac yr oeddwn wedi ennill arno yn Eisteddfod y Capel. Deuthum yn gyntaf yn Eisteddfod y Cylch, ac yna mynd ymlaen i Eisteddfod y Sir ym Mhafiliwn Caernarfon. Ar ôl rhagbrawf yn y bore a chael cinio, roedd pob adran yn ymgynnull yn y cei, gan orymdeithio i'r pafiliwn y tu ôl i'w baner. Gan nad oedd adran yn Llanrug ar y pryd, roedd Beryl Noel Williams (pedd yn ffrind mawr i mi drwy'r blynyddoedd) wedi cael caniatad i ddod hefo fi gydag adran y Waun. Bu'r ddwy ohonom yn ffodus i gyrraedd y llwyfan, daeth Beryl yn ail a minnau yn drydydd. Cawsom dynnu ein lluniau ar ôl y cyfarfod, bu tri ohonom o'r Waun ar y llwyfan – Islwyn Roberts, ar adrodd dan saith, John Harvey ar y piano, a minnau ar adrodd.**

**Bûm i am flynyddoedd yn nosbarth Ysgol Sul Mrs Lewis, a chaem de parti ardderchog ganddi bob Nadolig. Yn fwy pwysig hyd yn oed na'r danteithion blasus a baratoai oedd yr hwyl a'r chwaraeon yn dilyn y bwyd. Roedd y Parch D.J. Lewis yn ei afiaith adeg y partïon hyn, gyda chap papur am ei ben yn chwarae mor eiddgar ag unrhyw blentyn.**

**Tra'n sôn am ysgol y Waun dylwn fod wedi crybwyll fod llofft dros adran y babanod, gyda grisiau yn arwain iddi o'r ochr allan. Nid wyf yn cofio gweld hyn yn unman arall. Ni ddysgid dosbarth yma ond cadw offer garddio. Roedd y grisiau yn arwain o fuarth y genethod. Roedd rheiliau haearn ar un ochr i'r grisiau, a llechen las lydan ar eu gwaelod. Hwyl fawr gennym ni'r genethod oedd sleidio i lawr y lechen, a llawer fel finnau mae'n siŵr heb fod yn or-ofalus o'n dillad. Llawer gwaith y cefais i'r drefn gan fy mam am fod ganddi waith trwsio bron bob nos.**

**Wedi cyrraedd Safon Tri roeddwn i wedi tyfu'n eneth fawr – yn fy meddwl fy hun beth bynnag. Roedd dau le pwysig i ni'r plant yn ymyl yr ysgol, ac mor braf oedd cael caniatâd fy rhieni i fynd yno. Y lle cyntaf oedd siop Miss Owen yn Rhesdai Glynafon, nid oedd yn rhaid croesi'r ffordd fawr i fynd yno. Os cofiaf yn iawn roedd hi'n chwaer i Mrs Harvey. Yma roedd pob math o felysion lliwgar, "Da-da" i ni'r plant, gyda thaffi, a hefyd bob math o geriach ar ben pric. Roedd y ddimai fach ddistadl yn gallu prynu rhai pethau, ond os oedd gen i geiniog, roeddwn i'n reit gyfoethog. Rhyfedd cymaint o gyfeillion oedd gen i ar ddiwrnod gwario!**

**Yr ail le yr hoffwn i fynd iddo oedd Llys Meredydd, cartref Mrs K. Hughes. Beth oedd y rheswm am boblogrwydd y fan hyn? Wel siop chips! Dyma'r siop chips gyntaf i gael ei hagor yn y Waun hyd y cofiaf. Roedd hon yn agored ar amser cinio un diwrnod o'r wythnos a thyrfa o blant yno a'u ceiniogau poethion yn aros eu tro i dderbyn y chips. Roedd y siop hon yn agored gyda'r nos hefyd, ond o achos pellter ffordd ni chawn i fwynhau'r wledd yr adeg honno o'r dydd.**

**Yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel roedd arian gweithiwr cyffredin yn ddigon prin. Ers pan wyf yn cofio roeddwn i eisiau dysgu canu'r piano yn fwy na dim yn y byd. Gweithio yn chwarel Dinorwig oedd fy nhad, ac o ganlyniad yn methu prynu piano. Roedd J.H. Jones, Bodiwan yn dysgu llaweroedd o blant i ganu'r piano. Gweithiai ef mewn swyddfa yng Nghaernarfon, ac yn gorffen yn gynnar ar ddydd Iau. Byddai rhai yn mynd o'r ysgol yn gynnar ar y diwrnod yma i ddal y bws i fynd am wersi, a minnau yn eiddugus iawn ohonynt. Erbyn i mi gyrraedd tair ar ddeg oed poenwn fy rheini yn ddi-daw ynghylch cael piano, nes dyma fy nhad o'r diwedd, er mwyn rhoi taw ar y swnian mae'n diwrn, yn dweud y cawn i biano ond i mi hel fy mhres i brynu un. Roedd hon yn dasg anodd gan fod ceiniogau yn ddigon prin, ac ni wariwn ddim o arian y piano hyd yn oes os awn i'r dref.**

**Ymhen tua blwyddyn ar ôl hyn symudais i Bontrhythallt at fy modryb, a phob dydd Gwener cerddwn i'r Coparet i Lanrug i wneud neges drosti. Ar y ffordd rhaid oedd pasio Tai Rhosrug, ac yn rhif wyth roedd piano hardd. Ni allwn yn fy myw basio heb sefyll i edrych arni. Mewn blwyddyn arall cefais innau biano ail-law, ac mor falch ohoni yr oeddwn. Fi oedd piau hi "go-iawn" gan i mi dalu amdani bob dimai fy hunan. Cefais wersi gan Miss Clarice Williams yn Llanberis ar ôl i mi ddechrau gweithio. Cefais lawer o fwynhad o'r piano, a chael y fraint a'r pleser o gymryd fy nhro yr offeryn yng Nghapel Pontrhythallt am flynyddoedd.**

**Beth am y piano honno a edmygwn yn rhif wyth Rhosrug? Fi yw ei pherchen heddiw gan i mi briodi â Cledwyn (diweddar erbyn hyn). Cofia llawer o'r Waun amdano yn gweithio gyda T.A. Thomas yn Nhŷ Newydd, mae'n siŵr. Mae'r hen biano yn dal i ganu, er wedi colli ei harddwch cyntefig, a rhydd oriau o bleser i mi ac Aled fy machgen ieuengaf.**

**Elizabeth Edwards**

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

PERSONOL – Dydd Iau, Awst 8, urddwyd Dafydd Islwyn, mab ieuengaf y diweddar Edward Hughes a Mrs C.E. Hughes, 17 Bro Rhos, yn aelod er anrhydedd o Orsedd y Beirdd. Brodor o Roscefnhir, Môn ydi o, ac ar hyn o bryd mae'n athro yn Ysgol Gymraeg Caerffili, ac yn byw ym Margoed, Canol Morgannwg. Ef yw ysgrifennydd Y Gymdeithas Gerdd Dafod, Barddas ar lafar gwlad. Dwy flynedd yn ôl cyhoeddodd Hydref y Rhos – portread o'i ieuenctid yn Y Rhos. Mae'n weithiwr brwd dros 'y pethe' yng Nghwm Rhymni. Mae'n briod â Suzanne, merch o Langrannog, ac mae ganddynt un ferch, Hunydd Angharad, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Ddwyieithog Cwm Rhymni, Bargoed.

Dydd Gwener, 9 Awst, derbyniodd ei frawd hynaf, Hugh Einion, driniaeth lawfeddygol i'w wddf yn Ysbyty Green Bank, Plymouth – y pumed tro i'r driniaeth gymhleth hon gael ei gwneud ym Mhrydain. Balch ydym o ddeall ei fod ef yn gwella ar ei hôl.

ENILLWR – Llongyfarchiadau i Dafydd J. Williams, Yr Hafod, Parc y Wern, am ennill Tlws Barddas yn Y Genedlaethol yn y Rhyl, 9 Awst eleni, dan feirniadaeth y Prifardd T. Llew Jones, Llangrannog. Cyfansoddodd dri chylch o chwe englyn ar y thema 'Cymeriadau'.

Roedd ef yn agos iawn iawn hefyd i fod yr enillydd cyntaf o Dlws W.D. Williams am englyn gorau'r flwyddyn. Gosodwyd ei englyn Sigl-Ei-Gwt – englyn buddugol Barddas Tachwedd y llynedd yn uchel iawn yn y gystadleuaeth gan y tri beirniad Dic Jones, Alan Llwyd a Gerallt Lloyd Owen.

Hwsmon cyson ei ffonnod – ar y gyr
A'i gorff yn llawn cryndod;
Diwyd iawn ei fynd a dod
Yw'r bychan yrrwr buchod.

DIOLCH – Dymuna Peter Sharpe, Ael y Bryn, ddiolch am y cardiau, yr arian a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar. Mae Peter wedi dechrau yn Ysgol Feddygol Sant Bartholomews, Llundain.

DYMUNA Ann a Geraint, 2 Stryd William, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

DYMUNA John ac Elizabeth Evans, Blaen-Parc, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd mawr a dderbyniodd Geraint ac Ann ar achlysur eu priodas ar Fedi 7fed. Diolch i bawb a fu'n help i wneud y diwrnod yn un mor arbennig.

DIOLCH – Daeth Tom Owen, Berwyn, adref o'r ysbyty erbyn hyn ac fe hoffai ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei waeledd, ac yn enwedig i staff ward Glyder, Ysbyty Gwynedd. Dymunir iddo adferiad llwyr a buan.

LLONGYFARCHIADAU i Tom a Nan Owen, Berwyn, Saron, ar ddathlu eu Priodas Arian, Medi 24ain. Priodwyd hwy yn Eglwys y Cysegr yn 1960 gan y Parch D. Wynne Edwards, Tregaron, cyn-weinidog yr Eglwys.

DIOLCH – Dymuna Nan Owen, Berwyn, ynghyd â'r teulu i gyd, ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdogion ym Methel, Seion a Brynaerau am bob arwydd o gydymdeimlad o golli mam annwyl, Mrs Lydia Hughes, Brynaerau, Corra Linn.

Diolch arbennig i'r Parch W.R. Williams am ei garedigrwydd, ac i Mr Gwilym Roberts am y trefniadau trefnus a pharchus. Diolch hefyd i staff Ward Aran, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal ohoni.

YR YSGOL FEITHRIN – Derbyniodd yr ysgol feithrin amryw o deganau yn rhodd yn ddiweddar. Dymuna'r plant ddiolch yn fawr iawn amdanynt ac yn arbennig i Barry Jones, Stad Eryri am drwsio'r sleid. Os oes gan rhywun deganau mawr mewn cyflwr gweddol ac yn fodlon eu rhoi i'r ysgol feithrin, byddai'r plant yn ddiolchgar iawn.

CYNHELIR BINGO yn y Neuadd, nos Wener, Medi 27, am 7.30. Y galwr fydd Mr W.G. Roberts, Llanberis.

Nos Wener, Tachwedd 1af, bwriadwn gynnal Noson Sbri Calan Gaeaf i blant y pentref yn y Neuadd. Bydd gwobrau i'r gwisgoedd gwrach neu fwgan gorau; cystadleuaeth lantern rwdan; ychydig o gemau a gobeithiwn gael consurwr yno i ddiddanu'r plant. Felly cofiwch am y noson, os gwelwch yn dda.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher Medi 11 cafwyd cychwyn ardderchog i'r tymor yng nghwmni Clychau'r Grug. Croesawyd aelodau hen a newydd. Llongyfarchwyd Mrs Nan Rowlands a Mrs Joan Ginsberg ar enedigaeth eu babanod a chydymdeimlwyd â Mrs Davies, Y Ddôl, Mrs E. Jones, Awel y Grug, Mrs Nan Owen, Berwyn a Mrs Rita Williams, Tan y Cae. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Mrs Alys Jones ar ei llwyddiant diweddar pryd y teledwyd cyfres yn seiliedig ar ei llyfr ar Glwb S4C.

Darparwyd lluniaeth gan y pwyllgor, enillwyd y raffl gan Mrs Meinir Williams a diolchwyd i Glychau'r Grug gan Mrs Rita Williams.

Ddydd Sadwrn, Hydref 19, cynhelir Ffair Hydref gyda'r elw yn mynd at yr anabl yn Feed my Lambs, Caernarfon. Bydd Mrs Mair Price, Mrs A.E. Williams, Mrs Eirlys Williams a Mrs Glenys Griffiths ar stondin gacennau.

Mr Maldwyn Thomas fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf ar Hydref 9fed. Bydd yn sôn am bapurau newydd Caernarfon.

PRIODI – Bu tair priodas yn yr ardal yn ystod y mis diwethaf. Awst 24, priodwyd Haydn Pugh 'Williams, 79 Y Wern, Y Felinheli a Jacqueline Bailey Anthorn. Ddydd Sadwrn, Medi 7, priodwyd Geraint W. Parry, Arwel, Stryd Bangor, Y Felinheli ac Ann Evans, Blaen Parc. Ddydd Sadwrn, Medi 21, priodwyd Tony Davies, Llangefni, a Helen Jones, Glan Gors.

Dymunwn y gorau i'r tri phâr yn eu bywyd newydd.



*Geraint W. Parry, Arwel, Stryd Bangor, Y Felinheli, ac Ann Evans, Blaen Parc, Bethel, ar ôl eu priodas ar Fedi 7fed.*



*Haydn Pugh Williams, 79 Y Wern, Y Felinheli a Jacqueline Bailey Anthorn, Bethel ar ôl eu priodas ar Awst 24ain.*

CYDYMDEIMLWN hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Lily Elizabeth Burnaud, 2 Bro Rhos a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaeledd hir. Ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd.

YR URDD – Nos Lun, Medi 23 cynhaliwyd pwyllgor yr Urdd i drefnu rhaglen y tymor. Penderfynwyd agor y tymor gyda chyfle i ymaelodi yn y Neuadd nos Iau Hydref 3ydd am 6 o'r gloch. £1 yw'r Tâl Aelodaeth am eleni. Tefnwyd rhaglen ddifyr a gobeithio y bydd yr aelodau i gyd yn cael mwynhad. Gall unrhyw blentyn oedd wedi cyrraedd ei 6 oed ar ddiwedd Awst eleni ymlaelodi.

Gan fod Anti Fanny yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn ysgrifenyddes ar ôl 8 mlynedd yn y swydd, etholwyd Mrs Rita Williams i gymeryd ei lle. Diolchwyd o galon i Anti Fanny am ei gwaith diflino dros yr Urdd a dymunwyd y gorau iddi i'r dyfodol.

YR EISTEDDFOD – Cofiwch fod yr holl gyfansoddiadau llenyddol a barddonol i fod yn llaw yr ysgrifennydd, Mrs Williams, Gwylfa erbyn Hydref 11eg, a'r gwaith yn y gystadleuaeth ffotograffi erbyn Hydref 21.

Nos Iau, Hydref 31 am 5 o'r gloch dechreuir beirniadu y gwaith llaw, y coginio a'r celf yn y Neuadd. Yr holl gynnyrch i fod yn y Neuadd erbyn 4.30.

MARWOLAETH – Yn dawel fore Mercher, Medi 11eg, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Lydia Anne Hughes, 'Brynaerau', Corra Linn yn 76 mlwydd oed. Daeth Mrs Hughes i fyw i Seion 30 mlynedd yn ôl. Collodd ei phriod, Griff, yn 1972 a daeth i fyw i Corra Linn yn 1975.

Nid oedd wedi bod yn dda ers rhai blynyddoedd ond serch hŷnny, roedd ei diddordeb yng ngweithgareddau'r pentref yn fawr.

Bu'r angladd ddydd Llun, Medi 16, cyhoeddus yn y Cysegr, ac fe roddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Brynaerau, Pontllyfni, bro ei genedigaeth.

Y teulu agosaf oedd: Tom a Nan Owen, Berwyn (merch a mab yng nghyfraith); Harri ac Eunice, Y Rhyl; Gwyn a Margaret, Bae Colwyn (meibion a gwragedd); Carys, Iona, Arwel, Mark a Nia (wyrion a wyresau) – ynghyd â llawer o ffrindiau a chymdogion.

Gwasanaethwyd gan y Parch W.R. Williams, Cysegr a'r Parch D. Hughes Jones, Y Rhyl.


Rhoddwyd blodau gan y teulu yn unig a'r cyfraniadau tuag at apêl y Scanner yn Ysbyty Gwynedd.

Yr Ymgymerwr oedd Mr Gwilym Roberts, Y Felinheli.

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Hydref 11. Cynhelir Noson Lawen gan Hogia'r Ddwylan yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. Arweinydd y noson fydd Charles Williams, ac fe gymerir rhan gan artistiaid eraill. Elw i Gronfa Theatr Fach Gorffwysfa. Pris £1.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**

*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)

**AR AGOR**
9-7pm
9-5pm Sadwrn
**AR GAU**
**SUL, MERCHER.**



**GWLÂU SENGL O £39 I FYNY**
**GWLÂU DWBL O £75 I FYNY**
**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

# CÂS CLUSTOG CLIFFORD

## Un arall o straeon Goronwy Owen

Doedd hi ddim yn deg rhoi'r bai i gyd ar Clifford. Yn y pen draw roedden ni i gyd ar fai, ond credaf fod bai ar ei fam hefyd. Efallai mai dyna'r unig gas clustog glân oedd ganddi'n digwydd bod, neu hwyrach ei bod yn methu fforddio prynu rhai newydd, ond Clifford gafodd y bai. Mynd â toes i Fecws John Lloyd oedden ni, un amser cinio mwll, a rhyw niwl o law mân yn gwthio i mewn i bob twll a chornel. Roedd 'na bedwar neu bump ohonom, bob un â'i does dros ei 'sgwyddau mewn bag clustog. Yng nghanol y siarad a'r sgwrsio yn Stryd Warden, sylwodd un fod rhwyg fach ym mag Clifford, rhwyg oedd yn agor yn lletach a lletach hefo bob cam herclyd, a mwy a mwy o'r toes yn dod i'r golwg.

Dyma aros i archwilio'r sefyllfa, ond doedd 'na ddim alla ni wneud, er i un geisio cadw'i law dros y twll.

Erbyn cyrraedd pen yr entri, roedd hi'n argyfwng, oherwydd roedd y rhwyg mor hir, roedd y toes yn gwthio allan fel swigan lard. Aros eto i ail-gysidro'r broblem, ac yn ddoeth iawn, cymerodd Clifford ei lwyth yn ei ddwy fraich, a'i gario fel babi bach mewn siôl, yn erbyn ei fol.

Efallai ein bod yn rhy hunan-feddiannol, neu yn siarad gormod, ond rhyw ugain llath o ddrws y becws, fe faglodd Clifford dros 'i draed ei hun. I lawr â fo ar ei hyd, a'r bag o does odditano.

Mewn eiliad, roedd o'n ôl ar ei draed, ond roedd y gwymp wedi bod yn ormod i'r glustog. Roedd y toes wedi'i wasgu allan fel tiwb llnau dannedd, ac wedi'i fflatio ar y llechi gwlyb fel rhyw grempog hir. Safem o amgylch yn edrych yn ddifrifol ar y trychineb. Roedd siap botwm ar ganol y toes, ar ôl esgid hoelion mawr ar yr ochor. Torrodd Clifford i grïo'n hidl. 'Be na i? Be na i? Gai row gan mam am dorri'r cas clustog. Be na i?'

Tra oedd dau ohonom y trio stwffio'r toes yn ôl i'r amlen doredig, roedd y lleill yn dal bagiau'i gilydd, yn cysuro'r plentyn digalon ac ar yr un pryd, yn ceisio llnau'r toes oedd wedi glynu yn ei gôt. 'Hidia befo. 'Na'n i ddeud wrth dy fam na alla ti ddim helpu. Sbia, mae o i gyd bron yn ôl yn y bag. Wel, bron i gyd.'

'Ond mae o'n fudr. Mae baw a cherrig arno fo.'

Oedd, mi oedd lot o faw a cherrig o'r llawr gwlyb arno fo. Dyma gario'r cwbwl ora' y gallem i fyny'r grisiau i'r becws. Mae'n wir nad oedd Dic Becar yn gallu siarad yn iawn, ond fuo fo ddim eiliad â deall y sefyllfa. Amneidiodd arnom i roi ein bagiau ar y bwrdd. Fuo fo ddim chwinciad yn tylino'r toes, pob un yn ei dro, a'i ddwylaw ystwyth, ei dorri a'i siapio, ac yna yn hollol ddi-feth, taflu'r darnau deubwys i'r tuniau oedd wedi eu hiro ar ganol y llawr. Ar ben bob torth, rhoddodd dali bach metal ac un yn llaw bob un ohonom, er mwyn i ni adnabod ein bara.

Cadwodd does Clifford tan y diwedd. Edrychodd arno am eiliad, ac yna gwasgodd o allan ar haenan o flawd. Hefo cyllell, torrodd y rhannau budr i ffwrdd. Cymysgodd dipyn o flawd a dŵr i wneud i fyny am y gwastraff, ac wedi'i drin taflodd y cyfan i'r tuniau. Gwenodd Clifford wên o ryddhad, ac yn ei ddull ei hun, heliodd Dic ni am yr ysgol.

Wedi pedwar o'r gloch, aethom i nôl y bara, gan roi y talis metal i Dic, a thalu tair ceiniog am eu crasu.

Wedi mynd o olwg y becws, dyma archwilio bara Clifford. Roeddan nhw i gyd yn berffaith, ond ar ochor un dorth roedd 'na ddarn bach o grawan i'w gweld. Gafaelodd Cliff ynddi, ei thynnu allan a bwyta'r darn o fara ddaeth hefo hi. Tu ôl i'r grawan, roedd un arall ac un arall. Yn amlwg, roedd hwn yn ddarn doedd Dic ddim wedi'i ddarganfod. Aethom i gyd ati i'w gynorthwyo, pob un yn gwthio'i fys i mewn, ac yn dod â phinsiad iawn o'r bara ffres allan. Wedi'r cwbwl, cerrig neu beidio, mae bara ffres yn flasus. Erbyn i ni dynnu pob crawan allan, roedd yna dwll cymaint â chloc larwm yn ochor y dorth.

Do, fe gafodd Clifford row, nid am dorri'r cas clustog nag am faeddu'r toes, ond am fwyta hanner torth ar y ffordd adra.

Chwarae têg iddo, 'nath o ddim deud ein bod ni wedi helpu.



# Atgofion am Chwarel Dinorwig

*Yn rhifyn diwethaf yr 'Eco' roedd rhannau o'r erthygl ar y 'Ddau Gyfaill' yn anghywir ac aneglur. Ymddiheurwn am hyn. Dyma'r hanes yn llawn y tro hwn — gyda diolch i Mr Emyr Jones am ei drafferth i sgwennu'r hanes. — Gol.*

Trin a thrafod treialon Chwarel Dinorwig yn Ysbyty Gwynedd. Taro ar R.R. Caeathro, heb ei weld ers amser maith. Cof da iawn gennyf am ei dad – Robert Williams yn fforddolio yn Sinc Wali, ac yn cadw ei gêr yn y cwt yr ochr arall i'r corn.

Un tro, y gosodwr yn rhoddi awdurdod i ni ein dau fynd i Sinc Galad a chodi dau far wyth llath, eu cludo yr holl ffordd i Sinc Wali oherwydd prinder sils. Cofiaf yn dda am R.R. a'i dad yn gweithio yn y bonc Llangristiolus, ac yn y bonc Top Tir. Yn 1947 yr oedd eira mawr a'r tad a'r mab yn y bonc trwy'r diwrnod Nadolig.

Buom yn gweithio yn y chwarel am dros 40 o flynyddoedd, ac am gyfnod maith yn edrych ar ôl llefydd peryg. Roedd un lle yn ddyfn iawn o'r enw Ochr Fawr, tros 100 llath. Yr oeddwn yn gwneud y gwaith ar ddydd Sadwrn oherwydd na doedd yna ddim saethu. Yn ôl cyfraith gwlad yr oedd yn rhaid cael wyth o ddynion i ddal y rhaff i mi. Pan ddaeth diwrnod tâl cefais i dair punt a swllt a chafodd yr wyth oedd yn dal y rhaff dair punt, felly dim ond swllt oeddwn i yn ei gael am raffu y dyfn dychrynllyd.

**Emyr Jones, 17 Hafan Elan, Llanrug.**


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

MERCHED, DYNION, PLANT!
I gael torri a thrin eich gwallt
YN EICH CARTREF
cysylltwch â
**CHERYL WARD**
**Mobile Hairdressing**
**9 Porth Gogledd**
**DEINIOLEN**
Ffôn: Llanberis
**870911**
i drefnu amser

**Y Bistro**
**45 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
*Ffôn: LLANBERIS 871 278*
(Danny a Nerys Roberts)
**Rhwng Ynys Môn a Pharis**
**Does unlle gwell i'w ddewis**
**Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,**
**Na'r Bistro yn Llanberis.**
**Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta**

**D. LL. OWEN**
**1 BRYN AFON TERRACE, LLANRUG**
**FFÔN C'FON 76699**
**Cludo Llwythi Bychan a Chlirio Safleoedd**
**Llwythi 3 Tunnell**
**Hefyd Trin Gerddi a Thorri Gwair**

# YR HEN DITIARS 'MA

**O nefi, biti na fuasai yn nos Wener ond dyna fo nos Lun ydy hi ac mae gen i bedwar diwrnod i fynd a dwsin o drancwileisars i lyncu cyn diwedd yr wythnos. Felly, rhoddaf fy nhraed i fwydo yn yr Epsom Salts unwaith eto tra'n penderfynu sut i goginio'r ŵy arferol. Pan mae sbâr dydd Sadwrn yn ginio dydd Sul does 'na ddim gobaith mul mewn Grand National i gael sbarion ar gyfer dydd Llun hefyd.**

A be' sy'n arbennig am nos Wener medda chi? Yda chi'n meddwl fy mod wedi cael llond bol ar y projinis ac yn falch o gael gwared ohonyn nhw am bethwythnos arall? O na, ddim fel yna mae hi o gwbl. I chi gael deall y sefyllfa o'r dechra y rheswm i ni athrawon ddewis ein gyrfa ydy ein hoffter o blant a phobl ieuanc, a hefyd am fod ganddom y diddordeb a chonsern i ddatblygu galluoedd y projinis.

Ond beth am y nos Wener, medda chi. Wel mi ddyweda'i wrtha chi – y BBC 2, chwech o'r gloch – Tarzan! A 'does yna ddim ond un Tarzan i mi sef Johnny Weissmuller. Dyna chi Darzan, a tydi'r Jên yna ei fêt yn hogan ffodus 'dwch? 'Doedd Johnny Weissmuller ddim chwinciad yn gwneud nyth iddi yn y canghennau. Dyna chi nyth a dyna chi geiliog. Gwneud i mi feddwl am gywydd Dafydd ap Gwilym i'r Deildy.

**Tra fôm allan dan y dail**
**Y cynnes fedw a'n cynnail.**

Yr un syniad oedd gan yntau mae'n siŵr.

Beth bynnag, yn ôl i'r byd presennol a finna yn rhannu fy nos Wenar efo'r twin-tyb a'r hwfar. Fel yna bydd hi acw. Blitz go iawn ar y nyth mewn un noson.

Soniais am hyn efo rhyw gigydd lleol. Byddaf yn mynychu ei siop cyn mynd adref ar nos Wener a dyna chi le clên. Fel y Co-op lleol cewch fwy o gydymdeimlad yn fanno na gyda'r un twrna.

"Traed i fyny heno," mynegodd.

"Dim ffiars o beryg," atebais. "Noson y twin-tyb heno."

"O" medda fo a'i fys yn y minsar, "pwy ydy'r dyn lwcus?" Dest fel bwtsiar – agos i'r cnawd.

Beth bynnag uwch ben y sinc a'r golchi fyddai tra'n cadw fy llygaid ar gampiau Johnny Weissmullar. Fel pob gwraig yn fanno uwch ben y sinc mae fy mrêns i'n gweithio ar eu gora'. Meddwl fydda'i am yr wythnos fydd wedi mynd heibio. Meddwl am y digwyddiadau fydd yn fy ngwneud flwyddyn yn hŷn. Wythnos o gadw trefn a phlannu gwybodaeth yn y projinis. Osgoi llu o jerms, ambell i chwannan a hunllef mwyaf yr athro sef y chewing gum bondi-bethma.

Dechra' cwrs newydd y 'Parentcraft' efo genod fform Ffôr a rhai ohonynt wedi derbyn canllawia' yn barod ac nid ar bapur oedda' nhw chwaith.

Criw fform Ffeif yn gofyn i mi o ddifri be ydy'r pwynt o wneud hyn a be' ydy'r pwynt o wneud peth arall.

"Da ni'n thic. 'Da ni ddim digon da i drio ecsams." Be fedrwch chi neud 'mond gadael i'ch gwallt wynnu dipyn yn rhagor a cheisio egluro bod maes iddynt hwythau flodeuo hefyd tra'r un pryd yn anwybyddu'r ffaith mai polisïau'r wlad yma ydy eu sathru. 'Cadwch nhw o'r ffordd. Cadwch nhw yn ddistaw. Anghofiwch amdany nhw.' 'Does dim rhyfedd bod rhan helaeth ohonynt yn mynd i ddilyn y chwyn er mwyn cael rhyddid.

O ia, peth arall, mi rydw i yn un o'r athrawon rheini sydd heb ystafell dosbarth. Mae yna lawar ohona' ni o gwmpas. Ni ydy llwyth nomadig y proffesiwn, a mi fedrwch adnabod rhan fwyaf ohonom oherwydd cyflwr ein breichiau. Maent yn llaes fel breichiau babŵns. Mi rydw i wedi osgoi cael yr haint i fyny i rŵan oherwydd i mi ddefnyddio fy mrêns a dwyn berfa'r gofalwr.

Ond i be wna'i gwyno 'dwch? Pwy sy'n mynd i gymryd sylw? Mae'r prifathrawon i fyny i fanma mewn adroddiadau, canlyniadau, cyfarwyddiadau ac yn lladd eu hunain yn cyfansoddi llythyrau i rieni ynglŷn â sefyllfa'r gweithredu diwydiannol. Mi wn i am un prifathro druan sydd wedi hyfforddi bawd ei droed i ateb y ffôn.

A beth am yr Offis? 'Run fath ydy hi'n fanno medda nhw. Swyddogion dros eu pennau a'u clustiau mewn gwaith papur, ac yn hyfforddi bodiau eu traed mewn swyddi newydd.

Ac wedi deud hynna i gyd dyma fi ar streic pnawn dydd Iau. Y dymuniad oedd nid i ni fynd i neud yr 'Early Christmas Shopping' ond mynychu rali'r Undeb yn yr ardal. Yn fanno clywsom beth oedd gan yr arbenigwyr i ddweud am gyflwr y Werin a chawsom gadarnhad fod y llywodraeth – pardwn! – (y rhai sydd yn ceisio llywodraethu) yn hoples am neud syms.

Yn fanno dois ar draws rhyw bwt o athro nad oeddwn wedi ei weld ers tro. Roedd digon twt. Gwasgai gôt o siop Barnardos a throwsus rhyw gefnder o Abertawe, hwn oedd wedi marw'n ifanc. Er mwyn gwybodaeth roedd yr Hwntw diweddar yn ditiar hefyd ac wedi lladd ei hun yn ceisio stwffio gwybodaeth lefel O i ben swejian o projini oherwydd roedd rhieni'r pen swejian yn hollol sicr bod gallu yn yr achau. 'Da chi'n gweld roedd mab i gefnder hen nain tad ei fam yn swyddog galluog yn gwasanaethu'r teulu brenhinol. Fo oedd y trefnydd yn swyddfa atal-cenhedlu Cwin Fictoria.

Beth bynnag, i fynd yn ôl at y byw unwaith eto. Ar ei ffordd i gyfweliad oedd yr athro côt Barnardos. Mynd i weld rhywun mewn adran arall i'r llywodraeth sef y 'Confectionery Dept' . . . wyddo chi rheini sydd yn penderfynu pwy sydd i gael tamaid o deisan fawr y syplimentari. Fel Johnny Weissmuller roedd gan yr athro yma nyth ond un wedi gynllunio efo concrit a rhyw fymryn o goed a gwydr yn llenwi'r adwyon. Ychydig o flynyddoedd yn ôl rhoddodd groglath yn llac am ei wddw. Dechreuodd ar y fentar o feddiannu ei gwt ei hun yn lle rhentu un gan y Llywodraeth. Digon yw dweud pan y gwelais i ef . . . roedd ar dagu.

Roedd ganddo ddau gyw yn y nyth a rheini eisiau pob cymorth i ddechrau ffilio. Anfantais yr hen geiliog yma oedd ei fod wedi cadw'r iâr adra i gadw llygaid ar betha.

Ponei oedd o. Poeni rhag ofn i siop Barnardos yn dre gau lawr. A deud oedd o hefyd nad oedd ganddo lawar mwy o berthnasa' yr un maint colar ag ef.

"Ty'd am banad efo fi," medda fi wrtha fo, "a ffonia'r syplimentari bora fory."

"Does gen i ddim ffôn rŵan," medda fo, "mae nhw wedi chwalu'r kiosg oedd wrth drws ffrynt acw."

A dyma fi'n meddwl y buaswn i'n codi galon o dipyn. "Yli," medda fi drachefn, "dos i gadw siop grosar am ychydig o flynyddoedd a wedyn mi fydd gen ti ddigon o bres i brynu siars yn y cwmni sydd yn gwneud y teliffôns."

"Ew ia," medda fo wedyn, a'i lygaid di-liw yn dechra bywiogi. "Wedyn mi wna'i yrru'r cywion i Breifat Scŵl idda nhw gael Gradd mewn Lego. Wedyn fedra nhw fynd i America i gael jobsus gwneud nythod plastic. Mae gen i ffrindia yn America. Mae yn handi ca'l ffrindia yn America medda nhw."

Wrth iddo sôn am nyth dyma fi'n dechra meddwl am Johnny Weissmuller eto. Be' fydda fo'n ddeud d'wch pan fydda bwystfilod y wlad yn mynd yn rhemp a chau gwrando. Be fydda fo'n ddeud pan fydda fo eisiau sylw. O, ia, 'Wmgawa'. Ia, dyna fo 'Wmgawa'. Dyna be fydda fo'n weiddi pan fydda fo eisiau trefn. Dyna be fydda fo'n weiddi pan fydda fo eisiau sylw. 'Wmgawa'. Rydw i'n meddwl y dechreua inna' weiddi hefyd . . . WMGAWA . . ."

Miriam Llywelyn

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL

CROESO:

Croeso i blant y flwyddyn gyntaf i'r ysgol. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu gyrfa ysgol.

LLONGYFARCHIADAU:

Llongyfarchiadau i'r disgyblion hynny oedd yn sefyll arholiadau safon 'O' ac 'A' am wneud cystal. Dymunwn bob lwc i'r rhai sydd newydd ddechrau yn y chweched dosbarth ac i'r rhai sydd wedi mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau mewn colegau a phrifysgolion.

DARLITH:

P'nawn ddydd Mercher, Medi 18, cafwyd darlith yn yr ysgol gan Hywel Teifi Edwards. Daeth disgyblion chweched dosbarth Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Dyffryn Nantlle i wrando yn ogystal â disgyblion yr ysgol hon. Cafwyd darlith ddiddorol a hwyliog dros ben. Diolch yn fawr i Mr Pleming am drefnu.

PÊL-DROED: Mae Paul Grant (Llanrug) wedi cael ei ddewis fel gôl-geidwad i dîm Ysgolion Gwynedd dan 15 oed. Fe fydd Gwynedd yn chwarae dwy gêm yn erbyn Clwyd. Fe ddewisir y goreuon o'r ddwy gêm yma i chwarae i Ogledd Cymru.

**(Felly, pob dymuniad da i Paul. – Gol.)**

# LLYGREDD NIWCLIAR YN Y MÔR CELTAIDD

**Yng Nghaernarfon ar Fedi 9 cynhaliwyd Fforwm ddiddorol, llawn gwybodaeth. Bu pedwar siaradwr wrthi'n trafod amryw agweddau ar y sefyllfa ym Môr Iwerddon, sef y Dr Eirwen Gwynn, Jean Emery (Greenpeace), Jaswan a Dafydd Wigley, A.S. a derbyniwyd cwestiynau o'r llawr.**

Dangosodd Eirwen Gwynn gymaint uwch nag unrhyw wlad arall ydi maint y gwastraff ymbelydrol a arllwysir o Windscale i'r môr, gan beryglu pobl sy'n bwyta pysgod ac yn cerdded y traethau gyda'r distyll. Oni bai bod gan Brydain ryw fath ar hawl dros Fôr Iwerddon, ni chaniateid iddi ollwng chwarter cymaint iddo. Ac yn waeth na dim, wrth gwrs, ydi'r effaith ar blant yn y groth. Pwysleisiodd Jean Emery fod arbenigwyr gwyddonol yn cynghori Greenpeace, er eu bod yn ei chael yn anodd i wasgu'r ffigurau o rai cyrff. Rhybuddiodd y daw mwy o ymbelydredd i'r lan ymhen can mlynedd nag sy'n dod yn awr. Nid yw cancr ond copa'r mynydd iâ, gan fod cymaint o glefydau eraill ynghlwm wrth ymbelydredd. Mae'r afiechydon a ddaeth yn sgîl Windscale eisoes wedi costio'r awdurdod iechyd 13 miliwn o ddoleri. Atgoffodd ni fel y bydd cynifer o gelwyddau'n cael eu dweud gan y bobl sydd â rhywbeth i'w guddio.

Deliodd Jaswan ag ymbelydredd lefel isel sy'n bwnc llawer mwy dadleuol. Nid aeth digon o amser heibio eto i brofi dim y naill ffordd na'r llall. Bydd y Weinyddiaeth Amaeth a Physgodfeydd yn monitro o hyd, ond ni ddaw'r cyhoedd i wybod ond yr hyn y mae'r Llywodraeth yn dymuno iddyn nhw wybod. Nid oes amheuaeth bod yna glystyrau o achosion o gancr, ac mae'r rheini i gyd yn ymyl gorsafoedd niwcliar. Ar y llaw arall y mae clystyrau eraill sydd mewn categori gwahanol. Felly mae cwestiwn ymbelydredd isel yn dal yn ddadleuol. Yr unig ffaith sicr ydi ei fod yn gallu achosi clefydau marwol lle mae pobl dan ei ddylanwad neu mewn cysylltiad cyson ag ef.

Wrth grynhoi, awgrymodd Dafydd Wigley rai pethau y dylid eu gwneud yn ddiymdroi, e.e., dylid gofyn i Goleg Bangor wneud gwaith ymchwil a rhoi ffeithiau swyddogol i'r cyhoedd gan mai nhw biau'r offer angenrheidiol. Dylid hefyd cynnal cynhadledd ryngwladol yng Ngwynedd i drafod y sefyllfa, gyda'r cyfryngau'n bresennol, fel y caiff pawb wybod beth sy'n mynd ymlaen ym Môr Iwerddon, neu yn y Môr Celtaidd, sy'n well enw arno.

Da oedd clywed bod y Cyngor Sir am drafod y mater ym mis Tachwedd, ac arwyddocaol yn y cyswllt yma oedd clywed bod diweithdra yng Nghumbria, lle mae Windscale, mor uchel â 25 y cant, rhag ofn i neb feddwl mai atomfa ydi'r ateb i ddiweithdra, ar wahân i'r perygl.

Cadeirydd y Fforwm oedd Elfed Roberts o Benrhyndeudraeth. Efo hefyd a ddiolchodd i bawb ar ddiwedd y cyfarfod.

R.S. THOMAS
RHIW
ABERDARON

## DYDDIADUR

**DYDDIADUR HYDREF**

**1, Mawrth: Llanberis:** Cangen Plaid Cymru – Noson o sgwrs a holi yng nghwmni Mr Dafydd Wigley am 7.30.
**2, Mercher: Cwm-y-glo:** Clwb y Mamau a Merched Ifanc.
**3, Iau: Bethel:** Noson ymaelodi â'r Urdd, yn y Neuadd am 6.00.
**Waunfawr:** Sefydliad y Merched.
**Bethel:** Pwyllgor y Carnifal yn y Sefydliad Coffa am 7.30.
**4, Gwener: Llanberis:** Te yr Henoed.
**Yr ardal:** Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis – darlith gan y Dr David Owen, Ysbyty Gwynedd.
**Penisarwaun:** Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
**7, Llun: Deiniolen:** Sefydliad y Merched.
Cyfarfod Blynyddol Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.00.
**Llanberis:** Gyrfa Chwist dan nawdd Pwyllgor Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
**8, Mawrth: Llanrug:** Merched y Wawr – 'Coluro' gyda Mrs Caren Thomas.
**Cwm-y-glo:** Ffair Cynhaeaf er budd yr Eglwys yn yr Ysgol Gymuned am 7.00.
**9, Mercher: Cwm-y-glo:** Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned am 7.30.
**Bethel:** Merched y Wawr – sgwrs gan Mr Maldwyn Thomas ar 'Papurau Newydd Caernarfon'
**10, Iau: Waunfawr:** Clwb Gwyrfai Clwb y Mamau – sgwrs gan Mr Duncan Brown ar 'Cadwraeth Natur'
**11, Gwener:** Noson Lawen yng nghwmni Hogia'r Ddwylan ac artistiaid eraill yn Ysgol Brynrefail am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa, Llanberis.
**12, Sadwrn: Llanrug:** Eisteddfod.
**15, Mawrth: Llanrug:** Y Gymdeithas Undebol.
**Penisarwaun:** Clwb yr Heulwen.
**17, Iau: Llanrug:** Cymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt.
**18, Gwener: Llanberis:** Te yr Henoed
**Yr Ardal:** Yr ysgolion yn cau dros Hanner Tymor.
**19, Sadwrn: Yr Ardal:** Ffair Hydref Merched y Wawr yn 'Feed My Lambs', Caernarfon.
**21, Llun: Penisarwaun:** Ffair Hydref er budd yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys.
**Deiniolen:** Merched y wawr – sgwrs gan Mrs Carys Jones, Penisarwaun.
**Llanberis:** Gyrfa Chwist Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
**23, Mercher: Cwm-y-glo:** Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned am 7.30.
**26, Sadwrn: Llanberis:** Cyfarfod Sefydlu y Parch Gwynfor Williams, BEM, YH yng nghapel Jerusalem am 2 a 6.30.
**Deiniolen:** Eisteddfod Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebenezer.
**28, Llun: Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.15 – sgwrs gan y Parch John Alun Roberts, Abergele ar y testun 'Chwalu'.
**Yr Ardal:** Yr ysgolion yn ail-agor.
**29, Mawrth, Llanrug:** Y Gymdeithas Undebol.
**31, Iau: Llanberis:** Sefydliad y Merched.

**DYDDIADAU I'W COFIIO**

**Tachwedd 2 – Eisteddfod Bethel**
**Tachwedd 4 – Theatr Bara Caws yn perfformio 'Paradwys Ffŵl' yn Ysgol Brynrefail am 7.30**
**Tachwedd 9 – Eisteddfod Waunfawr.**

**DOSBARTHIADAU WEA**

**Deiniolen:** 'Yr Anifail yn ei Gynefin'. Mr Duncan Brown.
Nos Fawrth: am 7.00 yn Ysgol Gwaun Gynfi.
**Dinorwig:**
'Grym Geiriau – Dilyn ambell drywydd llenyddol" – Mr Ifor Baines, BA – nos Iau am 7.00 yn y Ganolfan.
**Llanberis:**
'Gweithdy Drama'. Mr Gruffydd Jones. Nos Fercher, am 7.00 yn Ysgol Dolbadarn.
"Gwerthfawrogi Celfyddyd" Mrs Barbara Owen, ATD, Nos Lun am 7.00 yn Ysgol Dolbadarn.
"Dysgu Cymraeg". Dr Sylvia Prys Jones. Nos Fawrth am 7.00 yn Ysgol Dolbadarn.
"Philosophy and Science". Mr R.J. Stanley, MA. Nos Fawrth am 7.00 yn yr Erw Fair.
"Man and the Sea – Introduction to Marine Ecology and Archaeology". Dr D. Cecil Jones.
**Llanrug:**
"Hanes Lleol ac Olrhain Achau." Mr D. Whiteside Thomas. Mr Iwan Roberts, BSc. Nos Lun am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd.
**Waunfawr:**
"Gwerthfawrogi Celfyddyd". Mr H. Rhydwen Williams. Nos Wener, am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd.
"Agweddau ar Hanes Gwynedd"
'Hanes Chwareli Arfon' Dr Dafydd Roberts, Nos Lun, Hydref am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd.
'Hanes Teulu Glynllifon'. Mr G. Haulfryn Williams, MA, Nos Lun, Hydref 14 a 21 am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd.

## GŴYL DDRAMA Y PENTAN

Am y tro cyntaf eleni yn gysylltiedig â Gŵyl Ddrama Y Pentan, Papur Bro Dyffryn Conwy a'r Glannau, bydd cystadleuaeth ysgrifennu drama fer, addas ar gyfer ei pherfformio mewn Gŵyl Ddrama papurau bro.

Y beirniad fydd Mr Richard T. Jones, Pennaeth Adran Ddrama, BBC., Bangor a chynigir gwobr o £50.

Ceir manylion pellach gan yr ysgrifennydd, Ann Jones, Pant y Carw, Llanrwst, Gwynedd. (Ffôn: Llanrwst 640503)

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

**£5:** Mrs Heulwen Jones, Cyncoed, Stryd Warden, Llanberis; Di-enw; Beti Arthur a Linda, Caergrawnt.
**£3:** Ann a Ken Hughes, 21 Stryd Goodman, Llanberis; Di-enw, Deiniolen.
**£2:** Mr a Mrs R. Vaughan, 1 Rhes Cambrian, Llanberis; Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont, Deiniolen; Mrs Mary Roberts, 6 Llys Elen, Hirael, Bangor; Mr Thomas D. Hughes, Deiniolen; Gan deulu'r ddiweddar Mrs Ann Williams, 3 Y Bwthyn, Deiniolen.
**£1:** Jennifer AEllen, Hafan, 7 Porth y Gogledd, Deiniolen; Mrs Parry, 6 Bro Deiniol, Deiniolen; Mrs Nellie Williams, Baladeulyn, Stryd Newton, Llanberis; Mrs M. Williams, 12 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

**TAITH BLODEUWEDD**

*Dyma gyfle unigryw i weld clasur y theatr Gymraeg 'Blodeuwedd' gan Saunders Lewis mewn cynhyrchiad newydd trawiadol gan Theatrig sy'n cychwyn yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter yng Nghaerdydd ac wedyn yn teithio ledled Cymru.*

*Mae Theatrig wedi bod wrthi'n trefnu a phendroni am y cyflwyniad o Blodeuwedd am gyfnod hir, yn wir dros flwyddyn a chyda cholled yr awdur, Saunders Lewis yn ddiweddar gobeithia Theatrig y bydd y cynhyrchiad hwn yn deyrnged i'w waith.*

*Caiff pobl bro'r Eco gyfle i weld y ddrama yn Stiwdio Ddrama Coleg Prifysgol Bangor nos Lun a nos Fawrth, Tachwedd 11 a 12 am 8.00. Bydd cynhyrchiad yn yr Wyddgrug nos Lun, Tachwedd 4 ac yn Theatr Ardudwy Harlech ar Dachwedd 13 ac 14.*

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU BRO MADOG 1987 CYSTADLEUAETH CYNLLUNIO ARWYDDLUN**

**Penderfynodd Pwyllgor Llywio Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog gynnal cystadleuaeth agored i lunio arwyddlun ar gyfer yr Eisteddfod a gynhelir ym Mhorthmadog yn 1987.**

**Yr hyn a geisir yw arwyddlun syml, hawdd i'w atgynhyrchu, a cheidw'r Pwyllgor yr hawl i addasu unrhyw gynllun buddugol at ddefnydd yr Eisteddfod.**

**Y beirniad fydd Mr Elis Gwyn Jones, Llanystumdwy a dylai'r cynhyrchion fod yn llaw'r Ysgrifenyddion, Mr a Mrs W.R. Jones, Ty'n y Bonc, Llandecwyn, Talsarnau cyn Hydref 18 (dyddiad estynedig).**

**Bydd dau docyn wythnos i Eisteddfod Bro Madog yn wobr i'r buddugol.**


WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
**E. PUGH**
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

**W.H. JONES**
TRYDANWR
**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN:
LLANBERIS 871470**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

**Padarn Lake Hotel**
Perchnogion
Terry a Val Skilki
**STRYD FAWR
LLANBERIS
870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hote ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein llofftydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



# CHWARAEON

## Y GOLOFN SNWCER

### gan Aeron Jones

**Cafwyd diweddglo agos i'r gynghrair y tymor diwethaf gyda thîm gleision Llanrug ar y blaen am y rhan fwyaf o'r tymor, ond cipiwyd y safle cyntaf gan Glwb Llafur Llangefni.**

**Hoffwn ddiolch i Gapteiniaid timau Bethel, Llanrug a Deiniolen am eu cymorth yn ystod y tymor a fu.**

**Eleni bydd tîm Snwcer o Lanberis. Eu capten yw Mr Trefor Edwards, cyn-aelod o dîm Arfon NALGO a Duon Deiniolen. Pob lwc i'r tîm yn eu tymor cyntaf.**

**CANLYNIADAU MIS MEDI:**

**ADRAN A:**
**Gleision Llanrug**
5 : 1 Gleision Marbryn
4 : 2 Ceidwadwyr Bangor (Duon)
**Duon Deiniolen:**
5 : 1 Gleision Porthaethwy
**ADRAN B**
**Gleision Bethel**
3:3 Gleision Deiniolen
4:2 Llanberis
**Duon Bethel**
2:4 Cochion Deiniolen
**Gleision Deiniolen**
3:3 Gleision Bethel
4:2 Duon Bethesda
4:2 Nantlle Brown
**Cochion Deiniolen**
4:2 Duon Bethel
1:5 Cochion Bethesda
2:4 Gwyrdd Nantlle
**Llanberis**
5:1 Duon Llanfair P.G.
2:4 Gleision Bethel
**Cochion Llanrug**
5:1 Cochion Marbryn
6:0 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

**CANLYNIADAU CWPAN PATTISON**

Ceidwadwyr Felinheli (Gelsion) 4-3 Cochion Llanrug
Llanberis 4-2 Ceidwadwyr Bangor (Gleision
Cochion Bethesda 5-1 Gleision Deiniolen
Cochion Deiniolen 4-3 Cochion Groeslon
Duon Deiniolen 6-0 Ceidwadwyr C'fon (Duon)
Ceidwadwyr Bangor (Duon) 2-4 Gleision Llanrug.

**Y GYNGHRAIR**

**ADRAN A**

| | Ch | En | Cyf | Colli | O Bl | Yn Er | +/− | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gleision Llanrug | 2 | 2 | - | - | 9 | 3 | +6 | 4 |
| Duon Deiniolen | 1 | 1 | - | - | 5 | 1 | +4 | 2 |

**ADRAN B**

| | Ch | Ennill | Cyf | Colli | O Bl | Yn Er | +/− | Pts |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gleision D'iolen | 3 | 2 | 1 | - | 11 | 7 | +4 | 5 |
| Cochion Ll'rug | 2 | 2 | - | - | 11 | 1 | +10 | 4 |
| Gleision Bethel | 2 | 1 | 1 | - | 7 | 5 | +2 | 3 |
| Llanberis | 2 | 1 | - | 1 | 7 | 5 | +2 | 2 |
| Cochion D'iolen | 3 | 1 | - | 2 | 7 | 11 | −4 | 2 |
| Duon Bethel | 1 | - | - | 1 | 2 | 4 | −2 | 0 |

## CYMDEITHAS PYSGOTWYR SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI – ADRODDIAD

**Drwy gydol y tymor, mae llynnoedd ac afonydd yr ardal wedi gorlifo eu glannau a chwyno mae llawer o'r pysgotwyr fod eu helfa wedi bod yn symol. Y cwynion mwyaf sydd i'w clywed o Lanberis yw fod y torgoch wedi bod yn dawel iawn, ac ychydig ofnadwy sydd wedi eu dal o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf pan gafwyd tymor eithriadol o dda. Efallai fod gan y baw sydd yn dod i lawr afon Penrallt o'r Allt Ddu rywbeth i'w wneud â hyn.**

Er gwaethaf hyn, mae'r tymor wedi bod yn un derbyniol gyda 'sgota da ofnadwy wedi ei gael hyd at ddiwedd Mehefin.

Wrth feddwl fod yr holl ddŵr wedi bod yn y Seiont, buasai rhywun yn meddwl y buasai nifer fawr o eogiaid a sewin wedi dod i'r rhwyd, ond siomedig fu'r cyfrif hyd at ganol Medi beth bynnag, ond fel arfer nid yw sewin mor brin â'r eog.

Cafodd llawer un hwyl go lew, gyda'r hogia sydd yn mynychu'r hanner uchaf o'r afon yn cael gwell hwyl na hogia Caernarfon. Gan fod y pysgod wedi rhedeg heb oedi am Lyn Padarn, cafodd Clifford Thmas, Felinheli, Alan Ginsberg, Bethel, Emyr Owen, Deiniolen, Goronwy Morris, Jim Carr a Gwynfor Jones o Lanrug, hwyl reit dda gyda sewin hyd at 5 pwys.

Yn ôl pob golwg, Emyr Owen, hyd yn hyn sydd wedi cael yr hwyl orau gyda'r eog, sef pump, y trymaf yn 15 pwys. Yn ôl yr amcan gyfrif rhyw 30 o eogiaid sydd wedi dod o'r Seiont, ond mae llawer mwy wedi eu bachu a'u colli, ac nid stori pysgotwr yw hyn. Mae tua trigain wedi eu colli, mae hyn yn tuneddu i ddangos mai mynd nerth eu carnau maent am y llyn. Mae gobeithion felly am dymhorau gwell i ddod, os caiff yr holl bysgod hyn lonydd i gladdu.

Mae tueddiad gan rai yn yr ardal i botsio, ac maent yn mynd â bob math o bysgod, rhai â'r clwy a rhai wedi dodwy, felly da chwi, os cewch gynnig prynu 'salmon' ar ôl Hydref, sef diwedd y tymor, y tebyg yw ei fod yn aflan, a gellwch trwy ei fwyta beryglu eich iechyd. Y peth gorau i'w wneud yw gadael i'r Bwrdd Dŵr ym Mangor wybod – eu rhif yw 03-351144.

Mae llawer o welliannau i'w gwneud ar yr afonydd ac os gallwch feddwl am welliant, da chwi gadewch i aelod o'r pwyllgor wybod.

H.P. Hughes,
Ysgrifennydd.

# RAS ELIDIR

**Cynhaliwyd ail Ras Fynydd Elidir ddydd Sadwrn Medi 28 mewn amgylchiadau llawer gwell na'r llynedd, ac nid syndod felly oedd i'r rhedwyr cyntaf dorri'r record. Colin Donelly o'r Llu Awyr yn y Fali oedd y cyntaf, mewn amser o 42 munud a 55 eiliad. Yn ail, roedd Hefin Griffiths o Feddgelert, aelod o Glwb Rhedwyr Eryri, a Paul Stott, aelod o dîm Cymry, yn drydydd.**

Wrth ddod yn ail yn y ras hon, gwnaeth Hefin yn sicr o ennill pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Cymru eleni. Ar gyfer y bencampwriaeth, dewisir 9 ras fynydd yng Nghymru – 3 fer, 3 ganolig a 3 hir. Mae canlyniadau 6 o'r rasus yn cael eu cyfrif i ddewis y pencampwr – un ras o bob categori. Canlyniadau eleni oedd:

1af: Hefin Griffiths
2il: Paul Stott
3ydd: Malcolm Jones

Ym Mhencampwriaeth y Merched, aelod arall o Redwyr Eryri oedd ar y brig, sef Angela Carson, ac yn yr adran i ddynion dros 40 oed, Don Williams o Fynydd Llandegai oedd yr enillydd. Rhedwyr Eryri felly yn clirio'r holl wobrau!

Dros benwythnos gwlyb iawn ym mro'r Eco, roedd tîm Rhedeg Mynydd Cymru drosodd yn Bolzano, pentref ym mynyddoedd y Dolomites. Roedd pob tîm cenedlaethol yn rhedeg 2 ras – 6 milltir ar y pnawn Sadwrn, a 12 milltir ar y bore Sul. Cychwynnai'r rasus mewn pentref sy'n uwch na'r Wyddfa, a rhedeg i fyny at uchder o 7,500 metr.

Un tîm oedd gan Gymru oherwydd nad oedd adnoddau ariannol yn caniatáu iddynt anfon dau dîm fel pob gwlad arall. Golygai hyn fod yn rhaid i'r pedwar aelod o dîm Cymru redeg y ddwy ras! Er hynny, rhedodd Hefin Griffith yn arbennig o dda, gan guro dau o redwyr Lloegr yn ei **ail** ras, a diweddu mewn safle anrhydeddus iawn, sef deunawfed.

Gan fod y tymor rhedeg mynydd bellach bron ar ben, mae'r rhedwyr yn troi eu golygon tuag at y rasus traws-gwlad, gyda ras ym Mangor ym mis Tachwedd yn un o'r rhai lleol cyntaf ar y calendr.



*Mrs Joan Glass yn cyflwyno tlws Pencampwr Rhedeg Mynydd Cymru i Hefin Griffith yn Nant Peris.*



*Colin Donelly yn derbyn ei wobr am ennill Ras Elidir oddi wrth noddwr y Ras, Mr E. Bayliss.*

## CYNGHRAIR I DIMAU DAN 12 OED

Yn dilyn llwyddiant Cynghrair Gwyrfai yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae symudiadau ar droed i sefydlu Cynghrair i dimau o fechgyn dan 12 oed.

Gwahoddir hyfforddwyr plant oedran ysgolion cynradd, rhai sydd eisoes yn gysylltiedig â thimau dan 16 oed, neu unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn ffurfio cynghrair o'r fath, i gysylltu â Mr T.N. Williams, 21 Stryd Elinor, Caernarfon (Ffôn 76255). Y bwriad yw trefnu cyfarfod i bawb sydd â diddordeb er mwyn gosod y Gynghrair ar ei thraed. Mae newyddion calonogol yn barod: derbyniwyd tarian hardd i gystadlu amdani.